# ECO'R WYDDFA

Rhif 254 MAWRTH 1999 Pris: 30c


## Canolfan newydd yn derbyn £2000



Mae cynlluniau ar y gweill i ailddatblygu Sefydliad Coffa Llanrug yn Ganolfan Gymunedol i'r pentref. Ac fel hwb mawr i'w hymdrechion mae'r pwyllgor sy'n gyfrifol am y prosiect wedi derbyn addewid o £2000 gan Barc Cartrefi Gwyliau Brynteg, os aiff y gwaith yn ei flaen.

Meddai Mr Bob Thomas, cadeirydd y Sefydliad Coffa: 'Mae gwir angen man cyfarfod addas yn Llanrug i'r grwpiau a chymdeithasau niferus sy'n cwrdd ar hyn o bryd mewn amgylchiadau llai na delfrydol. Rydym wedi cyflwyno cais am grant loteri o £110,000 a fydd yn cwrdd â thua 63% o gost y gwaith. Hefyd, mae'r pentref wrthi'n brysur yn ceisio casglu gweddill yr arian.

'Fel rhan o'n hymdrechion cysylltwyd â James McAllister, perchennog newydd Parc Brynteg, ac roeddem yn falch dros ben o dderbyn ei gefnogaeth i ddatblygiad a fydd o gymorth i bawb yn y pentref.

'Yn ogystal â rhodd hael o £2000, mae Mr McAllister hefyd wedi cynnig dodrefn ac offer cegin a ddaw ar gael oherwydd y gwaith adnewyddu mawr sydd eisoes wedi dechrau ym Mrynteg. Mae'r pentref cyfan yn ddiolchgar i James McAllister a Pharc Gwyliau Brynteg am eu haelioni.'

Dywed James McAllister fod ei gwmni yn falch o gefnogi mentrau cymunedol yn yr ardaloedd lle gweithredant. 'Ar ôl prynu Brynteg ym mis Hydref y llynedd, rydym wedi mynd ati i wella cyfleusterau ac amgylchedd y parc. Mae ein cwmni yn arbenigo mewn gwyliau carafanau o ansawdd uchel iawn i gwsmeriaid dethol. Yn Llanrug, ein nod yw datblygu'r parc cartrefi gwyliau gorau yng Nghymru gyfan, a'n bwriad yw buddsoddi £2 filiwn dros ddwy flynedd a hanner er mwyn gwneud hynny.'

Ychwanegodd, 'Rydym yn defnyddio llafur a chyflenwyr lleol pryd bynnag y bo modd. Pan brynasom y Parc roedd yn cyflogi 12 o staff llawn amser — erbyn hyn mae yno 35. Os aiff ein cynlluniau yn eu blaen, bydd y ffigwr hwn yn codi i 45 o swyddi llawn amser, ynghyd â 12 o swyddi tymhorol, erbyn y flwyddyn 2000.'

# Mae'r bocsus wedi cyrraedd



*Tair o enethod Armenia yn agor y bocsus o Gymru.*

**06.12.98:** Tîm o ugain yn hedfan o Lerpwl am hanner awr wedi dau y prynhawn ac o Stanstead am chwarter wedi un ar ddeg y nos, mewn awyren yn cludo dros 62,000 o focsus yn llawn anrhegion.

**07.12.98:** Cyrraedd Yerevan, prifddinas Armenia, am wyth o'r gloch ar fore heulog braf gyda mynydd Ararat a llawer o fynyddoedd eraill yn y cefndir. Mae yna eira ar y mynyddoedd i gyd — mae'r gaeaf yn hwyr eleni ac nid yw wedi cyrraedd y tiroedd isel eto ac felly rydym yn chwys domen yn ein dillad-isa 'thermal' a'n dillad gaeaf.

Cyfarfod â Levon Bardakjian a'i gynorthwywyr a dechrau gweithio'n syth. Trafaelio ar draws yerevan i'r man lle mae cofgolofn enfawr i gofio am 500,000 o bobl a phlant a laddwyd gan y Twrcïaid yn 1915-16. Ar ôl gwers hanes a gweddi roedd yn rhaid darparu ar gyfer yr hyn oedd i ddod yn ystod y dydd. Mae heddiw'n ddiwrnod pwysib yn Armenia — deng mlynedd union yn ôl y bu'r ddaeargryn erchyll a laddodd 25,000 o bobl gogledd Armenia ac fe adawyd 500,000 o bobl yn ddigartref ac fe ddinistriwyd 58 o drefi a phentrefi yn llwyr.

Yn syth oddi wrth y gofgolofn i bentref y 'Water Tanks' lle mae'r teuluoedd o ffoaduriaid yn byw mewn tai sydd wedi eu gwneud o hen beipiau dŵr. Fe wnaed y cartrefi peipiau hyn ddeng mlynedd yn ôl ac roeddynt i fod yno am flwyddyn ond maent yn dal yno ac mae'r cartrefi hyn yn ofnadwy o oer yn y gaeaf ac yn chwilboeth o dan haul crasboeth yr haf.

Mae'r plant wedi eu casglu

(Parhad ar dudalen 3)

## MAWRTH Y CYNTAF

Weli di nhw
yn eu trowsusa' streips a'u dici-bo-teis,
a'r gwasgodau lliwgar
yn gwasgu ar gyfandir eu boliau?

Weli di nhw
yn hawlio esgus o Fawrth y cyntaf
i arlwyo bord gerbron blonegog wŷr.
Weli di'r rhialtwch
uwch bwrdd y llo-pasgedig-wledd?

Cenhinen y dydd yn edwino
yn nhwll botwm côt-cynffon-fain,
cwrw yn canu clodydd
a gwin yn meddwi y gân.

Sbia,
dacw Mrs Heiffeneted-jones
yn ymestyn yn fronnau i gyd
o'i ffrog coban —
sip o'r sieri —
peswch i grafu'r llwnc.

Ust! Sh! —
clywch lediaith pwysig lais yn llwncdestynnu —
'hir ois i'r iêth
a Cemri fac am bîth'.

Y gryduras dlawd —
roedd hi'n byw yn Stiniog flwyddyn yn ôl.

SELWYN GRIFFITH

# ECO'R WYDDFA

Rhif 254
MAWRTH 1999

*Argraffwyd gan Wasg Gwynedd Cibyn, Caernarfon*

*Cydnabyddir cefnogaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg i'r cyhoeddiad hwn.*



**SWYDDOGION A GOHEBWYR**

**Golygyddol:**
**JOHN PRITCHARD**
**CILFYNYDD, LLANBERIS**
**Ffôn: (01286) 872390**

**IWAN ROBERTS**
**LLEIFIOR, LLANRUG**
**Ffôn: (01286) 675649**

**Cadeirydd Pwyllgor Llywio:**
**ARWEL JONES**
**CAE EBONI, PENISARWAUN**
**Ffôn: (01286) 871274**

**E-bost: ecorwyddfa@AOL.com**

**GOLYGYDD CHWARAEON**
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel. (01248) 670115

**DYDDIADUR Y MIS**
Mrs Margaret Cynfi Griffith, Cynfi, Deiniolen (870394)

**FFOTOGRAFFWR**
Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug (677263)

**DATBLYGU LLUNIAU**
Bryn Jones, Elidir, Allt Dewi, Bangor (01248) 353337 neu 871925

**TREFNYDD HYSBYSEBION**
John Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug (675605)

**TREFNYDD BWNDELU**
Ann Gibbins, Lodj Plas Tirion, Pontrug (673696)

**TREFNYDD ARIANNOL**
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (674839)

**TREFNYDD GWERTHIANT POST**
Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon Bach, Llanrug (650200)

**TREFNYDD PLYGU**
Shioned Griffith (650570)

**GOHEBWYR PENTREFI**

**BETHEL:** Geraint Elis, Cilgeran (01248 670726)
**BRYNREFAIL:** Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed (870580)
**CAEATHRO:** Clive James, Hafan, Bryn Gwna (677438)
**CEUNANT:** Trystan a Sioned Larsen, Bodafon, Ceunant (650799)
**CWM-Y-GLO:** Mrs Iris Rowlands, Glanrafon (872275)
**DEINIOLEN:** W. O. Williams, 6 Rhydfadog, Deiniolen (871259)
**DINORWIG:** Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)
**LLANBERIS:** Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri (870491)
**LLANRUG:** Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn (675384)
**NANT PERIS:** Ann Cumberton, Gwastadnant (870356)
**PENISARWAUN:** Mrs Ann Evans, Sycharth (872407)
**TAN-Y-COED:** Miss Anwen Parry, Ael-y-Bryn (872276)
**WAUNFAWR:** Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr (650570)


## Y RHIFYN NESAF

**Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg**

**NOS IAU, EBRILL 1**

**Deunydd i law'r golygyddion perthnasol**

**NOS LUN, MAWRTH 22**

**Os gwelwch yn dda**

# DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

**Trefnydd Plygu: Mrs Shioned Griffith, Pantafon, Waunfawr, (01286) 650570**

| RHIFYN | DYDDIAD COPI | DYDDIAD PLYGU | BLE? | CYSYLLTU Â |
|---|---|---|---|---|
| EBRILL | MAWRTH 22 | EBRILL 1 | CWM-Y-GLO | Mrs Iris Rowlands |
| MAI | EBRILL 19 | EBRILL 29 | DEINIOLEN | Mr W. O. Roberts |
| MEHEFIN | MAI 17 | MAI 27 | BRYNREFAIL | Mrs L. P. Roberts Williams |
| GORFFENNAF | MEHEFIN 21 | GORFFENNAF 1 | BETHEL | Mr Geraint Ellis |
| AWST | – | – | – | – |
| MEDI | AWST 23 | MEDI 2 | DINORWIG | Miss Marian Jones |
| HYDREF | MEDI 20 | MEDI 30 | PENISARWAUN | Mrs Ann Evans |
| TACHWEDD | HYDREF 18 | HYDREF 28 | LLANBERIS | Mr Gwilym Evans |
| RHAGFYR | TACHWEDD 20 | RHAGFYR 2 | CAEATHRO | Mr Clive James |

## Rhodd unigryw i blant Cymru

Annwyl Olygydd,
Ysgrifennaf atoch i ofyn am eich cymorth i hybu ymwybyddiaeth o brosiect gan Cyngor Ysgolion Sul i baratoi llyr ar gyfer y mileniwm, a fydd yn fyr rhodd iw gyflwyno i blant eich ardal chi.

Bydd yn lyfr unigryw, yn cynnwys dyddiadur i gofnodi hanes yn y flwyddyn 2000, adranhanes y byd dros 2000 o flynyddoedd, storïau'r ffydd o Gymru ac adran o storïau, yn cynnwys stori gan T. Llew Jones, Angharad Tomos, Dafydd Iwan, Caryl Oarry Jones, Wynford Ellis Owen, Mici Plwm, a mwy. Yn ogystalbydd yna fwg mileniwm arbennig, '2000 OED CRIST' ar gael.

Er mwyn gofalu y bydd pob plentyn yn derbyn y rhain, mae'n hanfodol bod yna bwyllgorau lleol yn cyfarfod i drefnu a chodi arian, er mwyn medru cyflwyno'r copïau yn y flwyddyn 2000. Mae taflen wybodaeth lawn ar gael. I dderbyn taflen cysyllter â'r:

Parch. Aled Davies
Cyngor Ysgolion Sul
Ysgol Addysg PCB
Safle'r Normal, Bangor
Gwynedd LL57 2PX,

neu os am sgwrs ffôn cysyllter â Robin Jones ar 01766 770630.

Eisioes mae eglwysi, ysgolion Sul, ysgolion, cynghorau bro, clybiau ac unigolion wedi archebu. Mae'n gyfle i roi rhodd i gofnodi achlysur arbennig.

Yn gywir iawn,

ALED DAVIES
Swyddog Datblygu

## Rali: Her i'r Cynulliad 'le' i'r Gymraeg

Annwyl Olygydd,
Bydd yr etholiad ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cael ei gynnal ar Fai 6ed. Mae gennym tan hynny felly i ddwyn perswâd ar yr ymgeiswyr sy'n gobeithio cael eu hethol ar y corff newydd hwn i weithredu polisïau fydd yn gefnogol i'r Gymraeg a dyfodol ein cymunedau.

Rhaid i'r Cynulliad fod yn drwyadl ddwyieithog o'r cychwyn cyntaf a galwn ar i bawb a etholir siarad Cymraeg yn y Cynulliad neu ymrwymo i ddysgu'r iaith. Mae'n bwysig hefyd fod y Cynulliad Cenedlaethol yn mabwysiadu polisïau mewn meysydd fel addysg, cynllunio a'r economi fydd yn hybu'r Gymraeg. Ein gobaith mawr yw y bydd y drefn wleidyddol newydd yng Nghymru yn adfywio ein cymunedau gan eu gwneud yn llefydd y bydd ein pobl ifanc yn gallu aros i fyw a gweithio ynddynt.

Er mwyn gwneud yn siŵr fod y Cynulliad Cenedlaethol yn gweithio trosom mae Cymdeithas yr Iaith Gymraeg yn trefnu cyfres o ralïau drwy Gymru benbaladr. Thema'r ralïau yw 'Yr Her i'r Cynulliad — Ie i'r Gymraeg'. Cynhelir un o'r ralïau hyn ym Mhorthmadog (ym maes parcio'r Pioneer am 2 o'r gloch), dydd Sadwrn, 3 Ebrill. Y siaradwyr fydd Sian Howys, Angharad Tomos a'r Cynghorydd Richard Parry Hughes. Dewch draw fel y gallwn wneud yn siŵr fod y Cynulliad Cenedlaethol yn gweithio drosom ni.

Yn gywir,

GWYN SIÔN IFAN
Cadeirydd Rhanbarth Gwynedd
Cymdeithas yr Iaith Gymraeg

## Tlws John a Ceridwen Hughes

Annwyl gyfaill,
Daeth yn amser unwaith eto i ni ystyried enwau ar gyfer y tlws uchod. Fel y cofiwch, mae'r Urdd wedi derbyn cynnig caredig y teulu i gyflwyno tlws pob blwyddyn yn ystod Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd i unigolyn sydd wedi gwneud cyfraniad sylweddol i ieuenctid Cymru.

Hoffwn dynnu eich sylw at ychydig o bwyntiau:

1. Gellir ystyried rhywun sydd wedi cyfrannu at waith ieuenctid yn y gorffennol ond sydd wedi rhoi gorau iddi erbyn hyn, yn ogystal, wrth gwrs, a rhai sy'n dal i weithio gyda phobl ifanc.
2. Derbynnir enwebiadau gan unigolion neu fudiadau neu bwyllgorau.
3. Ni fyddwn yn cysylltu ag unigolyn nes iddo/iddi gyrraedd y rhestr fer.
4. Gofynnir i chi ddefnyddio'r ffurflen enwebu briodol sydd ar gael o'r cyfeiriad uchod.

Gofynnir i chi ddychwelyd y ffurflen i'r Prif Weithredwr cyn **9 Ebrill 1999** (gan nodi 'Tlws John a Ceridwen Hughes' ar yr amlen).

Cysylltwch â mi os ydych yn dymuno cael mwy o wybodaeth.

Yn gwir,

MAIR ELUNED
Swyddfa'r Urdd
Ffordd Llanbadarn
Aberystwyth SY23 1EN
Ffôn: (01970) 623744

## Enwau Cyntaf Cymraeg

Annwyl Olygydd,
Rwyf yn gwneud casgliad o enwau cyntaf Cymraeg, gan geisio bod mor gynhwysfawr â phosibl. Hyd yn hyn rwyf wedi casglu tua 1,600 o enwau. Buaswn yn ddiolchgar pe bai eich darllenwyr sy'n gwybod am enwau Cymraeg anghyffredin neu brin yn cysylltu â mi cyn gynted ag y bo modd.

Yr eiddoch yn ffyddlon,

MEIC STEPHENS
10 Heol Don, Yr Eglwys Newydd,
Caerdydd CF4 2AU
Ffôn: (01222) 623359

## Dyddiaduron y Mileniwm

Annwyl Olygydd,
Mae dyddiaduron poced a desg Y Lolfa ar gyfer y flwyddyn 2000 yn cael eu paratoi ar hyn o bryd. Hoffwn eich gwahodd i anfon unrhyw wybodaeth berthnasol i'w cynnwys yng nghyfeiriadur y dyddiaduron erbyn y cyntaf o Fawrth fan bellaf. Er mwyn i gyfeiriadur y milflwyddiant fod mor gywir â phosib hoffem wybod am unrhyw gwmnïau neu sefydliadau newydd sydd heb eu cynnwys yn nyddiaduron 1999, yn ogystal ag unrhyw wybodaeth sydd wedi newid neu sy'n ddiffygiol.

Eleni, fel arfer, mae croeso i unrhyw gwmni neu sefydliad hysbysebu yn y dyddiadur desg. Mae'r telerau yn rhesymol dros ben. Os am ragor o fanylion cysylltwch â'r Lolfa ar unwaith.

Gan ddiolch am eich cydweithrediad.

Yn ddiffuant,

LEFI GRUFFUDD
Y Lolfa Cyf, Talybont,
Ceredgion SY24 5AP
Ffôn: (01970) 832304


SPAR

**Y STORFA LLANRUG**

**(Richard a Meirwen Williams)**

**Ffôn: (01286) 672790**

Ar agor bob dydd o'r wythnos at eich gwasanaeth

**Nid oes unrhyw dâl am ddanfon archeb i'ch cartref yn ardal Llanrug**

MAE'R BOCSUS WEDI CYRRAEDD — parhad o dudalen 1

ynghyd y tu allan i ganolfan y CCMI (Christian Cultural Ministries International) yn y pentref. Levon Bardakjian yw llywydd y CCMI ac mae ef a'i gynorthwywyr wedi paratoi'r plant i roi croeso cynnes i'r ymwelwyr o Brydain gyda chân neu ddwy. Mae cyffro yn yr awyr ac mae'r plant i gyd yn barod i dderbyn eu anrhegion Nadolig oddi wrth blant ledled Prydain. Mae rhai o'r plant wedi dysgu ychydig o Saesneg ac felly'n medru dweud 'diolch' rhwng gwenu a chwerthin ymysg eu gilydd cyn ei hel hi am adra i ddangos eu bocs i'w mam a'u tad.

Symud wedyn i ysgol arall. Yma mae'r plant yn cael eu dysgu mewn adeilad a oedd gynt yn garchar ac fel y gellwch ddychmygu does dim gwres yno o gwbl, dim lluniau lliw ar y waliau dim ond desgiau a chadeiriau — a'r rheiny mewn cyflwr digon gwael. Ond er hynny, roedd y plant yn canu ac yn dawnsio'n frwdfrydig ac yn disgwyl yn eiddgar am eu bocsus. Mae'r plant i gyd yn ddiolchgar dros ben am eu anrhegion. Mae'n amlwg fod yr oedolion, athrawon a'r rhieni sy'n aros y tu allan i'r ysgol yn ddiolchgar hefyd.

Cael tipyn o ginio cyn gadael am y drydedd ysgol, eto yn Yerevan. Ysgol yw hon gyda 120 o blant dan anfantais meddyliol a chorfforol. Dywedodd y prifathro wrthyf fod y rhan fwyaf o'r plant yn dod i'r ysgol bob dydd a bod rhai eraill ohonynt yn aros yno drwy'r wythnos gan fynd adref dros y penwythnos a hynny am eu bod o deulu un rhiant ac mae'n orfodol fod y rhiaint yn mynd i weithio i gael arian y gynnal y teulu. Roedd rhai o'r plant yn amddifad ac felly yn gorfod byw yn yr ysgol ac ar achlysuron arbennig mae'r athrawon yn mynd a nhw i'w cartrefi eu hunain am ychydig ddyddiau. Tlawd iawn oedd popeth yn yr ysgol — ond gwn fy mod yn beirniadu'n ormodol oherwydd safon y wlad yma gan anghofio bod cyfleusterau mewn llawer o'r gwledydd yn y rhan yma o'r byd yn isel iawn.

Erbyn hyn mae'r nos wedi cyrraedd ac yn y rhan fwyaf o ardaloedd Yerevan a thrwy Armenia does yna ddim golau trydan ar y ffyrdd. (Mae'r sefyllfa yn fy atgoffa am Lanberis adeg yr Ail Ryfel Byd a ninnau'r plant yn chwarae yn y strydoedd tywyll.) Roedd hi fel bol buwch a ninnau fel tîm ar ein ffordd i'r 'Lighthouse', sef dau bloc o fflatiau uchel sy'n gartrefi i gannoedd o ffoaduriaid o ardaloedd lle bu'r daeargryn ac hefyd o Arminiaid o wledydd fel Azerbaijan sydd wedi cael eu gyrru adref. Mae CCMI yn gweithio yn y gymuned i geisio gwneud pethau'n well i'r teuluoedd hyn. Yma eto roedd dros 200 o blant o bob oed yn ein disgwyl ac yn barod i ganu i ni. Wedi rhannu'r bocsus i'r plant hapus, troi'n ôl wedyn i'r pencadlys am baned o de ac yna i'r gwely.

**08.12.98:** Codi'n fore a thrafaelio dros 200 milltir i ddinas G'umri yng ngogledd Armenia. Mae'r ddinas ar ymyl y rhan o'r wlad a ddinistriwyd gan y ddaeargryn ddeng mlynedd yn ôl. Mae olion y difrod wedi eu clirio ond mae'r eglwys gadeirion sydd yng nghanol y ddinas yn dal i fod yn arwydd o'r hyn a ddigwyddodd — dim ond rwbel a darnau o'r muriau sydd ar ôl. Anodd iawn oedd sefyll wrth yr eglwys a meddwl sut yr edrychai'r lle cyn y chwalfa.

Yna darparu'r bocsus mewn neuadd yng nghanol y ddinas, lle roedd tua 750 o blant o bob oed yn disgwyl am eu anrhegion. Symud wedyn i ysgol babanod i wrando a gwylio mwy o ganu a dawnsio brwd gan y plant bach cyn dosbarthu y boscus. Roedd gweddill y diwrnod yr un mor brysur. Ar ddiwedd y dydd — yn y tywyllwch — trafaelio dros y mynyddoedd yn ôl i Yerevan.

**09.12.09-10.12.98:** Diwrnodau prysur dros ben gyda llawer o drafaelio i ardaloedd mynyddig yng ngogledd Armenia yn agos iawn i'r ffin ag Azerbaijan. Ym mhentref Berd mae olion y saethu fu dros y blynyddoedd. Mae ffenestri'r neuadd, lle roedd y plant yn disgwyl yn amyneddgar, yn dal i fod heb wydr wedi'r saethu a'r rhyfela. Bu'n rhaid trafaelio am ddwy awr dros y mynyddoedd ar hyd llwybr caregog cyn cyrraedd Berd ac wedi gorffen yno siwrnai hir yn ôl yn y tywyllwch.

Yn ystod y pedwar diwrnod fe ranasom dros 5,500 o focsus i'r plant. Mewn rhannau eraill o'r wlad roedd gweithwyr CCMI yn dosbarthu miliynau o focsus eraill. Mae'r straeon yn wir — mae'r bocsus wedi cyrraedd ac maent yn rhoi mwynhad mawr i blant ledled y byd.

**11.12.98:** Gadael Yerevan ar fore heulog braf gan hedfan yn ôl i Brydain.

**Diolch i bawb ym mro *Eco'r Wyddfa* am eich haelioni.**



*Plant Armenia yn mwynhau'r anrhegion a ddaeth yn y bocsus.*

## Llwyddiant Cenedlaethol i Dewi

Roedd Band Ysgolion Gwynedd a môn (Ieuenctid) yn dathlu yn ddiweddar ar ôl ennill Pencampwriaeth Bandiau Ieuenctid Prydain mewn cystadleuaeth ym Manceinion.

Roedd 18 o fandiau pres ieuenctid o'r Alban, Cymru a Lloegr yn cystadlu ac yn ôl y beirniad roedd dau o'r bandiau mewn cynghrair ar wahân i'r gweddill, sef Band Gwynedd a Môn a Band Ieuenctid St. Keverne o Gernyw. Dywedodd y beirniad hefyd fod Band Gwynedd a Môn filltiroedd ar y blaen i'r band o Gernyw.

**Dewi Griffiths, 17 oed o Fethel, Caernarfon, sy'n ddisgybl yn Ysgol Brynrefail oedd yr unawdydd gorau o blith aelodau'r 18 band. Fo ydi prif gornedydd Band Ysgolion Gwynedd a Môn.**

Dywedodd Dennis Williams, Rheolwr Gwasanaeth Ysgolion William Mathias: 'Mae aelodau'r Band hefyd yn aelodau o fandiau pres lleol mewn gwahanol gymunedau yng Ngwynedd a Môn ac mae cydweithrediad y bandiau lleol yn allweddol i lwyddiant y Band Ieuenctid. Mae hi'n gyfnod o ffynnu ar y bandiau lleol. Mae rhai wedi eu hatgyfodi — fel Band Harlech — eraill wedi cael offerynnau newydd ac eraill — fel Band Deiniolen — wedi cael cartref newydd yn sgil cael arian o'r Loteri. Y bandiau lleol a'r gweithgaredd yn y cymunedau sy'n rhannol gyfrifol am safon uchel y Band.'

## Cynllun Cymunedol

Oes gennych chi gynllun cymunedol sydd angen ein ddatblygu neu ryw syniad am brosiect yn eich bro yr hoffech ei drafod? Os oes, mae Eirian Pierce Jones, Swyddog Adfywio Bro Gwyrfai ar ben arll y ffôn i gynnig arweiniad i chi. Gallwch gysylltu â hi yn ei swyddfa yng Nghanolfan Gymunedol Waunfawr ar (01286) 650 779.

Erbyn hyn mae nifer o gyrff wedi cysylltu ag Eirian ac wrthi'n troi eu syniadau yn gynlluniau real. Hefyd bydd canlyniadau arolwg bro Waunfawr a Chaeathro ar gael cyn hir felly bydd cyfle i drigolion y pentrefi ddarganfod syniadau newydd ar gyfer eu bro. Mae Cyngor Betws Garmon am ddechrau ar y broses arolwg bro hefyd drwy gynnal cyfarfod cyhoeddus yn Rhyd-ddu i drafod â thrigolion y fro — gwyliwch y golofn yma fis nesaf am fwy o fanylion.

Cofiwch ei bod yn hawdd dod yn rhan o fwrlwm adfywio bro Gwyrfai — cysylltwg ag Eirian a gwnewch y mwyaf o'ch Gwasanaeth Adfywio Bro a sefydlwyd gan Gyngor Gwynedd gydag arian Ewropeaidd.

## Newyddion Llanrug

LLONGYFARCHIADAU i Catrin Thomas, Bron y Nant ar ennill ei gradd M.A. mewn hanes o brifysgol Bangor.

## HELP I BLYGU!

**Mae angen cysylltydd i drenfu plygu Eco'r Wyddfa yn Llanrug.**

**Amser i'r swydd: un noson mewn blwyddyn!**

**Cysylltwch ag Arwel Jones (01286) 871274 neu Mrs Sioned Griffith (01286) 650570**

EMYR JONES
PLYMAR A PHEIRIANNYDD GWRESOGI
Cynnal boileri nwy, olew, tanwydd solat a thrédio peipiau
44 Glanffynnon LLANRUG
Caernarfon
673513

# O SIAMBAR SELWYN

Dyna fis bach ola'r ganrif wedi diflannu. Wnes i ddim sylwi ei fod o'n llithro ymaith ynghynt na'r Ionawr a fu o'i flaen. Ond yn sicr mae blynyddoedd yn gwibio yn rhyfeddol o gyflym. Mae deng mlynedd wedi mynd ers Steddfod Genedlaethol Dyffron Conwy — mae'n anodd coelio.

Ond beth am y 'mis bach' 'ma? Chwefror unwaith oedd mis olaf y flwyddyn, ond ar hyd y canrifoedd bu un peth yn wir am Chwefror, sef mai ef oedd y byrraf o'r holl fisoedd.

Yn Rhufain yn yr hen ddyddiau cynhelid gwyliau pwysig yn ystod y mis hwn, ac o'r rheiny y cafwyd yr enw *Februa* sy'n debyg iawn i *February* y Sais. Tua chanol y mis hwn hefyd fe arferai'r Rhufeiniaid gyflwyno rhoddion yn eu mynwentydd er cof am eu meirw, rhywbeth yn debyg i'n arferiad ni ar Sul y Blodau. ia, mis digon trist oedd Chwefror gynt.

Ond y peth hynotaf amdano yw ei hyd. Yr enw arno yw 'mis bach', a stori drist yw'r stori sut y cafodd yr enw. Wyth diwrnod ar hugain sydd ganddo, ond pob pedair blynedd rhoddir iddo un dydd ychwanegol.

Cweryl rhwng dau fis arall yw'r esboniad pam mae Chwefror mor fyr. A'r ddau fis arall yw *Gorffennaf* ac *Awst.*

Yr *oedd* gan Gorffennaf *31* o ddyddiau ac Awst dim ond *30.* Cenfigennai Awst tuag at Orffennaf am hynny, ac roedd am gael yr un faint o ddyddiau.

Wrth chwilio ymhlith y misoedd eraill fe sylwodd ar un bach digon dinod, mis bychan gyda dim ond *29* o ddyddiau. Penderfynodd Awst ladrata un o ddyddiau prin Chwefror, ac o ganlyniad doedd gan Chwefror bellach ond *28* o ddyddiau, pryd yr oedd gan Awst a Gorffennaf 31. Rêl bwli ynte — ymosod ar un bach a gwantan.

Does ryfedd yn y byd felly fod Chwefror yn fis bach digon trist a dagreuol. Os Mawrth yw mis y gwyntoedd. Chwefror yw mis y glaw.

Mae gan y Saeson hen ddywediad: *February fill-dyke.* Hen goel hefyd yw nad yw Chwefror rhy sych neu rhy braf yn argoel dda am wanwyn a haf dymunol:

*Y Chwefror ddaw a'r eira*
*Yw'r Chwefror ddaw a'r haf*

Darllenais yn rhywle fod hynafiaid y Saeson yn arfer galw'r mis yn *Solmonath,* sef mis yr haul yn esgyn i fyny yn y ffurfafen.

Gwyliau Rhufeinig a roes eu henw ar y mis hwn gynt *(Februaia)* a byth er hynny bu'r mis bach yn enwog am ei wyliau. Tua'r cychwyn dethlid hen *ŵyl bendithio'r canhwyllau (Candlemas);* tua'i ganol, fel y cawn ein hatoffa'n aml — dydd *Sant Folant,* ac wrth gwrs dydd Mawrth crempog.

Ond os mis bach mi fu'n fis prysur iawn, mis o grwydro.

Yn ystod y mis mi fûm i mewn llefydd cwbwl wahanol i'w gilydd. O *Gaerhun* i *Babacoome,* o *Llanddoged* i *Holme Lacy,* ac ar hyn o bryd rwy'n mwynhau dathlu wythnos Albanaidd yn *Dunoon.*

Mi fûm i drwy *Gaerhun* droeon ond wnes i erioed aros yno. Cefais noson ddifyr yn y Gymdeithas Lenyddol yno. Fûm i rioed yn *Llanddoged* chwaith, ac mis ges i gryn drafferth i ddod o hyd i gapel Salem. Diolch i ysgrifenyddes y Gymdeithas am y map, a thrwy holi yn nrws un neu ddau o dai, fe gyrhaeddais mewn da bryd. Capel mewn llecyn anghysbell, gwair yn tyfu ar ganol y ffyrdd cul, troellog a hithau'n noson oer a rhewllyd. *'Ddaw na fawr neb i'r fath le ar ffasiwn noson,'* meddwn, ond o gyrraedd y festri, cael y lle yn orlawn a'r rhan fwya yn bobol ifanc, a dyna falch yr oeddwn o gael fy hen gyfaill T. J. Williams yn gadeirydd am y noson. T.J. a minnau wedi cydfeirniadu a'n gilydd droeon mewn eisteddfodau ledled Cymru ac wedi cael hwyl o dynnu coesau ein gilydd. Cafwyd noson ddifyr, llawn o atgofion ac yn lloffi y festri, ar ôl y cyfarfod, roedd 'na *de bach* a thanllwyth o dân yn y grât. Oedd roedd hi'n anodd mynd allan i'r oerni ar ôl cynhesrwydd y croeso.


Cefais wythnos ddifyr yn Babacoome, ger Torquay hefyd. Pedair oed oedd Euron pan fuom ni yma ddiwetha, a newydd agor oedd y 'model village' enwog. Do fe lifodd yr atgofion yn ôl yn Babacoome hefyd.

Ond rŵan ta. Ble mae'r *Holme Lacy House* 'ma meddwch? Wel, hen blasdy hanesyddol tua pedair milltir o Henffordd (Hereford) ydio, sydd bellach wedi ei droi yn westy moethus, gyda pob cyfleusterau ar gyfer ymwelwyr — cyfle i chi ddangos eich dawn fel Robin Hood, pwll nofio, saunsa, meysydd bowlio, byrddau snwcer, ystafelloedd moethus, a digonedd o fwyd. Gellwch ddefnyddio'r holl gyfleusterau yn rhad ac am ddim ac fe gewch gyfle i gerdded llwybrau'r fro yn ogystal. Lle delfrydol i fynd am seibiant, ac i golli pwysau gyda'r bowlio a'r nofio, ond yn anffodus i ennill pwysau hefyd hefo'r holl fwydydd a geir yno i'ch temtio.

Does ryfedd i'r mis bach fynd heibio mor sydyn. Dyma fi bellach yn Dunoon ac mae'n ymddangos y bydd yr wythnos hon yn mynd fel y gwynt hefyd. Mae croeso'r Alban yn gynnes bob tro — yn enwedi i ni'r Cymry.

'Dew, pa wisgi oedd hwnna, d'udwch? Un arall plîs!'

## Jerry M



*Ernie Piggot yn marchogaeth 'Jerry M'.*

Mae tîm pêl-droed Llanberis — Y Darans — wedi gwisgo crysau ambr a du ers cyn troa y ganrif ac yn parhau i wneud hynny hyd heddiw. Y rheswm dros y dewis oedd mai'r lliwiau yma a wisgai reidwyr neu jocis rasio stâd y Faenol. Cadwai perchennog Chwarel Dinorwig un o stablau ceffylau rasio mwyaf adnabyddus Prydain hyd at 1926.

Un o'r ceffylau enwocaf oedd 'Jerry M'. Nid oedd wedi rhedeg am ddwy flynedd cyn ei lwyddiant yn y Grand National yn 1912. Profodd iddo fod yn un o'r enillwyr mwyaf poblogaidd erioed yn y râs fawr hon oherwydd iddo gario 12 stôn 6 phwys ar ei gefn. Dyna'r pwysau trymaf erioed i geffyl ei gario yn y Grand National a mynych y clywir yr enw Jerry M yn cael ei grybwyll yn y cylchoedd rasio hyd heddiw gan y gwybodusion.


Y joci oedd yn marchogaeth Jerry M ar ddiwrnod y râs fawr yn 1912 oedd Ernie Piggot, prif joci stâd y Faenol ar y pryd. Mae'r cyfenw mor gyfarwydd i ni heddiw onid yw? Ef oedd tad yr enwog Lester Piggot, joci rasio fflat enwoca'r ganrif. Diddorol nodi mai rasio dros glwydi a ddaeth a'i dad i amlygrwydd a hynny ar geffylau stâd y Faenol.

Arferiad diddorol arall yn Chwarel Dinorwig oedd enwi injans stêm y poncia ar ôl ceffylau'r Faenol. Dyma rai ohonynt: Rough Pup; Jerry M; Crackler; Benstein; Wild Aster; Red Damsel a Lady Madcap.

T. J. ROBERTS (Twm John)


E. W. Pritchard
CENTRAL GARAGE
Llanberis
Ffôn: (01286) 870202 a 870272
TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

GWYN JONES
FFENESTRI ERYRI
GARTH ISAF, LLANRUG
(01286) 650764
neu W. G. Roberts (Wil Korea) 676741
★ Ffenestri ★ Drysau ★ Drysau Patio



★ Porches
★ Byrddau Ffasia
★ Cladio
★ Conserfateris
12 MLYNEDD O BROFIAD YN Y MAES

## 'Un funud fach . . .'

### 'GALWCH ETO'

Dwi'n gwybod mai trio helpu mae hi, ond dwi 'di 'laru gwrando ar y ddynas ffôn yn dweud, *'The person you are calling knows you are waiting. Please hold the line while we try to connect you.'* Ac wedi methu gwneud hynny mae'n dweud, *'The person you are calling is busy on another line. Please try again later.'* Mae dau beth yn fy ngwylltio. Pam na all y ddynas siarad Cymraeg, a pham fod rhaid i mi dalu am gael gwybod bod y person yr wyf yn ei ffonio yn siarad efo rhywun arall? Mae'r 'pips' cyffredin yn dweud yr un peth wrthyf yn rhad ac am ddim. Ffordd gyfrwys o ychwanegu at ein bil ffôn yw'r gwasanaeth gwirion yma.

Byddai'n dda gen i petai ffonio mor rhwydd â gweddïo. Does dim angen cysylltydd rhyngom â Duw gan ein bod yn gallu mynd yn syth ato ef yn ein gweddïau. Does dim rhaid i'r un ohonom gael offeiriad na gweinidog na sant i sefyll rhyngom ni a'r Brenin Mawr.

Ac mae'r lein at Dduw bob amser yn glir. Mae ef yn barod i wrando arnom unrhyw adeg y trown ato. Nid yw byth yn rhy brysur. Mae'r Un sy'n cynnal y greadigaeth fawr yn gwrando ar rai gwael fel ni. Pa argyfwng bynnag sy'n mynnu ei sylw mewn man arall, mae gan Dduw amser i wrando ar ein cwyn ninnau. Does dim byd yn ddibwys yn ei olwg.

Ac mae'r llwybr ato yn rhad. Does dim angen talu i gael sylw'r Brenin Mawr. Dydio'n costio dim i ni alw ar Dduw. Gallwn weddio bob dydd, beth bynnag ein hamgylchiadau, a gwybod bod Duw wrth law. Nid yw'n disgwyl i ni dalu am gael ei sylw. Nid oes raid i ni fod yn berffaith cyn dod ato. Nid oes raid i ni hyd yn oed geisio profi ein bod yn well nag yr ydym. Mae gennym Dduw trugarog sy'n caru ein gweld yn dod ato'n gyson efo'n mawl a'n diolch a'n cwynion a'n deisyfiadau.

JOHN PRITCHARD

# BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

Camera yn ngofal Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl. Ffôn: (01248) 670115

CLWB BRO BETHEL. Yn ystod y cyfarfod diwethaf anfonwyd cyfarchion am wellhad buan i Mary Hughes a Mair Jones, y ddwy wedi bod yn wael yn ddiweddar. Atgoffwyd yr aelodau bod yn amser talu tanysgrifiad i'r trysorydd. Nodwyd gan yr ysgrifennydd fod llythyrau o ddiolch wedi eu hanfon i'r rhai a gyflwynodd roddion ariannol i'r Clwb dros gyfnod y Nadolig. Bydd cyfarfod y mis nesaf yn cymryd lle yn neuadd yr Ysgol Gynradd, trwy wahoddiad y prifathro a'r athrawon, ar 2 Mawrth am 1.30 p.m. Gofynnwyd i bawb ddod a chwpan, soser a phlât gyda nhw i'r cyfarfod.

CYMDEITHAS LENYDDOL. Cynhaliwyd cyfarfod mis Chwefror yn festri Bethel gyda Llinos Williams yn llywyddu. Mererid Mair Williams oedd y siaradwraig wadd a chafwyd ganddi hanes hynod o ddiddorol gyda chymorth sleidiau, o'r chwe mis a dreuliodd yn yr India. Diolchwyd iddi gan y Parchg W. R. Williams a gofalwyd am y baned gan Ivy Wright ac Ann Williams.

DIOLCHIADAU

Dymuna Dewi Griffiths, Llwyn Eithin ddiolch yn fawr i'r llu ffrindiau, cymdogion a'r ardalwyr am y cardiau a'r rhoddion a dderbyniodd ar achlysur ei ben-blwydd yn 18 oed.

Dymuna John ac Elizabeth, Blaen Parc, Bethel ddiolch i'w plant, teulu a ffrindiau am yr anrhegion, blodau, cardiau a'r galwadau ffôn a dderbyniasant ar ddathlu eu Priodas Rhuddem ar 14 Chwefror. Diolch i David a Margaret, Tŷ Capel Cysegr am y gacen arbennig o hardd yn rhodd at y dathliad. Diolch hefyd i staff gwesty'r Black Boy, Caernarfon am y cinio a'r croeso.

Dymuna Mair Jones, Cilan ddiolch o galon i'w theulu, cymdogion a chyfeillion am bob dymuniad da, cymwynas ac arwydd o gyfeillgarwch iddi yn ystod ei gwaeledd.

LLONGYFARCHIADAU a dymuniadau gorau i Dewi Griffiths, Llwyn Eithin ar ddathlu ei ben-blwydd yn 18 oed.

MERCHED Y WAWR. Cyfarfu'r gangen nos Fercher, Chwefror 10 yn neuadd yr Ysgol. Croesawyd pawb gan y llywydd Mrs Anne Ellis. Estynnodd longyfarchiadau i Elisabeth a John Evans, Blaen Parc ar ddathlu eu Priodas Rhuddem yn ddiweddar, a hefyd i Dewi Griffiths, Llwyn Eithin ar gael ei enwi yn unawdydd gorau mewn cystadleuaeth Bandiau Prydeinig yn Manceinion.

Cafwyd noson ddiddorol iawn yng nghwmni Ms Jan Daniels, therapydd holistic o Rachub a fu'n trafod aromatherapy. Diolchwyd iddi gan Mrs June Owen. Darparwyd y te gan mrs Ellen Elis, Miss Elisabeth Watkins a Mrs Deilwen Hughes. Enillydd y raff oedd Mrs Gwyneth Williams.

Y cyfarfod nesaf fydd y cinio Gŵyl ddewi yng ngwesty'r Bulkeley, Biwmares, nos Fercher, Mawrth 10, y bws i gychwyn o Benrhos am 6.45 p.m. Mr Gerallt Lloyd Owen fydd y gŵr gwadd.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL. Nos Fawrth, 23 Chwefror cafwyd noson ddifyr iawn yng nghwmni Mererid Williams pan gafwyd sgwrs a sleidiau ar ei chyfnod yn India. Cyflwynwyd Miss Williams gan y llywydd, Llinos Williams, a diolchwyd iddi gan y Parchedig W. R. Williams.

ENILLWYR Clwb 200 y Neuadd Goffa am fis Ionawr: £20 Emma Bardsley, Windy Corner (3); £10 Judit Jones, Gwelfor, Saron (201); £5 yr un i Medwen Green, Medfyn, Corra Lin (188); Gareth Jones, Llys Elen, Tre Gof (224); Walter Griffiths, Ivy Cottage (189); Dafydd Jones, 10 Tan-y-buarth (127); Olga Davies, 10 Tan-y-cae (172); Carol Ann Jones, Penmaen, Saron (98); Dennis Harrison, Bakhita (181); Ian Mercer, Roslyn, Tan-y-ffordd (9).



*Brian Jones, perchennog y Gors Bach, yn cyflwyno siec o £50 i Siôn Williams, ar ran Clwb Pêl-droed Bethel a £50 i Maldwyn Hughes, trefnydd cwisiau'r Gors Bach, ar ran Clwb Bro Bethel.*

## DRAENOG



**Clywais am saethwr o Fethel wnaeth argraff ar ffermwr o'r fro gyda safon ei saethu. Mynnodd y ffermwr ei wobrwyo — rhyw Oscar award — trwy gyflwyno i'r saethwr sachaid o rwdins. Ond, rhywfodd fe anfonwyd y sachaid rwdins i'r tŷ anghywir. Chlywyd dim sôn wedyn beth ddigwyddodd i'r rwdins — dipyn o stwnsh ddwedwn i!**


Cefnogwch ein Hysbysebwyr

MAE'R
SAMARIAID
YN GWRANDO
YN ABBEY ROAD
BANGOR
(01248)
354646

CEIR
ADAM

HURIO PREIFAT
YN UNIG
★
LLEOL NEU HIRBELL
★
LLANBERIS
871539

Wavell
Roberts
CIGYDD
London House
LLANRUG
Ffôn: (01286) 673574
PEN CIGYDD Y FRO
Yr ŵyn lleol mwyaf blasus
Selsig cartref
Cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist
MYNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!

CANOLFAN
FFITRWYDD P.C.
Hen Safle Marconi
Waunfawr
(01286) 650011
★ OFFER RHAGOROL ★
★ YSTAFELLOEDD NEWID ★
★ CAWODYDD ★
★ TALU WRTH Y DRWS ★
★ DIM ANGEN CADW LLE ★
ORIAU AGOR:
11 a.m. - 9 p.m. Llun - Gwener
10 a.m. - 9 p.m. Penwythnosau
PRISIAU:
1 sesiwn £3 10 sesiwn £25
Tocynnau 6 a 12 mis ar gael

OSMOND SHAW
DEINIOLEN

GWERTHU
- TRWSIO
★ Teledu ★ Fideo
★ Offer Trydan
Gwasanaeth Ffôn 24awr
(01286) 870545

# CHWILOTA



## PROBLEMAU EWYLLYS YN Y DDEUNAWFED GANRIF

**Yr hyn sy'n codi gwrychyn rhywun yn aml yw darganfod stori ddiddorol ond methu a dargafnod ei diwedd! Dyna'n union sydd wedi digwydd imi yn ddiweddar wrth geisio datrys dirgelwch ewyllys gwraig a fu'n byw yn Llanddeiniolen a Llanrug yn ystod y ddeunawfed ganrif, ond a ddeuai'n wreiddiol (mae'n debyg!) o Fôn. Gwnaeth Mary Lewis, gwraig weddw a fu'n byw yn y Ddôl, Llanddeiniolen, ei hewyllys ar y cyntaf o Fedi 1786. Ar y pryd roedd yn byw yn Tyddyn y Cae, ardal Pontrug, plwyf Llanrug. Flwyddyn yn ddiweddarach y profwyd yr ewyllys — ond bu trafferthion a arweiniodd i achos Llys.**

Pedwar o ddynion sy'n cael eu henwi yn ei hewyllys: Hugh Griffith o Dyddyn y Cae; William Thomas o Gilgwythwch, Llanrug; Robert Williams o Lwynhudol, Caernarfon; a William Jones, ei mab. Mae William Thomas a Robert Williams yn cael eu henwi fel ymddiriedolwyr yn unig. Y tystion oedd William Evans, Caernarfon; John Jones, Caernarfon (rhwymwr llyfrau wrth ei alwedigaeth) a Robert parry (clerc i ŵr o'r enw Owen Jones yng Nghaernarfon).

Hugh Griffith, Tyddyn y Cae a William Jones oedd yr unig ddau i elwa o'r ewyllys. O fewn mis i farwolaeth Mary Lewis roedd yr ymddiriedolwyr i ofalu bod digon o'i heiddo i'w werthu er mwyn gallu talu £160 i Hugh Griffith. Roedd y gweddill o'r eiddo i'w drosglwyddo i'w mab, William Jones.

Bu Mary Lewis farw ym mis Mawrth 1787 ac fe'i claddwyd ym mynwent Llanrug. Ni roddir enw ei chartref ar y Gofrestr Gladdu. Mae'n amlwg na chafodd Hugh Griffith ei £160 yn ôl telerau'r ewyllys, oherwydd erbyn Mawrth 1788 cawn gofnodion o achos Llys ym Miwmares yn dilyn *Bill of Complaint* gan Hugh Griffith. Methais a darganfod copi o hwn — ond efallai nad yw ar gael bellach. Er hynny, mae'n amlwg beth oedd y gŵyn: doedd Hugh Griffith ddim wedi derbyn ei arian!

Yn yr achos Llys, cyflwynwyd dogfen gan William Jones yn dyddio o 1715. Roedd y ddogfen yn dangos cytundeb rhwng Hugh Griffith, Caernarfon ac Elin Mellers, Pentir (gweddw) ar y naill law; a William Williams, Pentir a Hugh Owen, Tyddyn Ucha ar y llaw arall. Does dim sicrwydd ai'r un Hugh Griffith yw hwn a'r un sy'n cael ei enwi yn yr ewyllys. Roedd Elin Mellers yn fam i Mary Lewis. Trosglwyddwyd tir i Elin Mellers, *'called and known by the several names of Cae Mellers situate in Conway, parish of Conway, and Gyffin'*. Yn dilyn marwolaeth Elin Mellers roedd y tiroedd i'w trosglwyddo, *'to the use of Mary Lewis'*. Honnai William Jones nad eiddo i Mary Lewis oedd y tiroedd, ac na allai fod yn berchen Tyddyn y Cae 'chwaith; gan mai tenant am oed yn unig ydoedd yno. Dadl William Jones oedd nad oedd gan ei ddiweddar fam ddigon o eiddo i allu talu £160 i Hugh Griffith.

Yn wir, honnai William Jones na wyddai am fodolaeth yr ewyllys hyd nes iddo dderbyn y *Bill of Complaint* oddi wrth Hugh Griffith. Yn ei dystiolaeth mae'n honni i'w fam ddod i fyw ato am y deng mlynedd olaf o'i hoes, ac iddo ei chadw mewn, *'meat, drink, washing and lodging'* am y cyfnod hwnnw heb dderbyn unrhyw arian ganddi. Credai fod gwerth hyn i gyd yn £26-13-4d. Yr unig eiddo a dawodd Mary Lewis yn ôl ei mab oedd cwpwrdd gwerth £3, cist dderw (15/-), gwely (5/-), *warming pan* (8/-), cloc (2 gini), tecell haearn (1/6), dysgl efydd (15/-), stôl (6d.), dysgl bobi (6d.), 3 dysgl biwtar (7/-), 3 plât piwtar (1/6), a bods dal cyllyll gwerth grôt. Cyfanswm o £7-16s-4d. Honnai hefyd fod Mary Lewis rywbryd yn y gorffennol wedi trosglwyddo arian ar ffurf *bond* (gwerth £60) i'w hwyres, Frances, gwraig Richard Griffith.

Mae'n amlwg na setlwyd yr achos ar y dyddiad hwnnw, oherwydd mae dogfen arall ar gael yn dyddio o Fedi 1791. Yn y ddogfen honno yr un yw'r dadleuon, ond fod William Jones bellach yn honni na wnaeth Mary Lewis erioed y fath ewyllys, ac os gwnaeth, nad oedd mewn llawn bwyll o'i synhwyrau ar y pryd! Unwaith eto, does dim gwybodaeth am ganlyniad yr achos hwn 'chwaith: mae'n ymddangos i'r ddadl barhau. Yn anffodus, methai a darganfod mwy o ddogfennau yn ymwneud â'r ewyllys.

Felly, mae'r dirgelwch yn parhau. Pwy oedd Elin Mellers a'i merch Mary Lewis? Beth oedd y cysylltiad â Phentir a Chonwy? Pryd daeth Mary i fyw i'r Ddôl, Llanddeiniolen, a phryd y symudodd i Dyddyn y Cae? Methais hefyd a chanfod enw Hugh Griffith, Mary Lewis na William Jones yn gysylltiedig â Tyddyn y Cae yng nghofrestrau plwyf Llanrug, er bod teuluoedd eraill yn byw yno cyn ac wedi dyddiad marwolaeth Mary.

Os daeth unrhyw un o'r darllenwyr ar draws yr enw 'Mellers' cysylltwch â mi, gan mai dim ond unwaith y gwelais yr enw yn yr hen sir Gaernarfon yn y cyfnod hwn, a hynny yn Abergwyngregyn.

### GEIFR ETO FYTH!

Daeth llythyr i law oddi wrth Miss Olwen Davies o Fangor yn disgrifio taith gyda Chymdeithas Archaeoleg Llanllechid a Llandygai yn Nyffryn Ogwen. Dyma sut mae'n adrodd yr hanes: *'Roeddem yn pererindota ar hyd ffyrdd y porthmyn tua Nant y Benglog pan welsom rhywbeth tebyg i'r llun o gorlan y geifr yn* Eco'r Wyddfa. *Yn lle clogwyn, edrychai'n debyg i gromlech, a'r ffermwr wedi manteisio ar faen neu graig fawr ac wedi codi wal sych uchel i amgáu lloches, gan adael mynedfa gul. Yr enw ar y llochesi hyn yw "Cwt Myn", a'r amcan oedd cael hyd i afr wyllt oedd newydd roi genedigaeth ac arwain y myn bychan i'r lloches. Byddai'r fam yn siŵr o ddilyn, ac wedyn gellid ei godro. Digwyddai hyn yn y gaeaf pan oedd llefrith buwch yn brin. Gwelsom Gwt Myn arall ym mhen pellaf Nant Ffrancon. Cawsom wybodaeth yn ddiweddarach fod yr un math o beth i'w weld ar Ynysoedd yr Hebredies yn yr Alban.'*

Cefais wybodaeth hefyd o ardal Blaenau Ffestiniog a Dolwyddelan fod y corlannau neu'r adeiladau hyn yn cael eu galw'n Gytiau Myn. Ond ni chlywais am y term yn cael ei ddefnyddio yn y fro hon — os nad oes un o'r darllenwyr all fy nghywiro.

Gyda llaw, mae'r enw Tŷ'r Geifr yn cael ei ddefnyddio hefyd mewn hen ddogfennau o eiddo'r Faenol, wrth ddisgrifio tir perthnasol i fferm Glan y Bala ar ddiwedd y ddeunawfed ganrif. Mae'n ymddangos fod Tŷ'r Geifr rywle ar lethrau'r Allt Wen. Diflannodd yr enw oddi ar y mapiau arolwg diweddarach.

### MWY I DDOD . . .

Mae Dafydd Prichard o Lanrug wedi bod ar drywydd yr 'Empress of Ireland', y llong a suddodd yng Nghanada gan foddi bachgen o'r ardal hon yn 1914. Daw'r hanes llawn i'r wyneb cyn bo hir!

Diolch hefyd i Ceri Pierce Williams am wybodaeth ynglŷn â'r gân 'Ta Ta'. Gobeithiaf gynnwys mwy o'r hanes maes o law.

Anfonwch unrhyw bwt o wybodaeth neu gais am hanes y fro i Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. Ffôn: (01286) 673515.


GORSAF BETROL
Esso BERAN
DEINIOLEN
Ffôn: (01286) 871521
Ar agor 7 a.m. — 9 p.m. bob diwrnod
Petrol • Disel • Nwy Calor • Glo
Cylchgronau • Papurau Newydd
Cardiau Penblwydd • Wyau
Nwyddau Groser • Melysion
TICEDI LOTERI AR WERTH YMA!

Gwesty
Dolbadarn
LLANBERIS Ffôn: 870277

Am groeso cartrefol Cymreig bob amser Aneuryn Jones a'r staff.

# LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri. Ffôn: 870491

Camera yn ngofal John Pritchard, Cilfynydd. Ffôn: (01286) 872390



*Tim pêl-rwyd Capel Coch pencampwyr yr Ysgolion Sul.*

UNDEB Y MAMAU EGLWYS ST. PADARN. Yn y Rheithordy bnawn Mawrth, 2 Chwefror cynhaliwyd y pwyllgor misol. Gan fod nifer helaeth o'r aelodau yn dal i fod yn gaeth yn eu cartrefi o achos gwaeledd, gohiriwyd y pwyllgor blynyddol tan y mis nesaf. Cymerwyd y gweddïau agoriadol gan Mrs Betty Humphreys, a darllenodd Mrs Audrey Evans adnodau o'r Beibl; hwy hefyd oedd yn gofalu am y lluniaeth ysgafn i'r aelodau. Cawsom amser difyr iawn yn sôn am ddigwyddiadau y flwyddyn flaenorol ac hefyd yn dwyn i gof y gwahoeddedigion fu'n ein diddori. Diweddwyd y cyfarfod trwy adrodd y Gras.

CYMDEITHAS EGLWYS ST. PERIS A ST. PADARN. Cynhaliwyd cyfarfod yn nhŷ'r Curad, nos Iau, 4 Chwefror, dan lywyddiaeth Mrs Ann Parry-Jones. Dechreuwyd trwy weddi gyda Mr Ralph Jones yn arwain.

Y gŵr gwadd y mis yma oedd Mr Hugh Jones, Llanwnda a chafwyd sgwrs gartrefol braf yn ei gwmni. Ei bwnc oedd 'Y March' ac yn fwyaf arbennig y cob Cymreig, a chymaint roedd dynoliaeth y dyddiau gynt wedi dibynnu ar ei gryfder a'i nerth a hynny ym mhob maes o waith fferm hyd byd hamdden heddiw. Prawf o hyn yw fod cymaint o feirdd a llenorion ein cenedl wedi canu am ffyddlondeb y march.

Mrs Nancy Jones, Taliesin a Mrs Olwena Morris oedd yn gyfrifol am y te a'r raffl a Mrs Hilda Williams a enillodd y raffl. Diolchwyd i bawb gan Mrs Evelyn Williams.

Y cyfarfod nesaf fydd dathlu Gŵyl Ddewi ar 2 Mawrth yn y Rheithordy.

CÔR MEIBION DYFFRYN PERIS. Dydd Sul, 31 Ionawr daeth dros 200 ynghyd i Fynydd Gwefru yn Llanberis i dalu teyrnged i'r ddiweddar Rebecca Osborne, Y Felinheli. Roedd Rebecca wedi gorfod dioddef anhwylder o'r cyhyrau ar hyd ei hoes ac wedi dioddef yn ddewr. Ymhlith y rhai a ddaeth i'r arddangosfa o waith cywrain Becky roedd yr arlunydd enwog Syr Kyffin Williams, ac fe ddywedodd eiriau caredig iawn amdani. Yn yr arddangosfa hefyd mae llun o Becky yn bump oed yn cael ei chyflwyno i'r Dywysoges Ann. Braint fawr i'r côr oedd cael ymuno â phawb a ddaeth ynghyd a chael tipyn o ganeuon i gofio am eneth mor annwyl. Agorwyd yr arddangosfa gan ŵr enwog arall, sef y newyddiadurwr Ian Skidmore.

Cydymdeimlwn â'r teulu yn eu galar a'u hiraeth.

Nos Fercher, 17 Chwefror roedd y côr yn cynnal Noson Lawen yn Bontnewydd. Dyma'r pedwerydd tro i'r côr gael gwahoddiad yno ond, yn wahanol i'r arfer, dathlu diwedd tymor y Gymdeithas roeddem y tro hwn. Roedd yn noson llawn digrifwch yng nghwmni'r Parch. W. R. Williams a thalwyd y diolchiadau, ar gân, gan Geraint Lloyd Owen. Diolch yn fawr am y croeso – ac hefyd am y wledd.

GORONWY LEWIS

ENILLWYR Clwb Ffrindiau Ysgol Dolbadarn am fis Chwefror: £35 Mrs D. Roberts, 50 Maes Padarn (42); £35 Ms J. Roberts, 2 Stad Tŷ Du (55); £15 Mrs R. Allsup, 15 Stryd Ceunant (34); £10 Mrs B. Hughes, 1 Glyn Rhonwy (149); £5 Mrs A. Williams, 3 Preswylfa (33).

CAPEL COCH. Bu'r plant yn llwyddiannus yng Nghystadleuaeth Chwaraeon yr Ysgolion Sul a gynhaliwyd yng Nghaernarfon yn ystod y gwyliau hanner tymor. Bu pedwar o dimau pêl-droed 5 yr ochr yn cystadlu ac am y tro cyntaf erioed cyrhaeddodd un o dimau pêl-droed Capel Coch y rownd derfynol. Roedd tri thîm yn y rownd derfynol i'r rhai dan 11 oed, a daeth hogiau Llanberis yn ail yn y grŵp. Ond aeth y genod un cam ymhellach eto. Y llynedd gorffennodd y tîm pêl-rwyd yn yr ail safle, ond eleni enillodd y genod y gystadleuaeth bêl-rwyd dan 11 oed. Llongyfarchiadau mawr iddynt. Dyma'r tro cyntaf i ni ennill yr un o'r cystadlaethau ac mae'r genod wedi dewis y flwyddyn iawn i gyflawni'r gamp hon. Eleni am y tro cyntaf mae enillwyr cystadleuaeth yr ardal hon yn mynd ymlaen i rownd derfynol Ysgolion Sul Gogledd Cymru. Bydd y genod yn chwarae yn erbyn tîm o ardal Wrecsam yng Nghaernarfon ym mis Mai. Pob hwyl iddynt yn y fan honno. Ddydd Sul, Chwefror 21 bu amryw o'r plant yn cymryd rhan yn yr arholiad ar gyfer Cymanfa'r Presbyteriaid sydd i'w chynnal ym mis Mai.

YR AELWYD. Bu dau dîm yn cystadlu yng Ngornest Pêl-droed 5 yr ochr yr Urdd ym Mhlas Silyn, Pen-y-groes, nos Iau, Chwefror 4. Nos Fercher, Chwefror 10, daeth aelodau Aelwyd Bontnewydd atom a chafwyd noson hwyliog oedd yn cynnwys cystadlaethau tenis bwrdd, snwcer, helfa drysor a chwis. Diolch i Mr Richard Lloyd Jones, Bethel am drefnu'r cwis ac i Mr Gareth Jones a Mrs Anne Hughes am baratoi bwyd i'r bobl ifanc. Nos Fercher, Chwefror 24, estynnwyd croeso i'r Parchedig Gwyn Rhydderch, Tudweiliog sydd erbyn hyn yn weithiwr plant a phobl ifanc gyda'r Presbyteriaid.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL. Cynhaliwyd Cymdeithas yn festri Capel Coch nos Fawrth, Chwefror 9 a chafwyd cyngerdd oedd wedi ei drefnu gan Mr Gareth Jones. Cymerwyd rhan gan bump o blant: Sioned, Carys, Ceri, Ian a Debbie, a chan Mrs Delyth Hughes, Miss Dilys Mai Roberts a Mrs Dilys Wyn Williams a Mr Gareth Jones. Arweiniwyd y noson gan Mrs Mattie Hughes. Cynhelir y swper blynyddol yn Y Bistro nos Fawrth, Mawrth 9, a'r gŵr gwadd fydd y Parchedig Harri Parri, Caernarfon.

PLAS PENGWAITH. Croesawn adref Mr T. A. Pritchard wedi iddo dreulio cyfnod byr yn yr ysbyty. Ar hyn o bryd mae Mrs Agnes Owen a Mrs E. M. Jones yn yr ysbyty – brysiwch wella. Croesawn atom Mrs Bessie Owen, Mrs E. M. Jones a Mrs M. Bannister a gobeithiwn y byddwch yn hapus yn ein plith.

Bydd Mrs F. Ellis, sydd ar hyn o bryd yn Ysbyty Gwynedd, yn dathlu ei phen-blwydd yn ystod mis Mawrth a dymunwn wellhad buan a phen-blwydd hapus iddi – brysiwch nôl atom. Ym mis Ebrill bydd Mrs D. Griffiths a Mrs M. A. Roberts yn dathlu eu pen-blwydd a dymunwn ben-blwydd hapus iawn iddynt hwythau hefyd.

Mae Mr a Mrs Munro wedi dathlu eu Priodas Diamwnd yn ystod y mis a chawsant ddiwrnod prysur iawn – siarad ar y radio efo Hywel Gwynfryn, tynnu lluniau i'r papurau newydd lleol, ac adrodd hanes eu bywyd priodasol ym Mhenisarwaun. Trefnwyd parti yn y lolfa iddynt i'r holl drigolion a'r teulu a phawb wedi mwynhau eu hunain yn fawr iawn. Maent rŵan yn edrych ymlaen at ben-blwydd eu priodas eto! Dymunwn ninnau iddynt bob hapusrwydd.

Yn ystod mis Ionawr derbyniodd nifer o'r staff hyfforddiant Cymorth Cyntaf gan fod pawb sy'n gweithio yn y cartref gyda chymwysterau i wneud y gwaith, ac mae'r Cyngor yn gwneud pob ymdrech i roi pob hyfforddiant i'w gweithwyr.

Mae Jennifer gartref o'i gwaith ar hyn o bryd ac mae pawb yma yn cofio ati ac yn dymuno iddi wellhad buan.

Mae'r bws mini gennym eto a gobeithiwn fanteisio ar dywydd braf y gwanwyn i fynd am dro. Aethom i Borthmadog (a chael hufen iâ Cadwaladr!) a buom ar hyd y Foryd a Chaernarfon yn ddiweddar.

DIOLCHIADAU

Dymuna Jim a Margaret Munro ddiolch yn ddiffuant am y cardiau lu a'r anrhegion gwerthfawr a gawsant ar achlysur dathlu pen-blwydd priodas ddiamwnt. Diolch yn arbennig i Mrs Matthews a staff Plas Pengwaith am drefnu'r parti gwych, i'r teulu a'r ffrindiau am eu cwmni ar y diwrnod ac i bawb arall am eu dymuniadau da. Bu'n ddiwrnod ac yn ddathliad arbennig yn eu hanes – diwrnod bythgofiadwy. Diolch yn fawr iawn i chi i gyd am eich caredigrwydd.

Dymuna Stephan a Catrin, 20 Stryd Newton, Llanberis ddiolch i bawb am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniwyd ar achlysur genedigaeth eu mab, Steffan Glyn, ar 27 Ionawr. Llongyfarchiadau i Danny a Jane am gael ŵyr bach, a nai i Andrea.

Dymuna Beryl Owen, 46 Maes Padarn ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am yr anrhegion, cardiau, galwadau ffôn a'r ymweliadau tra bu yn yr ysbyty yn ddiweddar ac ar ôl dod gartref. Diolch hefyd i staff wardiau Glyder, Beuno, Prysor ac Enlli am eu gofal a'u caredigrwydd.

Dymuna Mona, 17 Dôl Eilian ddiolch i'w theulu a'i ffrindiau am bob galwad ffôn, blodau, cardiau a phob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddi tra bu'n wael yn ddiweddar.

Dymuna Maud Jones, 1 Stryd-y-dŵr ddiolch o galon i'w theulu, cymdogion a ffrindiau am y caredigrwydd, yr holl gardiau, galwadau ffôn a'r anrhegion a dderbyniodd wedi iddi gael llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd. Diolch hefyd i nyrsus a meddygon Clinig Llanberis a staff wardiau Tudno ac Alaw, Ysbyty Gwynedd am eu gofal.

**FFAIR SBORION**
**A BORE COFFI**

STONDINAU CACENNAU
YN Y GANOLFAN, LLANBERIS
DYDD MAWRTH, 16 MAWRTH
am 10 o'r gloch
CROESO I BAWB
ELW AT YR YSGOL FEITHRIN



*Y tîm pêl-droed, ddaeth yn ail yng Ngornest Chwaraeuon yr Ysgo Sul.*

# WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

**Camera yn ngofal Heulwen Hughes, Argoed. Ffôn: (01286) 650556**

DATHLU PEN-BLWYDD. Yn ystod mis Ionawr bu Ian Roberts, Cynlas; Richard Saunderson, Bro Waun; a Meirion Williams yn dathlu cyrraedd eu deunaw oed a Sharon Owen, Bryn Môr ac Alwena Williams, Garreg Fawr yn dathlu cyrraedd un ar hugain oed. Llongyfarchiadau ichi i gyd a phob dymuniad da i'r dyfodol. Bu Mrs Southworth, Teras Glyn Afon yn dathlu ei phen-blwydd yn 99 oed.

GENEDIGAETH. Llongyfarchiadau i Suzie a Nigel, Fron Olau, Teras Glyn Afon ar enedigaeth mab bychan, Gavin John, ŵyr bach i Mr Bill Lewis, 8 Ael y Bryn.

GARTREF O'R YSBYTY. Croeso adref o'r ysbyty i Mr Ovary, Pant Waun; Mrs Nan Hughes-Roberts, Bodrida; Miss J. A. Owen, Bod Gwilym; Mrs Evans, Lleifior; Mrs M. Owen, Stad Tref Eilian; Megan, merch fach Phil a Delyth Lowe, Ger y Ffynnon; ac i Mrs Gwenlli Williams, Ardwyn. Hyderwn yn fawr eich bod yn teimlo'n well.

YN YR YSBYTY. Anfonwn ein cofion at Mr Mainwaring, Ty Ucha'r Ffordd sydd yn yr ysbyty; at ein Post Feistres, Mrs Judy Jennings a gipiwyd yn sydyn i'r ysbyty; ac at Mrs Doris Roberts, Dwyros sy'n cael triniaeth i'w llygaid yn Ysbyty Gwynedd.

PROFEDIGAETHAU. Yn dawel yn Ysbyty Gwynedd wedi gwaeledd hir bu farw Mr John Elwyn Roberts, Glaslyn, Stad Bro Waun. Cydymdeimlwn â'i briod, Jane, ac a'i ddwy chwaer, Doris a Nansi yn eu profedigaeth.

Anfonwn ein cydymdeimlad i Mrs Alice Johnstone, Ian, Neil a Ffiona, Tŷ Gwyn yn eu profedigaeth o golli priod a thad annwyl, y diweddar Mr Ray Johnston.

Bu farw Mrs Morfa Evans (Preswylfa gynt). Cydymdeimlwn â David a Rhiannon yn eu profedigaeth o golli mam.

DYMUNO'N DDA. Dymunwn yn dda i holl aelodau'r Urdd fydd yn cystadlu yn yr eisteddfodau yn ystod yr wythnosau nesaf. Dowch a'ch canlyniadau inni erbyn y rhifyn nesaf o'r Eco. Hwyl fawr!

Y GYMDEITHAS LENYDDOL. Nos Lun, 8 Chwefror, cafwyd darlith ddiddorol iawn gan Mr Eryl Rothwell Hughes ar y testun 'Môr ladron yng Ngwynedd yn Oes Elisabeth I'. Roedd rhai o aelodau dosbarth nos Mr Hughes o Gaernrfon wedi dod i'r Gymdeithas i glywed y ddarlith. Croesawyd hwy gan Mr Iolo Huws-Roberts, llywydd y noson. Diolchwyd i Mr Hughes gan Mrs Catherine Jones.

Ar 8 Mawrth bydd Mr Eryl Roberts o'r Gaerwen yn siarad am 'Sain Ffagan'. Hwn fydd cyfarfod olaf y tymor ac fe ddarperir lluniaeth ysgafn ar ôl y cyfarfod. Bydd cyfle hefyd i ethol pwyllgor am y tymor nesaf.

DIOLCH. Dymuna teulu y ddiweddar Mrs Doreen Parry, 16 Bro Waun ddiolch o galon i gymdogion a chyfeillion am y cydymdeimlad a'r caredigrwydd a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth o golli mam a nain annwyl a thyner. Diolch arbennig i Feddygfa Waunfawr, nyrsus cymuned a'r gofalwyr cartref am eu gofal diflino a'u cyfeillgarwch.

DIOLCH. Dymuna Shirley a Brian, 8 Pant y Waun ddiolch i bawb am y geiriau caredig a'r cydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth o golli tad a thaid annwyl, sef Mr Thomas Williams a fu, tan y blynyddoedd diwethaf, yn byw yn Edern. Diolchwn yn fawr i Feddygfa Waunfawr, nyrsus cymuned, staff Ysbyty Bryn Seiont a'r gofalwyr cartref am eu gofal arbennig a diflino. Diolchwn hefyd am y rhoddion hael a dderbyniwyd tuag at Ysbyty Bryn Seiont.

DIOLCH. Dymunaf ddiolch i swyddogion Capel Croesywaun am ganiatáu inni gael defnyddio'r festri i blygu'r rhifyn mis diwethaf o'r Eco. Diolch hefyd i bawb ddaeth i helpu gyda'r gwaith. Cystal oedd y cymorth roedd y gwaith wedi'i gwblhau erbyn 6.45 p.m. Diolch i bawb.

CYNGOR CYMUNED. Bydd rhwystrau tawelu trafnidiaeth yn cael eu gosod yn rhai o strydoedd cefn Waunfawr yn ôl gwybodaeth a gafodd ei drosglwyddo gan yr arolygwr priffyrdd, R. B. Daimond, i'r cynghorydd lleol, y Cynghorydd Eurig Wyn.

Dywedodd y Cynghorydd Wyn: 'Rwy'n falch iawn o gydweithrediad yr Adran Briffyrdd yn y mater hwn. Roeddwn wedi gobeithio gosod y rhwystrau ar bob stryd ond rwyf yn ddiolchgar am gael dechrau ar y gwaith, ac yn mawr obeithio y bydd hyn yn helpu datrys y sefyllfa.'

Cynhaliwyd cyfarfod o'r Cyngor ar 18 Ionawr yn y Ganolfan:

Caiff arwyddion newydd eu codi mewn tri man yn y pentref yn dangos yr enw a neges diogelwch i fodurwyr.

Derbyniwyd ymddiswyddiad y Cynghorydd Dr R. S. Williams a diolchwyd iddo am ei waith gwerthfawr i'r Cyngor dros y blynyddoedd.

Penderfynwyd na ddylid codi lefel incwm y Cyngor o'r Praesept yn fwy na'r llynedd.

Cynllunio: nid oedd unrhyw wrthwynebiad i dri datblygiad arfaethedig yn Ger y Ffynnon (gyda amodau ynglŷ â pharcio o flaen y tŷ), Tai Isaf a Fferm Bodhyfryd.

Bydd y fainc yn cael ei symud o'r lloches bws am gyfnod arbrofol.

Llwybrau: bydd sylw swyddog llwybrau Cyngor Gwynedd yn cael ei dynnu at nifer o lwybrau sydd angen gwaith cynnal a chadw arnynt.

Cynhelir cyfarfod nesaf o'r Cyngor ar 26 Chwefror.

ENILLWYR y Clwb 300 am fis Ionawr: £40 Mr Edgar Owen, Glyn Awel; £25 Mr John Bradshaw, Castle View; £10 Mr Iolo Huws-Roberts, Bodrida.

## Carreg

*'Y sgerbwd sy'n gwisgo cnawd a gewynnau bywyd Cymru yn ei holl gyfoeth'*

'Gair amwys yw "carreg". Gall ddisgrifio rhywbeth parhaol, solid, dibynadwy neu rywbeth caled, anhyblyg, di-ildio, di-fywyd. Yn yr ystyr gyntaf fe'i defnyddiwyd i adeiladu tai, i godi cofebion i fawrion gwlad, i godi temlau i'r duwiau ac i gynhyrchu gwrthrychau eithriadol o hardd.'

Dyna eiriau Ken McCoy sydd ag arddangosfa yn Amgueddfa Lechi Cymru Llanberis. Cyfres o ffotograffau du a gwyn yw'r arddangosfa yn dangos delweddau sy'n ystyried sut mae carreg yn tra-arglwyddiaethu ar fywyd a thirwedd Cymru — y bryniau, muriau, tai, abatai, cestyll, meini hirion neu, yn syml, wyneb a gwead carreg.

'Yn yr ail ystyr, defnyddiwyd carreg, ymhlith pethau eraill, i lunio arfau, i adeiladu symbolau o oruchafiaeth — sifil ac ysbrydol — ac i bennu ffiniau nad oes wiw i neb eu croesi. Ond ffug mewn gwirionedd yw'r syniad a gyfleir yn y ddwy ystyr hyn fod carreg yn ddigyfnewid. Nid yw carreg yn parhau am byth. Fel popeth arall mae'n dioddef erydiad araf amser. Mae effeithiau didrugaredd tân, rhew a dŵr yn ei throi'n llwch yn y man.'

Mae'r arddangosfa yn parhau ar y safle hyd at 28 Mawrth. Dydd Sul — dydd Gwener 10a.m. - 4p.m. Mae Ken McCoy yn byw yn y Gerlan, Bethesda.


**CARPEDI GERAINT OWEN**

GWERTHWR CARPEDI, TEILS CARPED a FEINYL

CANNOEDD O DDEWIS O BATRYMAU A RHAI MEWN STOC

FFONIWCH UNRHYW AMSER:

WAUNFAWR (01286) 650552



**LLEUFER O. ac N. PRITCHARD**

**CANOLFAN CARPEDI**

**WAUNFAWR**

**Ffôn/Ffacs: 650291**

Ar agor
9-7pm
9-5pm Sadwrn
Ar Gau
Sul a Mercher



Dewis eang
o Welyau a *3P/Suites*.
Llenni *Venetian* a Llenni *Roler*.
5,000 llathen sgwâr o garpedi
mewn stoc — allwch chi
fforddio prynu o batrymau?

**GLANHAU CARPEDI GYDA STIMVAK**



MANTEISIWCH AR EICH OED!

Dros 55?

Dewis o yswiriant
yn rhoi gwerth
eich arian.

Cartref a Chynnwys
Teithio • Car
Anifail Anwes
Gwasanaeth Torri Lawr

**Age Concern (Wales)
Enterprises Limited**
Ffordd Santes Helen
Caernarfon
Gwynedd LL55 2YD

**01286 678310**

AGE Concern
INSURANCE SERVICES

All our profits support the work of Age Concern

# BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. 870580

**Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263**

SEFYDLIAD Y MERCHED. Bu cyfarfod cyntaf y flwyddyn newydd yn y Festri nos Iau, Ionawr 21ain pryd y daeth Jan Daniels, therapydd holistig, o Rachub i roi sgwrs ar aromatherapi. Bu'n trafod rhinweddau nifer detholedig o olew a chafwyd cyfle i brynu gwahanol enghreifftiau. Llywyddwyd y noson gan Mrs Pat Jones, llywydd y gangen. Roedd y baned dan ofal Mrs Eleanor Williams. Hi hefyd gyflwynodd wobr y mis a'r enillydd oedd Mrs Carol Houston.

Nos Lun, Chwefror 15fed, daeth yr aelodau ynghyd dan lywyddiaeth Mrs Pat Jones. Gŵr gwadd y noson oedd Mr Gwyn Hefin Jones, Rhandir a chafwyd noson ddifyr yn ei gwmni yn adrodd hanes ei wyliau yn Thailand. Paratowyd y lluniaeth gan Mrs Pat Jones. Enillydd gwobr y mis, rhoddedig gan Mrs Carol Houston oedd Mrs Nerys Roberts.

Nos Lun, Mawrth 1af dathlodd yr aelodau Ŵyl Ddewi gyda chinio yng ngwesty'r Anglesey Arms, Porthaethwy.

PORTREAD. Cynhelir rhagolwg o bortread o'r prifardd Gerallt Lloyd Owen yng Ngwesty'r Clet, Caernarfon nos Iau, Mawrth 4ydd. Bydd y portread, gwaith y cerflunydd John Meirion Morris, Y Griolen yn cael ei arddangos cyn ei hebrwng i Lyfrgell Genedlaethol Cymru yn Aberystwyth.

Bydd yr arlunydd Aenirin Jones a Myrddin ap Dafydd a'i ffrindiau yno i gyfarch y prifardd a'i bortread.

GWAELEDD. Dymunwn wellhad buan i Mrs Lillian Braham, Deiniol House a gymerwyd yn wael i Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar a'n cofion hefyd at Mr Tom McCafferty, 10 Trem Eilian sydd gartref erbyn hyn wedi treulio cyfnod yn Ysbyty Gwynedd.

Y GROESFFORDD. Mae oedolion a phlant ystad Trem Eilian ac Erw Nant a'r cylch yn bryderus ac yn dal i aros am symudiad gan Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd i roi ynys ar ganol ffordd B4547 i'w cynorthwyo i'w chroesi i'r pentref. Mae'n groesffordd hynod o beryglus gyda sawl damwain wedi digwydd arni yn y gorffennol ac ar hyn o bryd mae Mrs Helen Jones, 5 Trem Eilian yn dal yn Ysbyty Gwynedd yn dioddef o ganlyniad i anafiadau drwg dderbyniodd mewn damwain ar y groesffordd nos Iau, Ionawr 14eg.

Eisoes mae Mr John Meirion Morris o Stad Erw Nant wythnosau yn ôl wedi anfon llythyr at y Cyngor i'w hatgoffa o'u tasg a'u cyfrifoldeb. Mae rhan o lythyr dderbyniodd ar 16eg Gorffennaf 1997 yn datgan: '. . . wrth ddarparu'r lôn troi a'r marciau lletgroes hefyd bwriedir darparu ynys yng nghanol y ffordd i gynorthwyo cerddwyr i groesi.'

Mae'r stribedi sŵn wedi eu gosod ac fe addawyd cwblhau yr ynys a'r lôn droi erbyn yr haf diwethaf. Barn y bobl leol yw nad yw'r stribedi wedi effeithio dim ar gyflymdra'r traffig ac mai gwastraff arian yn unig ydynt a moduron hyd yn oed yn goddiweddyd ar y darn arbennig hwn o'r ffordd.

Rhaid yw nodi yr atebiad diweddaraf i ohebiaeth ar Chwefror 19eg a dderbyniodd Mr Morris: 'Mae'n wir ddrwg fod bwriad gennym o archwilio'r posibilrwydd o ddarparu ynys croesi ar y cyffyrdd yn Brynrefail ond yn anffodus nid oes gennym yr adnoddau i gyflenwi'r gwaith. Fodd bynnag, rydym nawr wedi gofyn i ymgymerwyr archwilio'r sefyllfa ac yn ddibynnol ar gost y gwaith a'n cyllideb byddwn yn ystyried cynnwys y cynllun yn ein rhaglen yn ystod y flwyddyn nesaf.'

Felly mae'n ymddangos y bydd yn rhaid i drigolion Brynrefail aros am flwyddyn arall o leiaf, a hyd yn oed wedyn, nid oes sicrwydd y bydd Cyngor Gwynedd yn cyflawni'r dasg. Y mae amryw o rieni a henoed yn aniddig iawn ynglŷn â'r sefyllfa ac yn ystyried gwneud protest gyhoeddus unwaith yn rhagor.

EGLWYS M.C. BRYNREFAIL. Dydd Sul, Ionawr 31ain, yn yr oedfa foreol, bedyddiwyd Dion Tomos mab Nicola Houston a Dafydd Owen. Gwasanaethwyd gan y Parchg Gareth Alban, Bae Colwyn.

Trefn yr oedfan am fis Mawrth:

7: Parchg John Glyn, Waunfawr (10)
14: Mr Alun Rowlands, Bangor (10)
21: Mr Vernon Owen, Llandwrog (5.30)
28: Parchg Eric Jones, Bangor (5.30)


AM DEITHIAU CYFFORDDUS, DIOGEL A RHAD YM MHYDAIN A THRAMOR ...




**BYSIAU ARFON**
**LLANRUG**
**(Eric Morris)**
**Ffôn: (01286) 675175 a 677858**


# PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

**Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263**

URDD ADRAN BENTREF. Nos Fawrth, Chwefror 9, yng ngofal Ann Ifans, cafwyd cwis ar chwedlau Cymru ynghyd â gwrando'r chwedl 'Dinas Emrys' sy'n sôn am frwydr y ddraig goch yn erbyn y ddraig wen.

Chwefror 23 bu cwis yng ngofal Arwel Jones a diolchodd Jason Snowdon iddo am noson ddifyr.

Mawrth 2 cafwyd noson Gymreig i ddathlu Gŵyl Ddewi. Mwynhawyd cawl cennin a dawnsio gwerin gyda Judith Harding. Dymunwyd pob hwyl i'r cystadleuwyr yn Eisteddfod yr Urdd ar Fawrth 6.

Mawrth 11 bydd noson o Hwyl yr Urdd yng Ngwesty'r Celt, Caernarfon.

Mawrth 16 bydd coginio pasg hefo Eirlys Williams, Bethel. Bydd cyfle i wneud bisgedi Pasg.

Mawrth 23 cynhelir bingo i orffen gweithgareddau'r tymor.

LLONGYFARCHIADAU i Mr a Mrs Munro ar ddathlu eu Priodas Diamwnt yn ddiweddar. Bu'r ddau briodi ym mis Ionawr 1939 yng Nghapel y Wesleaid yma ym Mhenisarwaun. Anfonir ein cofion gorau i'r ddau ohonoch ym Mhlas Pengwaith, Llanberis a dymunir pob bendith i chwi eto i'r dyfodol.

GWELLHAD. Dymunir gwellhad buan i bawb sy'n wael eu hiechyd, brysiwch wella, mae'r gwanwyn wrth y drws i godi tipyn ar ein calonnau. Da deall fod Arfon Jones, 6 Bryntirion yn gwella wedi'i ddamwain yn ddiweddar. Cofion gorau atat Arfon a da deall dy fod adref o'r ysbyty.

COLLI ANWYLIAID. Cydymdeimlir yn ddwys iawn â Mrs Janet Ash a'r teulu ar golli ei thad yn ddiweddar.

Ein cydymdeimlad llwyraf i Jean, Mona, Nan a'r cysylltiadau oll ar eu colled o golli mam annwyl, sef Mrs Nellie Roberts, Vine Cottage (Llys y Gwynt gynt).

YSGOL SUL BOSRA. Braf gweld 20 o aelodau ffyddlon yn dal i fynychu'r Ysgol Sul. Mae amser prysur o'n blaenau gyda dwy gymanfa, sef yr Annibynwyr Cylch Deiniolen a Llanberis ar Ebrill 18, yng Nghapel Bosra; a cymanfa'r Methodistiaid yng Nghapel Hirael, Bangor ar Ebrill 25.

PWYLLGOR NEUADD. Tynnwyd Clwb Cant mis Chwefror a'r enillwyr oedd: 1, Mrs E. Jones, Cae Corniog Mawr; 2, Miss Jên Jones, Ysgol Gymuned; 3, Mrs Carolyn Roberts, Pendinas Mawr.

Cynhaliwyd Disgo Dwynwen llwyddiannus dros ben ar y cyd â'r Urdd ar noson Santes Dwynwen. Diolchir i Dafydd Williams am gymryd yr awennau a diolchir i staff yr ysgol am eu cydweithrediad gyda'r cystadlaethau cardiau Santes Dwynwen — a oedd o safon uchel medd y beirniaid. Diolchir i bawb a gefnogodd mewn unrhyw fodd.

Gan fod y disgo wedi bod mor llwyddiannus trefnir Disgo'r Pasg yn ystod wythnos olaf mis Mawrth.

Atgoffir chwi'n garedig ei bod hi'n amser adnewyddu'r Clwb Cant — £6 y flwyddyn neu 50c y mis. Diolch i chwi am eich ffyddlondeb a'ch haelioni.

EGLWYS SANTES HELEN

Gwasanaethau: Rydym yn nhymor y Grawys unwaith eto. Bydd gwasanaeth a myfyrdod bob dydd Mercher trwy'r cyfnod hwn gan ddechrau ar 24 Chwefror yn Eglwys Santes Helen am 7 p.m. Bydd yr ail sesiwn yn Eglwys Crist, Deiniolen ar yr un adeg ar yn ail:

24/2: Santes Helen;
3/3: Eglwys Crist;
10/3: Santes Helen;
17/3: Eglwys Crist;
24/3: Santes Helen.

Dydd Gwener y Groglith cynhelir gwasanaeth rhwng 2 a 3 o'r gloch y prynhawn.

Sul y Pasg: Cymun Bendigaid am 10.30 a.m. Hwn fydd gwasanaeth olaf y Parch. Tegid Roberts fel Clerig Mewn Gofal.

Cynhelir wythnos o weithgaredd ddiwedd mis Awst ac mae'r pwyllgor eisoes wedi cyfarfod a threfnwyd rhaglen fel yr un a gafwyd y llynedd. Byddwn yn galw arnoch, maes o law, am gymorth efo'r gwahanol weithgareddau.

NEUADD YR EGLWYS. Cynhelir Dawnsio Llinell bob nos Fercher o 8 tan 10 p.m. Eisoes mae tua 50 o aelodau yn mwynhau eu hunain i'r eithaf yng nghwmni Ken a Jan o Rosgadfan. Mae croeso cynnes i unrhyw un ymuno am £2.50 y noson ac mae diod a bisgedi ar werth. Gobeithir cynnal y sesiynau tan yr haf. Felly, dowch, ymunwch, dawnsiwch a mwynhewch!

CYDYMDEIMLO. Cydymdeimlir yn ddwys iawn â Mrs Dilys Williams, Llys y Gwynt ar golli perthynas agos yn ddiweddar. Yn frawychus o sydyn bu farw mam annwyl Jen Hughes, Aljen — ein cydymdeimlad llwyraf i chwi fel teulu yn eich colled fawr ac annisgwyl.

APÊL. Buasai'r Gohebydd Pentref, Ann Ifans, yn hynod o falch petai unrhyw un yn cymryd yr awennau gyda gohebiaeth y pentref. Ffoniwch 872407 os gwelwch yn dda, neu un o'r Golygyddion.


**DAFYDD OWEN**
**TRYDANWR**
Pob math
o waith trydanol
a Larwmau Lladron

Aelod o'r NICEIC
National Inspection Council for Electrical Installation Contracting
APPROVED CONTRACTOR

**11 Rhes Faenol**
**LLANBERIS**
**Ffôn: (01286) 871680**


**PEIDIWCH A GORI AR STORI — ANFONWCH HI I'R *ECO***

## Tysteb i Ysgrifennydd Cyffredinol UCAC

Annwyl Olygydd,

Mae Mr G. Wyn James yn gorffen fel Ysgrifennydd Cyffredinol UCAC eleni. Bu'n gweithio i UCAC ers 1983 – yn gyntaf fel Trefnydd Cenedlaethol ac yna o 1984 ymlaen fel Ysgrifennydd Cyffredinol – er i'w gysylltiad ag UCAC ddechrau ymhell cyn hynny.

Mae ei gyfraniad tuag at ddatblygiad UCAC dros y pymtheg mlynedd diwethaf wedi bod yn aruthrol. O dan ei arweiniad cadarn a phwyllog mae UCAC wedi cynyddu ei aelodaeth yn gyson, ac mae gwerth holl asedau'r Undeb wedi cynyddu hefyd. Yn ystod y cyfnod hwn, symudwyd Prif Swyddfa'r Undeb i Ben Roc yn Aberystwyth, ac mae'r Undeb bellach yn cyflogi chwech o weithwyr yno. Gall UCAC sefyll yn gadarn wrth ymyl pob un o'r undebau athrawon eraill bellach. Mr G. Wyn James sy'n haeddu llawer o'r diolch am y llwyddiant hwn trwy ei ymroddiad diwyro a'i waith diflino.

Teimlwn yn sicr y gall y rheiny ohonoch sydd wedi derbyn cymorth a chyngor gan Mr James dros y blynyddoedd dystio i'w ymroddiad, ei sensitifrwydd a'i garedigrwydd. Ni roddodd Mr James byth lai na 100% wrth ymdrin ag aelodau a oedd mewn angen cymorth.

Bwriedir anrhydeddu Mr James yng nghinio'r Gynhadledd Flynyddol a gynhelir ar nos Wener y Gynhadledd. Os hoffech gyfrannu at y dysteb a fydd ync ael ei gyflwyno iddo, anfonwch siec yn daladwy i: 'Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru' i Brif Swyddfa UCAC, Pen Roc, Rhodfa'r Môr, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2AZ .

Diolchir ymlaen llaw am eich cydweithrediad parod.

Yn ddiffuant,

EDWYN WILLIAMS
Is-ysgrifennydd Cyffredinol

JOHN D. DMRYS JONES
Trysorydd Cenedlaethol

Cefnogwch ein Hysbysebwyr

## Hardcore Bethesda Fuzz

*'Dyw'n Cymru ni ddim 'run fath â'ch Cymru chi,'* meddai un o'r cymeriadau yn sioe newydd Bara Caws — *Hardcore Bethesda Fuzz.* Hon yw drama gyntaf yr awdur ifanc o Fangor, Dyfrig Jones. Mae wedi ei seilio ar syniad gwreiddiol criw ifanc a alwyd ynghyd gan Bara Caws ac mae'n ddrama bwerus sydd yn bortread cignoeth o ieuenctid y Gymru gyfoes.

Mae'n olrhain hanes criw ifan o'r genhedlaeth ôl-Thatcheraidd. Ugain mlynedd yn ôl, mae'n bosib y bydden nhw wedi sianelu eu hegnïon anarchaidd i ymladd dros eu gwlad a'u hiaith, ond bellach dydyn nhw ddim yn teimlo'n rhan o'r frwydr. Yn wir dydi'r hen frwydrau ddim yn berthnasol i genhedlaeth sydd wedi ei hesgymuno o wleidyddiaeth sefydliadol. Gyda llai o gyfle i gael 'gwaith go iawn' a dylanwadu ar gwrs eu bywydau, mae eu brwydrau yn frwydrau mewnol, yn frwydr barhaus i gadw'n gall yn y byd sydd ohoni.

Yn yr un mlynedd ar hugain ers sefydlu Bara Caws, mae natur y gymdeithas Gymraeg wedi ei gweddnewid. Ar gyfer y cynhyrchiad hwn mae Bara Caws wedi casglu ynghyd griw ifanc iawn o actorion er mwyn ceisio ymateb i'r her a gynigiwyd gan y fath newid, ac i lwyfannu drama sy'n berthnasol i'r hinsawdd presennol. Yn eu plith mae wynebau sydd eisoes yn adnabyddus i gynulleidfaoedd Cymraeg: Lisa Jên Brown ac Owain Arwyn (Rownd a Rownd), Siôn Glyn (Pengelli), a Dyfrig Evans (Rownd a Rownd, sydd hefyd yn brif-leisydd y grŵp Topper).

Wedi ei chyfarwyddo gan Ian Rowlands, cydlynydd artistig Bara Caws, mae *Hardcore Bethesda Fuzz* yn ddrama gyffrous am bobl ifanc gan bobl ifanc. Mae'n bortread o genhedlaeth 'Cŵl Cymru' — eu hofnau, eu gobeithion a'u breuddwydion ar drothwy cyfnod allweddol yn hanes ein gwlad.

Bydd perfformiadau i'w gweld yn lleol yng Nghanolfan Waunfawr, nos Sadwrn, 13 Mawrth (manylion gan Sylvia Thomason 01286 650274) ac hefyd yn Ysgol Syr Hugh Owen, Caernarfon nos Fercher, 24 Mawrth (manylion gan Mari Gwilym 01286 672670.

## CAEATHRO

**Clive James, Hafan, Bryn Gwna 679501 (gwaith), 677438 (cartref)**

Y DYNFA FISOL. Enillwyr mis Chwefror oedd: £40 Cledwyn a Margaret Jones, Ysbyty (33); £25 Beti Roberts, Monfa (23); £15 Ann a Simon Jones, 2 Rhos-bach (93); £5 Reg a Maureen Chambers Jones, Hafod Wen (96).

CAPEL CAEATHRO. Gobeithiwn y bydd gwaith ailadeiladu'r Capel wedi dechrau cyn i'r Eco ddod o'r wasg, felly ni restrir enwau'r pregethwyr ar gyfer mis Mawrth.

## NANT PERIS

**Ann Cumberton, Gwastadnant Ffôn: (01286) 870356**


GWELLHAD. Mae Mrs Megan Hughes, Hafod wedi dod o'r ysbyty ac yn aros ar hyn o bryd ym Mron Eryri, Llanberis. Dymuniadau gorau iddi a brysiwch wella.

PEN-BLWYDD. Dathlodd Eric Thompson, Tŷ'r Ysgol ei ben-blwydd yn 75 oed ar ddydd Sant Ffolant, Chwefror 14. Pen-blwydd hapus iddo a dymuniadau gorau.

DIOLCH. Mae Ysgol Feithrin Llanberis yn diolch yn fawr iawn i Bwyllgor Carnifal Nant Peris am y rhodd o £300 a gafwyd yn ddiweddar.

RHODD. Anfonodd Pwyllgor Carnifal Nant Peris rodd o £300 at waith Tŷ Ronald McDonald yn Ysbyty Alder Hey yn Lerpwl. Lle aros yw hwn ar gyfer teuluoedd plant sy'n wael yn yr ysbyty. Derbyniwyd gair o ddiolch am y rhodd o'r ysbyty.

FINE ART TRADE GUILD
ORIEL CWM
Cwm y Glo
Ffôn/Ffacs: (01286) 870882
Gwasanaeth Fframio
Lluniau o bob math ar gael ar y safle
Prisiau Rhesymol
Arddangosfa o luniau gwreiddiol gan Artistiaid Lleol
Richard S. Humphreys



GWYNANT PIERCE
Cynyrchion Coed:-
Gatiau, Ffensus ac ati am brisiau cystadleuol
Uned 1, Fferm Bryn Afon
LLANRUG
ffôn: (01286) 650349
(0589) 899901



Yn yr ardd!
WIL G. ROBERTS
Bod Gwilym, Cwm-y-glo
Ffôn: (01286) 870674
GWASANAETH PENIGAMP AM BRIS RHESYMOL

*Angen cymorth gyda'ch ffurflen treth incwm?*
*Angen gwell sustem ariannol ar gyfer eich busnes?*
*Angen cymorth gyda'ch cyfrifon?*
*Cysylltwch â*
GORONWY HUGHES
Tel/Ffacs (01286) 674839
E-Bost gorhug@global.net.uk
*Gweinyddiaeth Ariannol i Fusnesau Bach*

SNOWDONIA PARC
WAUNFAWR Ffôn: 650218
★ Tŷ Rhydd ★ Bwyd Cartref ★
★ Prydau Plant ★ Ystafell Deulu ★
★ Cinio Dydd Sul Traddodiadol ★
★ Cerddoriaeth Fyw ★ Cwrw Go Iawn ★

Cig Bethel
OEN CYMREIG LLEOL CYFAN
AM £1 Y PWYS
★
PORC LLEOL
AM 75c Y PWYS
★
PRISIAU ARBENNIG AM
GIG EIDION LLEOL
Ffôn: (01248) 671170 • Symudol: 0468 452763

## Llythyr o America . . .

Cambria, P.O.
Wisconsin
December 30th 1884

Annwyl frawd,

Ar ol i mi ysgrifennu epistol cymedrol faith attat ar y 24th, cymeraf y cyfleusdra hwn etto, fel i'w berffeithio mewn meithder, ac hefyd i roddi ychydig o'm hanes i ti pa fodd y treuliais fy Nadolig y flwyddyn hon. Yr wyt yn cofio y llefaru mawr a fu flwyddyn yn ol, pan yr oeddwn yn rhoddi i ti yr hanes. Wel i ddechreu dweud wrthyt yn awr.

Cyfodais yn y bore hwn fel rhyw fore blaenorol, a'r hyn a ddaeth i'm meddwl gyntaf oedd, pa sut Nadolig y maent yn ei fwynhau yn Victoria Villa a'r Hafod. Yr oeddwn yn meddwl os ydoedd yn debyg arnat ti yna ag ydoedd arnaf fi pan oeddwn yna dy fod yn rhedeg ar ol y defaid, neu mewn ffrae am na buaset yn myned o'r hyn lleiaf, ond mae yn bur debygol mae V. Villa oedd ei h'enw hi yn y prydnawn hyd yn hwyr nos mae yn ddiamheu, ac hwyrach mae nid peth anghyffredin ydoedd, fod Nain wedi dechreu 'curo tanc i anfon Hum, Hum, i dy gyfarfod gan feddwl nad oeddyt yn ddigon o lanc i gymeryd gofal o honot dy hun i ddod gartref. Rwy'n deall fod digwyddiadau cyffelyb yn cymeryd eu lle ar hyd y byd yma yn awr ac eilwaith, a meddyliais nad ydoedd yn amhosibl o hyny gymeryd lle yn nghymdogaeth yr Hafod. Un waith y digwyddodd y fath beth gyda mi ac rwy'n credu eu bod wedi cael digon ar yr unwaith honno gyda mi, ers misoedd cyn i mi ymadael.

Wel yr ydwyf wedi myned ym mhell oddi wrth fy mhwnc, onid ydwyf. Y mae y merchaid yma yn dweud wrthyf yn amal fy mod yn mynd oddiar yr haearn. Ar ol meddwl y peth yma a'r peth arall yn eich cylch bore dydd Nadolig, nid oedd dim i'w wneud ond dechreu ymbaratoi ar gyfer yr ymosodiad mawr oedd i fod yn y 'Llan' am 12 o'r gloch. A'r greadur oedd y diwrnod blaenorol yn gwibdeithio trwy yr Yards yma, gan ddweud wrtho ei hunan 'myfi yw yr hwnw sydd yr un pwysicaf yma, chwi ieir, Guinea hens, chwiaid, a phaenod, ddaros tuag ger fy mron pan y byddaf yn eich presenoldeb, ond druan o'r Turkey.' Yr oedd yr holl uchelder wedi cael ei ddarostwng i'r llawr erbyn drannoeth, a hanner dwsin o greaduriaid bwyteig yn mwynhau yr oruchafiaeth arno, trwy draflyncu ei gnawd, yr hwn oedd wedi ei goginio yn dda.

Yn ddiseremoni dyma hen gyfaill ffyddlon i mi yn yr hen wlad, yn gwneud ei ymddangosiad ar ei ol. Edrychais arno yn syn ar y cyntaf, gan feddwl fy mod wedi camgymeryd yn sydynrwydd ei ymddangosiad, ond erbyn i mi ddod attaf fy hun gwelais nad oeddwn wedi camgymeryd, yr oedd y brawd yn edrych yn ogystal ag yr ydoedd yng Nghymru, a'r wisg ieuengaidd oedd am dano yn ychwanegu llawer at ei welliant. A'r gwell na'r cyfan yr oedd ei flas yn fil gwell na'i olwg, ac o ran parch ag ef, profais ef, ac yr oeddwn yn gadarnach fyth, mai fy hen gyfaill 'Plum Pudding' ydoedd.

Rhaid troi at rhywbeth mwy sylweddol yn awr. Yr oedd gennym gyfarfod Llenyddol am 2 a 6 o'r gloch. Y cyfarfod Llenyddol cyntaf y bum ynddo er pan yr wyf yma. Yr oedd yna lawer iawn wedi dod ynghyd, er ei bod yn oer iawn. Nid oedd hyny yn un attalfa i'r Cyfarfod. Hwyrach mai fy nghysylltiad i ag ef fyddai y peth mwyaf dyddorol i chwi yna. Bum ar y llwyfan 11 o weithiau yng nghorph y ddau gyfarfod, 5 o weithiau yn canu yn un o 8. Y mae 8 o honom yn ffurfio 'Male Choir' ac yn wir, un da ydyw. Un na byddai Llanberis gywylidd eu arddel. Mis sydd er pan yr ydym wedi dechreu, ac yr ydym wedi dysgu 8 o 'Glees Seisnig', ac yn myned i ddechrau dysgu 'Cydgan y Chwarelwyr'. Mae'n debygol y byddwn wedi gwneud ei dysgu erbyn diwedd y gauaf. Bum unwaith yn sefyll cystadleuaeth mewn adrodd 'Ar lan Iorddonen ddofn' a chefais fuddigoliaeth ar 5. Ar ol hyny cefais Notice y byddai yn rhaid i mi adrodd yng nghyfarfod yr hwyr, heb os nac onibai yn ei chylch hi.

Cyfarfod yr hwyr a ddaeth, a'r Llywydd ydoedd fy ewyrth John R. Rowlands. Yn fy amser galwodd arnaf i ddod i fynny i adrodd. I fynny oedd rhaid myned achos mae ef mor awdurdodol a Nhad 'yn ei ddanedd'. Hysbysais ef fy mod am adrodd 'Mesul Tipyn' o waith G. Hiraethog, a'i adrodd a wneuthum mewn hwyl ofnadwy. Yn wir ni feddyliais y buasai raid i mi fyned i fyny wedi hynny i'w ail adrodd, ond distewodd y cynhwrf. Pe buasai rhywun o'm hen gydnabod o Llanberis yn digwydd disgyn yn y cyfarfod fel 'lwmp oddiwrth Fire' y noswaith hono credaf na buasai yn fy adwaen, un mor ddiniwed yr olwg a mi yn gallu edrych yn wyneb y gynulleidfa mor ddigwilydd ag yr oeddwn. Y mae y bobl yma yn meddwl nad oes neb tebyg i mi fel adroddwr. Y mae yn rhaid i mi adrodd 'Mesul Tipyn' ym mhob ty yr af iddo. Y mae yma le haws adrodd o lawer iawn nag yna, a chanu hefyd.

Y mae yma Gyfarfod Llenyddol am gael ei gynal bob wythnos. Dadleuol a chystadlaethol bob yn ail wythnos a thi weli fod yma le da i dynu allan. Terfynodd ein Cyfarfod Nadolig yn llwyddiant hollol, a phawb wedi ei boddloni ynddo.

Yr wyf am geisio gwneud cyttundeb gyda thi neu Thomas. Nid yw o wahaniaeth pa'r un, ond gobeithiaf y gwnaiff un o honoch, a dyma ydyw y cyttundeb. Anfon i mi yn ddi-oedi nifer o 'Songs' Cymreig, ac i minnau anfon fel tal i chwithau am danynt 'Watch Chain' hardd, Gold Plated dda. Credwyf na byddai yr un ohonoch ar eich colled, achos yr wyf wedi prynu un eisioes, a mentraf ddweud nad oed ei harddach tu mewn i Llanberis.

Wel, y mae yn rhaid fod Owen yn mynd yn ganwr mawr, a ddywedwch mae'n siwr, wrth fy ngweled yn anfon am songs fel hyn. Wel a dweud y gwir, yr wyf yn fwy o dipyn nag oeddwn yna, achos yr wyf wedi dysgu 3 o 'Songs' yma fel nad oes arnaf ddim ofn eu canu o flaen llond capel o Gymry yn America, a pheth arall y mae arnaf eisiau presentio Tom Closs a nifer o Songs Cymru pa rai nad oes neb byth yn eu clywed yma, sef Wisconsin.

Dyma restr o rhai y buaswn yn dymuno eu cael:

'Bachgen Dewr', 'Llan y Cariadau', 'Yr Eos', 'Yr Hogyn yn Gyru'r Wedd', 'Hen Wlad y Menyg Gwynion', a 'Gwraig y Morwr', ac os wyt ti yn gwybod am Baritone songs go dda heblaw y 'B. Dewr' anfon hwynt. Baritone yw fy llais fel y gwyddost, ac y mae Tom yn gallu canu yn dda — bar. a tenor. Y mae ef rhywsut yn debyg o ran canwr i Bob Shop Fron. Rwyf innau mewn lle da i'w dysgu gydag ef. Y mae yn chwareuwr campus. Yr wyf yn ymddiried yn un o honoch y byddwch yn sicr o wneud a hynny gyda throad y Post, achos mae Tom yn meddwl myned yn ol i Dakota mor fuan ag y gall. Addawaf innau anfon Watch chain yna i un o honoch. Buaswn yn anfon i Utica am y Songs onibai eu bod yn hir iawn yn anfon pob peth yn ol. Buasai yn rhaid iddynt anfon i Gymru oddiyno.

Bu Ellis Walter Jones yn pregethu yn Cambria nos Sul ddiwethaf, ond ni chefais ei glywed o achos y tywydd mawr. Buaswn yn falch iawn o gael ysgwyd llaw a chael ymgom ag ef. Yr oeddwn yn llaw garw ag ef yn Pen Diffwys ers talwm. Yr oedd yn pregethu yn hynod o dda, mewn hwyl anghyffredin. A ydyw Walter yn y wlad yna o hyd?

Y mae llawer iawn yn dod yn ol i Gymru oddi yma yr wythnosau hyn. Llawer o honynt wedi dychryn yn newisiad Cleveland yn President, ond nid wyf yn meddwl y dylai neb ddychryn. Y mae dynion gorau yma yn meddwl y bydd newidiad yn welliant am dro, o'r hyn lleiaf nid wyf am dorri nghalon yn ei ddewisiad.

Wel mae yn rhaid terfynu, felly terfynaf gan gofio attoch yn garedig fel teulu oll a derbyn dithau fy nghofion yr un modd.

Ydwyf dy frawd

OWEN

o.y. Derbyniais eich Christmas Cards dydd Sadwrn. A dderbyniasoch chwi fy 'American Views'?

OWEN

Cofia am anfon yn frysur gyda'r Songs.

OWEN

Cewch air yn fuan etto.





Cafwyd benthyg y ddau lun yma gan Emrys Owen, gynt o Stryd Bethesda, Llanberis (brawd Lena a Jenny), sydd bellach yn byw yn Solihull ers nifer o flynyddoedd ond sy'n ddarllenwr cyson o'r Eco, ac wedi cyfrannu llawer i'r papur dros y blynyddoedd. Mae'r llun uchaf wedi'i dynnu ar y diwrnod y cyrhaeddodd yr hetiau diogelwch i'r chwarel am y tro cyntaf — a'r chwarelwyr yn dathlu efo paned! Mae'r llun arall yn dangos criw o chwarelwyr o Lanberis, gan gynnwys tad Mr Owen (Now Now). Oes yna rywun all enwi'r gweddill?


Gwersyll Carafanau a Phebyll

Bryn Gloch

BETWS GARMON

YN EISIAU

Staff i'r Parc dros wyliau'r ysgol

Ffoniwch (01286) 650216

## ANGEN Y 'BRASSO'?

Mae timau −14 a −19 Ysgol Brynrefail yn dal i ymgiprys am Gwpan Ysgolion Cymru. Isod gwelir yr adroddiadau o'r gemau diweddaraf, a diolch i'r ddau ohebydd pêl-droed am eu cyfraniad:

* * * *

### Y HOGIA'N DAL I ENNILL

Parhaod tîm pêl-droed bechgyn hŷn yr Ysgol â'u rhediad yng Nghwpan Cenedlaethol Cymru gyda buddugoliaeth haeddiannol yn erbyn bechgyn Ysgol Elfed o Glwyd.

Wedi dechrau difflach, cryfhaodd Aled Jones ei enw fel sgoriwr o fri i roi'r hogia ar y blaen wedi chwarter awr. Yna, mewn cyfnod byr cyn hanner amser daeth dwy gôl gan seren y gêm, Andrew Williams, a olygodd fod y gêm o ddifrif ar ben, wrth i bawb gyfrannu'n llawn at ragoriaeth y tîm.

Wedi'r torriad sgoriodd Mark Williams yn gynnar ond wedi hynny ni lwyddodd y tîm i ymestyn eu mantais, ac wrth i'r perfformiad ddirywio sgoriodd yr ymwelwyr gôl hwyr i roi sgôr derfynol o bedair gôl i un.

Mae'r tîm rŵan yn symud ymlaen i'r rownd go-gyn-derfynol o'r Cwpan.

Y tîm: Iolo, Geraint, Martin Willis, Martin Watkinson, Gethin, Meilir, Gerallt, Andrew, Rory, Aled, Mark, Gareth Jones, Gareth Griffiths a Robin.

MEILIR JONES (BLWYDDYN 13)

### BRYNREFAIL v ST DAVID'S

Ddydd Mawrth, 9 Chwefror, fe gurodd tîm pêl-droed hogiau Brynrefail o dan bedair ar ddeg, a'r tîm anlwcus y tro yma oedd Ysgol St. David's o Wrecsam a gollodd o bedair gôl i ddim.

Paul Hughes a gafodd y gôl agoriadol ar ôl bron i chwarter awr o chwarae ac erbyn y torriad roedd hi'n ddwy i ddim — Jonathan Gordon a ddyblodd ein sgôr wrth roi'r bêl yn daclus yn y gôl. Anaml iawn roedd St. David's yn cael cyfle wrth ein gôl ni wrth i amddiffyn Brynrefail frwydro'n ddi-stop drwy'r gêm.

Gethin Wavell gafodd y drydedd gôl gyda chic gampus i gornel ucha'r rhwyd a chyn diwedd y gêm roedd cic Marcus Orlik yng nghefn y rhwyd fell yn y diwedd, buddugoliaeth gyfforddus arall i Frynrefail.

Chwarae teg i rai o athrawon yr Ysgol fe gafodd llawer iawn o ddisgyblion wersi rhydd i ddod i gefnogi'r tîm a choeliwch chi fi roedd yr holl floeddio a'r cefnogi yn help mawr i bawb. Erbyn hyn rydym yn wyth olaf Cwpan Cymru ac yn gobeithio ei hennill unwaith eto.

DAFYDD PRITCHARD (BLWYDDYN 9)


**Pa un o'r rhain sydd bwysicaf?**

**YSWIRIO EICH TŶ (i arbed colled i chi);**

**YSWIRIO EICH CAR (i arbed colled i chi); neu**

**YSWIRIO EICH BYWYD (i arbed colled i'ch teulu)**

Cysylltwch â'r isod i weld mor rhad yw cost yswiriant gyda CDH

Andre (Bethel/Llanberis)
Bryn (Môn)
Euryn (Caernarfon a'r cylch)
John Eifion (Penisarwaun)

**CDH**

Ymgynghorwyr Ariannol
Annibynnol Lleol (sefydlwyd 1974)

**Ffôn: (01248) 355055**


### NOSON ROC A RÔL

Braf iawn oedd gweld cymaint o'r disgyblion wedi mynd i'r hwyl ac wedi gwisgo'n addas ar gyfer y cyfnod yn y noson roc a rol a gynhaliwyd ar y cyd gan yr Urdd a Chyfeillion yr Ysgol.

Sbort a hwyl drwy'r nos gyda rhai disgyblion yn brysur iawn yn rhoi enwau cariadon ar fisgedi, rhai eraill yn gwisgo a chael gwobr am eu trafferth a cheisio dyfalu pwy oedd rhai o'r athrawon oedd wedi chwilio a chwalu yn yr atig am hen ddillad o'r 60au!

Mae'n amlwg i'r plant a'u rhieni fwynhau gan fod nifer yn holi pryd roedd y nesaf!

Diolch pawb, am wneud y noson yn llwyddiant.

**CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR**


**GWYNETH ROBERTS**
**84 Stryd Fawr, Llanberis**
**Ffôn: 870491**



CAFFI 'BWYTY ERYRI'
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION



Bara Ffres
Teisennau
Priodas, Bedydd
Pen-blwydd ac ati
Peis, Rholiau Sosej
Pasteiod, Teisennau Hufen
Teisennau Plât, Torth Gyrains ac ati

**BECWS ERYRI**
**Stryd Fawr, Llanberis 870491**


# NEWYDDION O Y

### CWIS DIOGELWCH TÂN



Cystadleuaeth flynyddol sy'n cael ei chynnal gan yr Adran Tân i godi ymwybyddiaeth pobl ifanc o ddiogelwch.

Mae Gogledd Cymru wedi ei rannu yn dair rhan ac roedd ein disgyblion ni, Llio Hughes, Sion Wyn Morris, Caryl Williams, Joe Hill a Michelle Spaini yn cystadlu am bencampwriaeth y Gorllewin.

Wedi cystadlu brwd gyda chwestiynau o bob math yn cael eu rhoi iddynt braf oedd cael dweud mai Brynrefail a orfu!

Cafodd y tîm noson ddiddorol ac addysgiadol iawn dan arweiniad aelodau'r Adran Dân.

Byddant yn mynd i'r Rhyl ddiwedd y mis i gystadlu am deitl Pencampwyr Gogledd Cymru — pob hwyl iddynt.

### EISTEDDFOD YR URDD

Pob lwc i'r cystadleuwyr yn y dawnsio disgo a'r dawnsio gwerin, nos Wener, 26 Chwefror, yn Ysgol Syr Hugh Owen, ac wrth gwrs yr holl ddisgyblion eraill sy'n cymeryd rhan mewn partïon ac eitemau unigol yn yr eisteddfod gylch a sir a gynhelir ym mis Mawrth.

### CYSTADLEUAETH Y



Braf oedd gweld cyn gymaint o'n disgyblion wedi llwyddo yn y gystadleuaeth bwysig yma.

Yn y categori 'gweledol', dan arweiniad Mrs Siân Owen, roedd y disgyblion canlynol yn enillwyr: Gwion Owen, Bl.7; Sarah Louise Weir, Bl.8; John Gavin Jones, Bl.10; Gwenan Evans, Bl.11; Wena Lloyd Williams, Bl.12; a Peter Jones, Bl.13.

Yn y categori 'ysgrifenedig',


**LONDON GARAGE**
FIAT FIAT **CWM-Y-GLO** FIAT FIAT
**ARBENIGWYR TRIN CEIR FIAT**
GORSAF PRAWF MOT
POB MÊC — CEIR A FANIAU BACH
GWASANAETH ac ATGYWEIRIO
CROESEWIR CWSMERIAID HEN A NEWYDD
GALWCH MEL (Roberts) ar (01286) 870234
neu Ffacs: (01286) 870066



AR AGOR:
Llun - Gwener: 8.30 a.m. - 5 p.m.
Sadwrn: 8.30 a.m. - 12.00

# SGOL BRYNREFAIL



### CLWB GYMNASTEG ERYRI

Nos Iau, 11 Chwefror, cafodd chwe geneth sy'n perthyn i'r clwb wahoddiad i Blas Tan-y-bwlch i noson wobrwyo Gwynedd.

Allan o'r chwech roedd tair ohonynt o Ysgol Brynrefail: Kathryn Pike, Lucy Stevens a Nia Wakeham.

Hwy oedd Tîm y Flwyddyn a chawsant darian unigol a tharian fawr i'w chadw am flwyddyn.

Llongyfarchiadau genod a phob lwc yn y gystadleuaeth ym Merthyr y mis nesaf.

### TRAWS-GWLAD ERYRI

Nifer fawr wedi cystadlu ond dim ond un, sef Gavin Roberts, yn mynd ymlaen i redeg dros Eryri yn Nhraws-gwlad Cymru. Pob lwc iddo.

### YNULLIAD' I YSGOLION



dan arweiniad athrawon yr adran Gymraeg roedd Dafydd Pritchard, Bl. 9 ac Elin Dafydd Owen, Bl.11 yn enillwyr, ac oherwydd safon uchel eu gwaith bydd cynnyrch Gethin Vaughan Jones, Bl.9; Nora Ostler a Ffion Meleri Jones, Bl.10, hefyd yn mynd ymlaen i'r rownd nesaf.

Llongyfarchiadau calonog iddynt a phob lwc yn y rownd nesaf.


### LLWYDDIANT I FAND PRES YSGOLION GWYNEDD A MÔN

Allan o ddeunaw band o Loegr, Yr Alban a Chymru roedd dau fand yn sefyll allan meddai'r beirniaid. Band Gwynedd a Môn a band o Gernyw, ond wedyn roedd ein band lleol filltiroedd o flaen y band o Gernyw!

Braf iawn yw gweld fod y traddodiad band yn dal i fod yn gryf yn ein pobl ifanc a diolch i bawb sy'n eu dysgu.

Wrth gwrs, roedd gwobr i'r unawdydd gorau ac ni yw'n ddiarth o gwbl mai Dewi Griffiths, Bl. 13 a'i cafodd.

Llongyfarchiadau i'r band a Dewi.



Llongyfarchiadau i Meilyr Emrys, Bethel ar ennill ysgoloriaeth Evan Morgan i astudio Hanes ym mhrifysgol Aberystwyth. Pob llwyddiant iddo yn ei yrfa.

### GÊM HOCI GYNTAF BLWYDDYN 7

Wedi ymarfer brwd gan enethod blwyddyn 7 cafwyd gêm rhyngddynt â thîm blwyddyn 8. Cyfartal oedd y rhan fwyaf o'r chwarae gyda blwyddyn 8 yn cryfhau tuag at y diwedd.

Un gôl i ddim i blwyddyn 7 ar yr hanner amser, ond yn fuan yn yr ail hanner fe sgoriodd blwyddyn 8 i'w gwneud yn gyfartal, ac yn y munudau olaf aethant ar y blaen a'i gwneud yn 2-1.

Gêm gyffrous iawn ac mae'r genod yn edrych ymlaen i'r nesaf.

### TWRNAMENT HOCI -16 ERYRI

Tîm -16 Ysgol Brynrefail oedd yn cynrychioli Gogledd Gwynedd gyda thimau o Borthmadog, Llangefni, Caergybi, Rydal a John Bright yn cymeryd rhan.

Daeth Ysgol Brynrefail yn gyntaf yn eu hadran gyda John Bright yn ail ac yn yr adran arall Rydal enillodd gyda Porthmadog yn ail.

Wedi gêm gyffrous iawn rhwng Brynrefail a Phorthmadog yn y gêm gyn-derfynol cyfartal oedd y sgôr ac hefyd ar ddiwedd yr amser ychwanegol.

Penderfynwyd y gêm ar 'penalty flicks', tebyg iawn i'r 'penalties' a geir ar ddiwedd gemau pêl-droed, ac yn anffodus i'r genod, Port sgoriodd fwyaf o'r penalties!

Port felly aeth ymlaen i'r gêm derfynol a cholli a wnaethant yn erbyn Rydal.

Hen dro genod, ond yn ôl Mrs A. E. Jones fe chwaraeoch yn arbennig o dda. Daliwch ati.

Cefnogwch ein Hysbysebwyr

## Urdd Sant Ioan yn 900 oed



Cyflwynwyd bathodyn i ddathlu 900 mlynedd mudiad Urdd Sant Ioan i aelodau Llanberis gan Mrs Gwenan Watkins, y Comisiynydd, ar ei hymweliad â'r gangen yn ddiweddar.

**Royal Victoria Hotel**

**LLANBERIS**

Mae'r gwesty yn darparu ar gyfer Priodasau, Partïon, Dathliadau ac Achlysuron Arbennig

Cyfleusterau Cynhadleddau a Phwyllgorau

Bwydlen Bar a Chinio Dydd Sul

**x**

**Ffôn: (01286) 870253**

J.M. JONES A'I FEIBION

GWAITH CERRIG BEDDAU

**Y SGWÂR LLANRUG**

Crefftwyr gwaith llaw traddodiadol

Cerrig o bob math ar gael

**Ffôn: (01286) 672898 (dydd) 676285 (nos)**

## Byw drws nesaf i Antur Waunfawr

**gan JEN ROWLANDS**

Wrth i mi fynd â'r plant i barc chwarae Antur Waunfawr rhyw fis yn ôl gofynnodd Menna Jones, y prif-weithredwraig, i ni gymryd rhan yn un o brosiectau diweddara'r Antur sy'n croniclo a phortreadu trigolion pentref Waunfawr ar drothwy'r mileniwm newydd, a hynny mewn arddangosfa luniau. A dyna ni, wythnos yn ddiweddarach, yn eistedd yn y parc chwarae eto, yn fam a dwy o ferched bach, yn gwenu'n ddel ar y ffotograffydd Keith Morris. Wrth droi wedyn at y sleid, gwelem nifer eraill o drigolion y pentref yn cyrraedd i gael tynnu eu llun. Roedd hi'n anrhydedd cael bod yn rhan o'r prosiect hwn, sy'n syniad gwych o gofnodi pobl y pentref ac yn atgyfnerthu'r cysylltiad rhwng yr Antur a thrigolion y Waun. Edrychwn ymlaen i weld yr arddangosfa yn y Tŷ Capel cyn bo hir.

Yng ngholofn Antur Waunfawr y mis diwethaf cawsom damaid o hanes sefydlu'r elusen yn ôl yn 1983, gan y cadeirydd Gwynn Davies. Mae'r bwriad yn hysbys i nifer helaeth o bobl yr ardal a thu hwnt, sef rhoi gwaith i bobl ifanc ag anawsterau dysgu tra'n gwasanaethu'r gymuned. Ond, 16 mlynedd yn ddiweddarach, beth yn union yw cyfraniad Antur Waunfawr i'r gymuned leol? Pa wasanaethau maent yn eu cynnig i ni'r pentrefwyr? Yn syml, sut beth ydi cael Antur Waunfawr yn gymydog i chi?

Pan symudom, bum mlynedd yn ôl, yn llythrennol i'r tŷ drws nesaf i safle'r Antur, doeddem ni'n gwybod fawr ddim am yr elusen. Ond erbyn heddiw mae wedi dod yn rhan o'n bywyd o ddydd i ddydd. Does yr un diwrnod yn mynd heibio nad ydym yn gwneud defnydd o un o'u nifer helaeth o wasanaethau. Mae'r safle ei hun yn fwrlwm o brysurdeb, ac i ni mae'n gyfystyr â chael canolfan siopa unigryw drws nesa. Yn wir, mae'n ganolfan siopa, stad ddiwydiannol, parc amgylcheddol a chanolfan ddiwylliannol mewn un.

Pan af a'r dillad allan i'w rhoi ar y lein daw môr o leisiau o bob cyfeiriad gan weiddi, 'Helô, Jen,' 'Sut wyt ti heddiw?' 'Wyt ti'n flin?' a byddwn yn cael sgyrsiau difyr â'r bechgyn dros y clawdd. Pan chwythodd stormydd y gaeaf ddwy goeden i lawr, ailgodwyd y wal gerrig yn gywrain iawn gan griw'r Antur. A phan orlifodd afon trwy ein cegin a thrwy'r tŷ drws nesaf, rai blynyddoedd yn ôl, roedd tîm o'r gweithwyr wedi'n helpu i glirio a sychu'r llanast o fewn dim.

Wedi gwylio Sali Mali yn plannu blodau ar S4C yr wythnos ddiwethaf, roedd Beca, ein merch dwyflwydd a hanner, eisiau plannu blodau hefyd. Felly i'r drws nesa â ni i brynu planhigion, potiau a phridd. Roedd hi hefyd eisiau gweld adar bach yn bwydo yn yr ardd a chawsom dŷ bwydo adar a hadau bwyd yn y siop arddio. Bob wythnos cawn lond sachau o goed tân a phriciau mân wedi eu danfon acw gan fechgyn yr Antur, a'r bechgyn sydd hefyd yn torri'r ardd i ni bob haf.

Pan na fedr ein babi bach, Megan, gysgu yn ystod y dydd bydd bymps ac awyr iach y parc natur yn gweithio bob tro ac mae Beca wrth ei bodd yn rhedeg trwy'r goedwig, yn cuddio yn y tŷ 'slumod ac yn chwilio am y llyffantod a'r pysgod aur yn y llynnoedd. Ac mor falch roeddwn i a Beca bod ieir yr Antur yn dodwy, pan es i'r ffrij ar ddydd Mawrth crempog a darganfod nad oedd gen i'r un wy!

Oherwydd safon uchel y cynnyrch cartref, cardiau a'r crefftau a werthir yn Siop Bryn Pistyll, fe fyddaf yn mynd yno pan fydd achlysur arbennig yn dod, fel pen-blwydd, bedydd neu'r Dolig. Yr enghreifftiau gorau yw'r gwaith bendigedig wnaeth Gill, Annwen, Gareth a Bridget ar y tusw blodau a'r basgedi morwynion a'r 'buttonholes' i'n priodas yn ddiweddar.

Rydym fel teulu yn mwynhau mynd i'r nifer o ddigwyddiadau a dyddiau agored mae'r Antur yn eu cynnal yn y parc natur. Maent yn amrywio o grwydro'r parc yn y tywyllwch yn gwylio'r 'slumod a'r gwyfynnod, i ymweld â Siôn Corn yn y Caban, i ddathlu'r hen ŵyl Geltaidd, Alban Hefin ar Fehefin 21. Ac ai cyd-ddigwyddiad oedd cael siant ffrwythlondeb gan Dei Hughes yn ystod yr Ŵyl yn 1997 a darganfod dri mis yn ddiweddarach fy mod yn feichiog eto!

Eleni mae Antur Waunfawr am ddatblygu a chynnig nifer o sasanaethau newydd i'r pentref, gan symud i gyfeiriad technegol a diwylliannol newydd. Edrychwn ymlaen yn bennaf i weld creiriau y tylwyth Indiaidd, y Mandan, amgueddfa John Evans, ac i ddysgu mwy am ei daith anhygoel i'r America 200 mlynedd yn ôl.

**PEIDIWCH A GORI AR STORI anfonwch hi i *Eco'r Wyddfa***

**PRYD I BAWB . . .**

DIM AMSER I GOGINIO?
GADEWCH I RYWUN ARALL WNEUD Y GWAITH
ARLWYO AR GYFER POB ACHLYSUR
AM FWY O FANYLION CYSYLLTWCH Â

**CERID MACKINNON (01286) 673190**


## Mwy o lwyddiant i Eifion

Mae Eifion Williams o Lanrug yn parhau i lwyddo yn y byd nofio. Ym mis Ionawr, mewn cystadleuaeth yn Lerpwl enillodd 5 medal aur ac 1 medal arian yn ogystal â'r cwpan am y perfformiad gorau gan fachgen dan 13 oed.

Dechrau Chwefror aeth i Dreffynnon lle'r enillodd 5 medal aur arall a sefydlu 3 record newydd. Eto enillodd y wobr am y bachgen gorau yn ei oed.

Cyn diwedd y mis yma bydd yn cynrychioli ysgolion Cymru mewn cystadleuaeth bwysig yn Iwerddon ac edrychwn ymlaen i gyhoeddi ei hanes.

## Beicars Llanbêr




Lal Jones, Huw Bara, Twm Rhostryfan, Peter Angel, Robin Yancs yn rasus enwog y TT, Ynys Manaw yn 1958.




**DRAENOG**

Gwell hwyr na hwyrach, ac felly dyma stori am rywbeth ddigwyddodd adeg y Dolig. O leiaf mi gawsom ni afael ar y stori cyn mis **May.** Yn ffodus ni chafodd y wraig hon niwed pan daniodd sigarét a'r tinsel oedd am ei gwddw yn mynd ar dân. Mwy o ofal y tro nesa, Linda.

R.D. Thomson
Crefftwaith Coed

**Uned 1A BRYNAFON LLANRUG**
**Ffôn: (01286) 674100 (dydd)**
**(01286) 650732 (fin nos)**
FFENESTRI : DRYSAU
DODREFN : GRISIAU
GWAITH TURNIO
BLYCHAU CLOCIAU
BLYCHAU DAL OFFERYNNAU
BLYCHAU ARDDANGOS

**GWASANAETH ARGYFWNG PLYMIO**
**24 awr y dydd – 7 diwrnod yr wythnos**
**PLUM24CYM**
**Gwaith Plymio :: Gosod Ceginau a Bathrwms**
**Gwaith cynnal a chadw o bob math**
**Cysylltwch â DOUG JONES, BRON EIFION, WAUNFAWR**
**Ffôn: (01286) 650363 (0797) 0318996 (symudol)**

# Cyngerdd Mawreddog

Nos Wener, 12 Chwefror, ar noson digon oer a gwlyb, fe fentrodd yn agos i bedwar cant o bobl i Eglwys St. Padarn, Llanberis i wrando ar un o'r cyngherddau gorau a fu yn yr ardal ers rhai blynyddoedd.

Yr artistiaid gwadd oedd Ms Mary Lloyd Davies, Llanuwchllyn; Trebor (Gwanas) Evans, Brithdir; ac, fel y cyfeiriodd Arwel Jones arweinydd y noson, 'Un o'n genod ni', sef Annette Bryn Parri, Deiniolen.

Roedd gwrando ar Mary Lloyd Davies yn canu yn gyrru iasiau i lawr cefn rhywun. Mae'r rhan fwyaf ohonom wedi ei chlywed ar y radio neu wedi ei gweld ar y teledu ond roedd ei gweld a'i chlywed 'yn fyw' yn yr eglwys nos Wener yn brofiad arbennig rwy'n siŵr.

Wel dyna gymerian a hanner ydi Trebor, ynte. Eto, dyma'r tro cyntaf i nifer ohonom gael y fraint o'i gyfarfod a'i glywed yn canu — heb sôn am y digrifwch sydd o'i gwmpas, dyma dynnwr coes go iawn. Mae'r ddawn ganddo i gyflwyno ei ganeuon yn gwneud i rhywun anghofio ei bod hi'n noson oer ac roedd pawb yn cynhesu wrth guro dwylo iddo.

Un o genod Tŷ'r Ysgol ydi Annette a phrin bod angen brolio hon gan fod pawb trwy Gymru, ac ymhellach, yn gwybod am ei dawn arbennig fel pianydd. Mae hi hefyd yn un o'r genod anwylaf i mi ei chyfarfod erioed — hogan sydd heb anghofio'i gwreiddiau (cefais fy magu bron y drws nesaf i'r teulu hwn, ie, braint i mi oedd hynny.)

Rhaid peidio anghofio Côr Dyffryn Peris! Roedd hon yn noson arbennig i'r Côr gan fod Arwel yn trosglwyddo'r arweinyddiaeth i ddwylo medrus Mrs Mair Hughes o Lanrug a rhaid dweud fod y Côr ar ei orau y noson hon, gyda diolch i Arwel am gael y Côr i'r safon presennol. Dymunwn yn dda hefyd i Mair.

Diolch i Arwel am drefnu'r noson a diolch i 'First Hydro' am noddi'r noson ac i bawb a gymerodd ran i'w gwneud yn noson mor lwyddiannus a chofiadwy.

GORONWY LEWIS



Trefnwyd parti arbennig ddydd Mawrth, Ionawr 26, ym Mhlas Pengwaith, Llanberis, i ddathlu Priodas Ddeiamwnd Jim a Margaret Munro. Daeth teulu a ffrindiau at ei gilydd i longyfarch Mr a Mrs Munro ar y diwrnod mawr. Priodwyd y ddau yng Nghapel Wesle Penisarwaun, a buont yn byw yn y Tŷ Capel am flynyddoedd lawer cyn symud i Blas Pengwaith ddeunaw mis yn ôl. Llongyfarchiadau mawr i'r ddau.

Cynhelir

**Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol**

**ANTUR PADARN CYFYNGEDIG**

**yn Y Ganolfan Gymunedol**

**Penisarwaun**

**Nos Iau, 25ain o Fawrth 1999**

**am 7.00 p.m.**

**Croeso cynnes i'r holl aelodau.**


GRADD ALLANOL
Prifysgol Cymru

Ers 1980, enillodd 50 o fyfyrwyr radd BA drwy ddilyn cyrsiau rhan-amser yn ystod eu horiau hamdden dan ofal rhai o ddarlithwyr mwyaf profiadol Prifysgol Cymru, Aberystwyth.



Os hoffech CHI wireddu breuddwyd oes a bod yn un o raddedigion y mileniwm newydd, anfonwch NAWR am restr gyflawn o'r cyrsiau a gynigir, a manylion pellach.

Prifysgol Cymru Aberystwyth The University of Wales

P Lynne Jones
Darlithydd â gofal y Radd Allanol
Prifysgol Cymru, Yr Hen Goleg
Stryd y Brenin, Aberystwyth
Ceredigion, SY23 2AX
Ffôn: 01970 622050 E-bost: ppj@aber.ac.uk
Tudalennau ar y We:
http://www.aber.ac.uk/~cymwww/Allanol/



CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA



Cyrhaeddwch mewn steil — mewn cerbyd *Rolls Royce* ar gyfer priodasau, penblwyddi ac achlysuron arbennig eraill

Dylan Griffith, Tros-y-Waen, Penisarwaun
Ffôn: (01286) 871833



Y Bistro
LLANBERIS
Ffôn 871278
PERCHNOGION: DANNY A NERYS ROBERTS
Beth am **Fwffe Enwog Nerys** i ddathlu pen-blwydd neu ben-blwydd priodas
Partïon rhwng 20 a 40. Ffoniwch am fanylion.
**Cofiwch am nosweithiau arbennig y Bistro — nos Wener olaf bob mis**

## L.M.F. gan Y GWALCH

Er ei bod hi'n fis Gorffennaf yn haf twym '44 roedd awel y cyn-wawr yn iasoer yn y goedlan honno yn Kent lle llechai Norman Partington.

Roedd cuddio fel hyn yn brofiad newydd iddo; a hynny yn ei wlad ei hun, a drwgdybio ei brodorion. Aml i waith tra bu yn yr Awyrlu yn dwyn cyrchoedd ar y Cyfandir, roedd un hyfforddwr ar ôl y llall wedi rhoi cyfarwyddid manwl o'r modd y dylai unrhyw un oroesi pe bai yn canfod ei hun ar lawr daear Ffrainc neu'r Iseldiroedd. Ond ei gydwladwyr oedd o'i gwmpas yn Kent.

Clywai awyrennau yn mynd a dod dros y Môr Udd am fod yna gyrchoedd di-dor ar Normandi a'r traethau. Doedd y Cynghreiriaid bryd hynny ond prin wedi cael gafael blaen troed ar Ffrainc. Yn eu mysg clywodd y sŵn digamsyiol hwnnw. Roedd y Lancasters yn dychwelyd o rhywle ar ôl treulio'r nos yng nghanol y taflegrau a'r chwilolau. Ychydig o ymdrech oedd eisiau ar ei ran i ddychmygu beth oedd yr hogiau rheiny yn ei wneud yr union funud gan ei fod wedi rhannu eu tynged mor aml.

Byddai rhai o'r awyrennau yn rhidyll o greithiau bwledi a shrapnel. Eraill a'u peiriannau ar dân ac yn cario clwyfedigion neu feirwon yn sypiau gwaedlyd ar draws eu gynnau a'u hoffer. Roedd yn gweld ei gyn-safle wrth fwrdd y *navigator* yn glir iawn, a phawb yn disgwyl clywed llais y WAAF oddi ar y llawr yn rhoi cyfarwyddiadau glanio iddynt, a'r adeg honno yr oedd pob un yn ei charu yn fwy na'r un yn y byd.

Er ei fod yn flaenllaw yn ei arholiadau, fu ganddo erioed yr un math o hyder ymarferol yn yr awyr. Byddai yn casáu clywed y gorchymyn disgwyledig hwnnw gan y Peilot: *'Give me a course, navigator'*, ac yntau yn ymgodymu â ffigurau *vector* a chyflymder ac uchder, a dim ond eiliadau ar gael i'w trin a'u datrys. Ond fuasai hynny efallai ynddo'i hun ddim wedi bod yn ddigon o reswm iddo gael ei lorio. Yr oedd yna arswyd ddyfnach — tân. Roedd gweld un o'r peiriannau wedi cipio neu awyren gyfochgrog yn mynd i lawr yn belen wenfflam yn ei dynnu yn llwyr oddi ar canol-bwyntio. A gwaeth — roedd unwaith wedi gweld llanc yn cael ei gludo o awyren a hanner ei wyneb wedi'i grasu. Yr oedd yn teimlo ei hun yn mynd yn is na'r disgwyliadau ers tro neu ddau, ond daeth yr ymweliad hwnnw â Stuttgart a pethau i ben.

Ystyrid hon, ar ôl un ar hugain o gyrchoedd iddo ef — naw arall i gwblhau y *tour* cyn gorffwys, yn daith hawdd o'i chymharu. Cyrch llwch i lygad ydoedd i geisio tynnu sylw'r Messerschmitts oddi ar yr haid fawr oedd yn targedu Berlin yr un noson.

Roedd yr awyr yn glir a serog gyda gwelediad da, ac yr oeddent wedi gallu mynd i mewn ac allan yn wyrthiol o ddianaf. Roedd y saith yn uchel eu hysbryd yn dychwelyd a'r Merlins yn dal i ddymu yn soled. Serch hynny, aeth cyfrifon Norman rhywsut yn groes ac ni allodd eu cywiro mewn pryd. Gall colli mewn ychydig o raddau anfon awyren led gwlad o'i llwybr mewn hanner can milltir.

Canfu'r peilot ei hun uwchben Môr y Gogledd ac wrth gywiro ychwanegodd cymaint at ei daith nes mynd yn brin o danwydd. O ganlyniad gorfodwyd ef i roi i lawr mewn maes tua trigain milltir o'i gartref gan fodloni ar unrhyw borthladd mewn tymhestl a chan nad oedd neb wedi cael anaf a'r Lancaster yn holl-gyfan, roeddent i gyd braidd yn destun gwawd yn y fan honno yn enwedig yn y *mess*.

Bore drannoeth, ar ôl cael ailgyflenwi'r tanciau o'r *bowser*, roeddent ar eu taith i'w maes eu hunain ond doedd yna ddim brwdfrydedd yn y croeso yno chwaith. Roedd y *squadron* yn barod yn paratoi am gyrch y noson a phawb yn ddihangol o Stuttgart, ac erbyn hynny roedd Norman yn teimlo bod rhyw agwedd wahanol wedi datblygu tuag ato yn ei griw ei hun.

Wrth gwrs yn y *debriefing* hir-ymarhous roedd cwestiynau annifyr i'w hateb, ac nid syndod i Norman oedd cael ei alw o flaen y meddyg, a chyda adroddiad hwnnw yn ei law, o flaen y C.O. ei hun.

Doedd hwnnw, gyda cyfrifoldeb gorsaf felly yng nghanol y rhyfel, ddim mewn sefyllfa i ogrwn lludw. Dywedodd wrth Norman ei fod wedi ei lorio yn barhaol a'i ddosbarthu fel LMF *(lack of moral fibre)* a chyn i'w gyflwr gael cyfle i fynd yn heintus i bawb arall, canfyddodd ei hun ar fyrder mewn cerbyd yn cael ei gludo i'r orsaf agosaf gyda warant teithio i Sittingbourne, a hynny heb hyd yn oed cael dweud 'hwrê' wrth y chwech. Ond ar waethaf popeth cafodd gyfle i roi ei ben i mewn yn y cwt hwnnw lle'r oedd y WAAFS yn llenwi beltiau'r Brownings efo cannoedd o fwledi, a gadael neges yno i LACW. McFarlane, y ferch a ymserchodd ynddi mewn byr gyfnod.

Unwaith yn y trên cafodd gyfle i ymson ar ei sefyllfa. Roedd y *posting* i Eastchurch, enw a sibrydid yn hytrach na'i yngan ar led y *squadron*, fel pe bai'n wladfa cosb fel Cayenne. Yno, yn ôl y sôn, roedd y rhai a oedd 'wedi'i chael hi' yn cael eu hanfon.

Torrwyd ar draws ei feddyliau pan ddaeth llanc mewn gwisg las i mewn i'r trên ac yr oedd ganddo glwt gwyn yn ei gap, yr hyn a atgoffodd Norman o'r cyfnod pan yr oedd o dan hyfforddiant ei hun. Yn anochel aethant i sgwrsio er bod yr hogyn braidd yn gyndyn ar y cychwyn wedi canfod ei hun ym mhresenoldeb swyddog yn cario cylchau am ei lewys ac yn gwisgo *brefet* N, a'r cotwm heb ddechrau gwisgo oddi ar ei ddillad ei hun. Yn y diwedd deallodd Norman eu bod yn teithio i'r un le, ond am resymau gwahanol.

Eglurodd yr hogyn ei fod wedi ei ollwng o'r Awyrlu ar ôl byr amser, am ei fod yn gweithio ar y tir, a chan fod angen bwyd erbyn hynny yn fwy na awyrenwyr. Yr oedd yn teimlo mai sarhad ar y mwyaf oedd cael ei anfon gartref a gadael ei gymdeithion. Roedd Norman fodd bynnag yn credu y dylai fendithio ei ffawd er na fentrodd ddweud hynny wrtho.

Aeth y ddau am y gweddill o'r daith yng nghwmni eu gilydd er bod y gagendor yn eu gwisg yn tynnu sylw rhai. Wrth iddynt groesi'r brifddinas gwelsant y difrod a adawodd awyrennau'r Almaen yno ac nis gallai Norman ddim llai na meddwl am ddinasoedd y gelyn. Wnaeth yr un o'r ddau, fodd bynnag, sylweddoli hyd y funud honno eu bod bellach yng nghyraedd y bomiadu hedegog — y *doodle bugs* fel y'i gelwid, a oeddent yn dal i ddod drosodd fesul cannoedd, ac unwaith clywsant ffrwydrad o bell.

Roedd yna lorri wedi'i hanfon i'w cyfarfod yn Sittingbourne, ond bu'n rhaid iddynt aros am ddyfodiad trên arall. Yr oedd pum awyrenwr arni; un yn swyddog ac yn beilot, a'r lleill yn gymysgfa o rhingyll. Sylwodd Norman fod y *Flight Sergeant* yn gwisgo ruban y DFM.

Ni ddywedwyd llawer ar y daith ar wahân i un neu ddau yn ceisio bod yn wamal ynghylch eu ffawd, ond yr oedd gan rai fwy o wybodaeth am eu tynged nac eraill. Deallodd Norman mai i Ynys Sheppey yng ngheg Afon Tafwys yr oeddent yn mynd ac wrth groesi'r cul-ddŵr cawsant yr argraff eu bod ar eu ffordd i rhyw fath o garchar. Troesant wedyn i ffordd gul ac ymhen dim roeddent wrth gatiau'r gwersyll a ymddangosai i Norman ar yr olwg gyntaf fel sefydliad a baratowyd i garcharorion rhyfel gyda'i rhesi o gytiau hirion, cyfochrog.

Yno yn eu croesawu a'u didol yn y *guardroom* roedd clamp o *Flight Sergeant,* y math oedd wedi bod yn yr Awyrlu ers Oes Adda ac yn ymhyfrydu mewn gwneud yn siŵr bod y rhai a oedd wedi gwasanaethu ond dwy neu dair blynedd yn llawn sylweddoli hynny ac yn rhoi iddo ei ddyledus barch. Yr oedd, fodd bynnag, yn fwy gwasaidd am y tro hefo Norman a'r swyddog arall, ond doedd y llanc clwt gwyn ddim ond baw y ddaear. Roedd hwnnw erbyn hynny yn glynu wrth Norman yn selog fel rhyw warchodwr, a chafodd y ddau eu didol o'r gweddill a'u hanfon i gwt ar ochr bryncyn.

Roedd hi erbyn hyn yn wyll ac rhy hwyr o lawer iddynt gael pryd o fwyd ar ôl eu taith flinedig, ac ar hynny clywsant sŵn uwchben fel pe bai rhywun yn rwdlan hoelion mewn casgen wag. Wrth edrych i fyny gwelsant rhywbeth tebyg i fflam yn teithio ar draws y wybren, a dechreuodd hynny o ynnau a oedd yn y cyffiniau danio arni, nes yr oedd yr amgylchedd fel un noson Guto Ffowc ryfeddol. Ond aeth y *doodle bug* yn ei blaen drwyddo i gyd yn ddianaf.

*(I'w parhau)*


Cefnogwch ein Hysbysebwyr

Gwasanaeth o'r Safon Uchaf am Brisiau Rhesymol



Gwasanaeth Trylwyr gan y bobl **BROFFESIYNOL**
Gwasanaeth Personol Cyfeillgar i **CHWI**
Y Gwasanaeth Technegol Gorau i'ch **CAR.** Cystal â Gwasanaeth Prif Ddeliwr
Felly, pa gar bynnag ydych **CHWI** yn ei yrru, o Audi i Zastava

AA — MOT — RAC Selected

GEMINI

Car neu Fan Petrol neu Disel Carb. neu Chwistrelliad

bydd ein Gwasanaeth ni yn arbed £ £ £ ichwi ac yn ymestyn oes eich car

AVW YSTAD CIBYN CAERNARFON (01286) 673559

BOSCH SERVICE



# BWS BACH AR LOG



**Bws 22 sedd ar gael ar gyfer pob math o logi preifat – nosweithiau allan, partïon, tripiau ac ati. Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan**

# D. P. OWENS
RHIWLAS
## 01248-361044



ANTUR WAUNFAWR

**Bryn Pistyll, Waunfawr**
**(01286) 650 721**
**Llun - Gwener 9 a.m. - 4 p.m.**

# DEWCH AM DRO!
**PARC NATUR A CAE CHWARAE**
**SIOP GREFFTAU A CHAFFI**
**NWYDDAU NEWYDD AR GYFER 1999**
**YN Y SIOP A'R FEITHRINFA**

**Cofiwch fod safleoedd ailgylchu cymunedol wedi eu lleoli yn: WAUNFAWR, LLANRUG, LLANBERIS CWM-Y-GLO, BETHEL**
**am fwy o fanylion ffoniwch**
**(01248) 355 112**

GWASANAETH AILGYLCHU GWYNEDD

# CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

CYDYMDEIMLAD. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i Mr Llew Hughes, Hyfrydle a Miss E. Hughes, Tan-y-graig yn eu profedigaeth o golli nai, Mr Eurwyn Morris, yng Nghaernarfon.

GWELLHAD BUAN. Anfonwn ein cofion cynhesaf gan ddymuno gwellhad buan i Miss E. Hughes, Tan-y-graig ar ôl iddi dderbyn triniaeth yn Ysbyty Eryri.

MARWOLAETH. Fore Sul, Chwefror 21, yn dawel yn Ysbyty Gwynedd bu farw Mrs E. M. Jones, Seiont House yn 86 oed. Bu Mrs Jones yn aelod ffyddlon yng Nghapel y Tabernacl a chlwb Pobol y Cwm. Estynnir ein cydymdeimlad dwysaf i'r plant Marian, Arfon, Gwilym, Gwyrfai ac Elisabeth a'r teulu oll yn eu profedigaeth a'u hiraeth.

DYMUNIADAU DA. Dymuniadau gorau i Mrs Mair Huws, prifathrawes yr Ysgol yn ei swydd newydd o arwain Côr Meibion Dyffryn Peris.

NEWYDDION O'R YSGOL. Cafodd plant yr Adran Iau awr hynod ddifyr yng nghwmni Michael Harvey o Gaerdydd. Cyflwynodd straeon a hen chwedlau o wahanol rannau o Gymru ac roedd pawb wedi mwynhau gwrando arno.

Daeth Mr Hywel Hughes o'r RSPCA atom hefyd i drafod anifeiliaid y nos. Dangosodd sleidiau diddorol iawn a chafodd y plant gyfle i'w holi.

Tro Nia a Heledd, cyflwynwyr Uned 5 oedd holi plant Bl. 5 a 6. Roeddent am gael barn y plant am raglenni Cymraeg a chawsant awgrymiadau hefyd gan ambell un!

Buom yn dathlu Gŵyl Santes Dwynwen yn yr Urdd a bu cryn brysurdeb ar gyfer y gwaith llaw. Pob hwyl i bawb sy'n cystadlu yn yr Eisteddfod hefyd.

Mae'n braf cael croesawu geneth fach newydd i'r Dosbarth Meithrin. Gobeithio fod Emma Cowley-Bassett wedi setlo yn yr ysgol a'i chartref yn Nhan y Marian.


Diolch yn fawr i bawb gefnogodd noson y bingo a drefnwyd gan y Gymdeithas Rhieni / Athrawon. Gwnaed elw anrhydeddus o bron i £200.

Enillwyr Clwb yr Ysgol am fis Ionawr oedd Mrs Marjorie Smith, Llanrug a Mrs Doreen Fleetwood, Fron, Cesarea. Llongyfarchiadau i'r ddwy ohonoch.

Carem ddiolch i bawb sydd wedi cefnogi ein hymgyrch i gasglu talebau creision. Rydym rŵan yn casglu rhai Tesco ar gyfer prynu rhaglenni cyfrifiadurol. Byddem yn hynod falch o'ch cefnogaeth unwaith eto.

UNDEB Y MAMAU. Cynhaliwyd cyfarfod yn Hafan Elan, Llanrug, nos Lun, 1 Chwefror. Dechreuwyd gyda gwasanaeth byr. Cofiwyd am Mrs S. O. Edwards a fu farw ar 30 Rhagfyr. Darllenwyd cofnodion o'r pwyllgor a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr a chafwyd adroddiad gan Mrs Ransom am y y cyfarfod Deoniaeth. Croesawyd ein gwraig wadd, Mrs Gwenfai Roberts gan Mrs Dorothy Jones a chafwyd noson ddiddorol iawn yn gwneud bocsus allan o hen gardiau Nadolig. Yn gofalu am y baned roedd mrs Dorothy Jones a Mrs Marjorie Roerts, hwy hefyd roddodd y raffl ac fe'i henillwyd gan Mrs Sandra Birbeck. Diolchwyd i Mrs Roberts ac i'r gwesteion gan Mrs Sandra Hughes. Terfynwyd trwy weddi. Bydd y cyfarfod nesaf nos Lun, Mawrth 1.

**Cefnogwch ein Hysbysebwyr**

**SLIM CHWIM MEWN DIM!**
**heb lwgu na chwysu**
**Cael gwared o'r bloneg a'r bol**
**Yn llesol natruiol, di-lol**
**CREDWCH! HOLWCH!**
**ffonlwch (01286) 830609**
**– TENEUWCH –**
**SLIM CHWIM MEWN DIM!**

I drin a thrwsio pob math o beiriannau gwnïo
**MENAI SEWING MACHINE CENTRE**
**21 Stryd Fawr PORTHAETHWY**
**Ffôn: (0248) 714043 neu C'fon 674520**
Edau, Nodwyddau ac ati mewn stoc

**IEUAN WILLIAMS**
**Glanffrwd**
**DEINIOLEN**
**(01286) 870484**
★ Bysiau o 12 i 53 sedd
★ Teithiau Lleol a Thramor
★ Gwaith Contract
★ Telerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol.


# Ar ben arall y lein . . .

Pleser pur yw edrych yn ôl a sylweddoli cymaint mae'r gymdeithas 'sgota wedi'i gamu ymlaen dros y blynyddoedd. Pwy fyddai'n meddwl wrth edrych ar ein hawliau heddiw mai ar ddechrau'r ganrif — pan oedd y tadau yn gweithio i sicrhau pysgota i'r mwyafrif — dim ond hanner diwrnod yr wythnos o 'sgota a geid. Tybed beth fyddai eu hymateb wrth weld ein sefyllfa heddiw? Wrth gwrs mae'n rhaid diolch i'r rhai a ddechreuodd ar y crwsâd am eu gweledigaeth. Heb waith rhain pwy fyddai perchnogion ein hawliau gwerthfawr 'sgwn i?

Siarad yn bersonol rwy'n ddiolchgar dros ben am yr addysg a'r wybodaeth sydd wedi ei rhoi imi gan y cymeriadau rwyf wedi cael y fraint o'u cyfarfod ac am yr oriau gwerthfawr mae llawer un wedi'i roi i'm gwneud yn well 'sgotwr. Tipyn o gamp, meddai rhai! Ond mi rydwi'n dal un neu ddau weithiau, felly nid yw'r amser wedi bod yn ofer. Yn ogystal mae'r cynhesrwydd a'r croeso rwyf wedi'i dderbyn ar lawer aelwyd a'r storïau a'r tynnu coes sy'n deillio o'r cyfeillgarwch hwnnw yn amhrisiadwy. Efallai y caf rywdro amser i rannu rhai o'r perlau y cefais y fraint o'u clywed ond, yn anffodus, mae llawer o'r cymeriadau hyn bellach wedi mynd i daflu'r lein ar yr Iorddonen.

Wrth gofio am yr hen hogia sydd wedi mynd rhaid talu sylw i'r dyfodol a rhoi cyfle i'r bobol ifanc gael yr un peleser rydym ninnau wedi'i gael gyda'r enwair a gweithgareddau eraill sy'n gysylltiedig a'r mwyniant. I'r perwyl hwn dalier sylw ar y dyddiadau canlynol —

**Sadwrn, 3 Ebrill:** Llyn Dwarchen, Cystadleuaeth dan 18 oed. 'Sgota 2-4 p.m.

**Sadwrn, 22 Mai a 24 Gorffennaf:** 1-4 p.m. 'Blas ar Bysgota'. Bydd croeso i bawb a cheir hyfforddiant i sgota o'r glannau ac oddi ar gwch a bydd offer ar gael i'w benthyca.

Mae'n siŵr eich bod yn cofio'r ymddygiad gwarthus fu rhai blynyddoedd yn ôl pan ddaeth nifer o ganŵ-wŷr i lawr afon Seiont fel protest. Canlyniad hyn, wrth gwrs, bu'n rhaid i nifer ymddangos o flaen y Llys a thalu iawndâl i'r Clwb am eu hymddygiad. Un sefydliad na fu o flaen y Llys yr adeg honno oedd Awdurdod Addysg o'r tu arall i Glawdd Offa sydd â Chanolfan Addysg Awyr Agored yn ein bro. Rhaid dweud i bethau fod yn eitha tawel ers hynny ond yn ddiweddar rydym yn gweld rhai ohonynt yn dechrau amharchu ein heiddo unwaith eto. Nid unigolion ydynt ond rhai â chysylltiadau, ac yn dal swyddi, gyda'r Canolfannau Awyr Agored sydd ym mherchnogaeth awdurdodau lleol o Loegr. Mae agwedd y bobl yma'n warthus ac o feddwl bod plant a phobl ifanc yn eu gofal rhaid gofyn y cwestiwn — beth mewn difri sy'n mynd ymlaen oddi mewn i'r maes yma? Mae un peth yn sicr, nid yw parch a chwrteisi yn rhan o'u cwricwlwm.

O'r diwedd, wedi i ni guro ar nifer o ddrysau a edrychai nad oedd agor arnynt, mae'n bleser cael dweud bod Asiantaeth yr Amgylchedd bron a chwblhau cynllun gwerthredu'r eog ar y Seiont. Cynhaliwyd cyfarfod ymgynghorol a gobeithio y bydd cynllun pendant ar gael yn fuan. Rydym yn ffyddiog y bydd y ffordd yn glir i ni ddatrus ein pryderon ac ymysg y rhain mae'r pynciau rwyf wedi cyfeirio atynt droeon, sef problem *Eutrophication* Llyn Padarn, carthffosiaeth Caernarfon, a llwybr pysgod Nant Peris. Gobeithiaf ehangu ar yr achos hwn pan ddaw'r ffeithiau terfynol i'm meddiant.

Yn ogystal â disgwyl am awgrymiadau'r Asiantaeth gweldwn ein bod wedi dechrau ail flwyddyn cynllun stocio eog yn y Seiont. Mae yna oddeutu 5,000 o eogiaid bach wedi eu rhoi allan ond mae yna 6,000 arall wedi bod yn tyfu yn y Ddeorfa a bellach yn y pwll gollwng ac o fewn y dyddiau nesaf bydd trawsnewid iddynt. Greddf natur yn dwud ei bod yn amser ymadael a'r dŵr croyw ac ymlwybro am y môr, a mawr obeithiwn y cawn weld pysgod gloyw yn dychwelyd i'r afon ymhen rhyw 18 mis. Dyna'r gobaith. Yn ogystal mae cyflenwad o tua 10,000 o wyau a gasglwyd yn Rhagfyr '98 yn barod wedi dechrau deori ac, os aiff popeth yn iawn, fe fydd hanner y rhain yn cael eu gollwng tua yr un amser a'r llynedd.

Ar y Llyfni mae arbrofion i'w cynnal ddiwedd Chwefror i geisio sefydlu beth yw maint mudiad yr eog a'r sewin bychan o Lyn Nantlle. Trwy hyn gobeithir dechrau ar gynllun gollwng *sils* y flwyddyn nesaf. Mae'r gwaith o ychwanegu at y basgedi wyau yn y Ddeorfa yn barod ar waith. Dyma offer sydd wedi codi yn sylweddol yn eu prisiau ers inni brynu y rhai diwethaf rhyw saith mlynedd yn ôl. Rhaid fydd cartrefu'r pysgod bach hynny yng Nghrawia hyd nes y byddant yn barod i'w gollwng ymhen rhyw flwyddyn ar ôl deori.

HUW P. HUGHES

## DRAENOG



Os bydd rhywun yn cynnig llnau eich car, gofalwch nad dyn tŷ'r ysgol ydio. Aeth hwnnw ati'n ddiweddar i llnau ei gar ei hun ac wedi'i olchi'n ofalus dyma fo'n dechra efo'r polish. Stwff da oedd y polish hefyd gan godi'r llwch a'r baw yn rhwydd. Ond buan iawn y dechreuodd y car edrych fel bloc o siocled Aero — yn bubbles i gyd. Roedd y creadur wedi defnyddio 'oven cleaner' o bopeth!



**AM OFFER TŶ A GARDD . . .**
**FORMAG**
**41A STRYD FAWR, LLANBERIS**
**Ffôn: (01286) 872501**

# DEINIOLEN

**W. O. Williams, 6 Rhydfadog. Ffôn: (01286) 871259**

**Camera yng ngofal Valmai Williams, Hafle, 2 Rhes Faenol Ffôn: 871174**






*Bu amryw o aelodau'r Seindorf yn cystadlu ym mhencampwriaeth unigolion y bandiau ym Methesda ganol mis Chwefror.*

CYMDEITHAS Cyfeillion Eglwys Llandinorwig. Nos Lun, 1 Chwefror, croesawyd Mr Hefin Goronwy Jones, Llanrug gan y Parchg Tegid Roberts. Siaradodd Hefin am sut y bu iddo, wedi cyfnod yng ngwaith Peblig yng Nghaernarfon, hyfforddi i fod yn nyrs. Soniodd am y profiadau a ddaeth i'w ran ac am ei waith ar hyn o bryd o fod mewn gofal ward. Esgyrn a'r cymalau yw maes nyrsio Hefin a soniodd am y chwyldro sy'n digwydd gan arddangos rhai o'r offer sy'n cael eu defnyddio heddiw i wella ac asio esgyrn. Diolchwyd i Hefin am noson addysgiadol iawn. Paratowyd lluniaeth ysgafn gan Mrs Barbara Allen a Jean Moeller.

MARWOLAETH. Yn ddisymwth ar noswyl Nadolig, yng nghartref Plas Ogwen, Bethesda bu farw Mrs Edith Wynne Parry, gynt o 19 Pentre Helen. Gwraig ei milltir sgwâr oedd Mrs Parry ac wedi byw gydol ei hoes yn ardal Deiniolen a Bethesda.

Dymuna Wyn, Alan a'r teulu ddiolch yn ddiffuant iawn am bob arwydd o garedigrwydd a chydymdeimlad eu cyfeillion yn eu profedigaeth o golli mam a nain annwyl iawn. Casglwyd y swm teilwng o £100 er cof tuag at Ymchwil y Galon.



**Mae'r meistr yn aelod GOR, ac felly pam na all y ci bach fwynhau canu? Rhaid gadael y radio ON wrth fynd allan neu bydd y ci bach yn malu'r dodref a gwneud llanast. WYddoch chi fod y meistr yn anfon adroddiadau am y côr yn gyson i'r Eco?**



*Llongyfarchiadau i Collette Williams, enillydd Tarian Goffa Mr a Mrs O. H. Jones sy'n cael ei rhoi i'r aelod ifanc sydd wedi gwneud y cynnydd mwyaf yn ystod y flwyddyn. Cyflwynwyd y darian iddi yn ystod cyngerdd Nadolig y Seindorf.*

ENILLWYR Clwb 100 Plaid Cymru am fis Ionawr: £10 Miss Iris Rees Jones, 18 Hafod Olau; £5 Miss Elen Wyn Jones, Ty'n y Fawnog, Dinorwig.

Y GYMDEITHAS. Cafwyd noson ddifyr yn y Gymdeithas Lenyddol nos Lun, Chwefror 22, yng nghwmni Mr Ifor ap Glyn, Caernarfon. Darllenodd rai o'i gerddi ac egluro eu cefndir. Llywyddwyd gan Mrs Jane Jones.

CYNGOR EGLWYSIG. Cynhaliwyd astudiaeth Feiblaidd dan arweiniad y Parchg John Pritchard yng nghyfarfod mis Chwefror a gynhaliwyd yn festri Ebeneser.




Blodau
o safon uchel
ar gyfer eich
achlysuron
arbennig

(01248) 352263

**AM BRYDAU TSINEAIDD BLASUS I'W BWYTA GARTREF**

**LAKESIDE**
**CHINESE TAKEAWAY**
**47 STRYD FAWR LLANBERIS**
**Ffôn: 871840**

**CARTREF YMDDEOL DEINIOLEN LODGE**

**Ffôn: (01286) 871073**

AR FIN AGOR
HOLWCH AM FANYLION

**THE PANNIER**
**50 STRYD FAWR LLANBERIS**
**Ffôn: 870301**

DEWCH ATOM AM FRECHDANAU A BYRBRYDAU FFRES A WNEIR AR EICH CAIS

Ar agor Mawrth — Sadwrn
9 a.m. - 4 p.m.

DERBYNNIR ARCHEBION DROS Y FFÔN

# Atgofion Plentyndod Hen Wraig

Fe'm ganed yn y flwyddyn 1908 (ac mae'r rhif '8' a llawer o ddigwyddiadau yn gysylltiedig â mi), yn Lodge Penybryn rhwng Caernarfon a Bontnewydd.

Garddwr oedd fy nhad, Tom Jones (a ddaeth yn ddarlledwr am arddio efo'r BBC, 1939-44) efo teulu o'r enw Darbyshire, perchennog un o chwareli Dyffryn Nantlle. Y mae garddio yn fy ngwaed. Yr oedd yno ardd fendigedig. Doedd fawr o wahaniaeth gan Mr Darbyshire faint a wariai ar y lle, er mai talu rhent a wnâi i'r Faenol, os cofiaf yn iawn. Roedd hynny wrth fodd fy nhad wrth gwrs gan y câi ddigon i wario ar yr ardd i'w gwneud yn baradwys o le. Yr oedd yno dai gwydr wedi eu cynhesu â glo. Cofiaf am un cactus arbennig, nid y rhai bach sy'n tyfu mewn potiau; yn y nos yr agorai ac yr oedd arogl hyfryd arni. Deuai ffrindiau o dre Caernarfon i fyny yn y nos i'w gweld ac wrth gwrs dod i'r tŷ am gwpanaid a sgwrs wedyn, a ninnau'r plant yn codi o'r gwely i sbecian.

Cofiaf fioledau'n tyfu mewn fframiau a byddai pob ochr i'r ffordd at y plas yn wyn o eirlysiau ym mis Chwefror. Tyfid tomatos yn y tŷ gwydr ond ni ddefnyddid hwy ond fel addurn ar un adeg. Roedd yno ddwy winwydden ddu ac un wen, ac wrth gwrs ciwcymerau. Tyfid pob math o lysiau yn yr ardd; rwyf wedi fy magu ar lysiau ac rwy'n dal i fod yn hoff iawn ohonynt.

Wedi i'r tomatos orffen cochi roedd y blodau Mihangel (chrysanthemums, neu crys Martha fel y galwai un o'r dynion a weithiai efo 'nhad nhw), pob mathau ohonynt o wahanol liwiau. Roeddent wedi bod allan mewn potiau drwy'r haf ond cyn y rhew rhaid oedd dod â nhw i'r tŷ gwydr ac yn ystod nosweithiau tywyll Tachwedd a Rhagfyr byddent yn werth eu gweld. I'r tŷ gwydr hefyd yr âi mynawyd y bugail (geraniums) a llawer o flodau eraill na allent ddal y rhew. Roedd bron yn haf o hyd ym Mhenybryn.

Gan ein bod yn byw hanner ffordd rhwng Caernarfon a Bontnewydd euthum i Ysgol Bont a chael cwmni plant y Cartref yn ffrindiau imi. Gwyddech mai plant y cartref oeddynt bryd hynny — torrid gwallt y genod fel hogiau a gwisgent ffrogiau glas tywyll yn y gaeaf a rhaid llwyd yn yr haf. Miss Williams oedd yn gofalu am y genod ac yr oedd fel mam annwyl iddynt. Un o fy ffrindiau pennaf oedd merch i weinidog a oedd wedi marw'n ifanc a'i mam wedi mynd i ffwrdd i fod yn nyrs. Am gyfnod y bu hi yno ond roeddwn wedi dotio at ei henw, Angharad Anwyl Williams, ond 'Faf' y byddai yn ei galw ei hun.

Yn Ysgol y Bont roedd yna geffyl pren a edrychai mi cyn gymaint â cheffyl go iawn. Cawsai'r hogyn oedd wedi bod yn ymddwyn yn dda drwy'r dydd fynd ar ei gefn. Bob pen iddo roedd yna gadair fechan, a'r hogan orau fyddai'n cael eistedd ar honno. Pur anaml y cawn i'r fraint!

Mr Thomas oedd y prifathro ond, coeliwch chi fi, Saesneg fyddai'n ei siarad â ni. Byddai plant Llanfaglan yn dod i'r ysgol ac y mae rhai ohonynt ar dir y rhai byw fel finnau, Flo Cae-rhos, er enghraifft.

Amser hapus iawn oedd hwnnw. Cefais fy ngwybodaeth yn yr ysgol ond fy ngwerthoedd yn y capel, ac i gapel Beulah yr aem. Anthropos oedd y gweinidog, llenor mawr a ysgrifennodd lyfrau i blant ac a fu'n olygydd *Trysorfa'r Plant.* Fo a'm bedyddiodd i a'm chwiorydd. Meddyliai Tada y byd ohono, a fo a'i cymhellodd i sgrifennu llyfr a dramâu ac erthyglau i'r wasg.

Ar wahân i'r ysgol a'r capel mae gennyf frith gof am lawer o ddigwyddiadau. Cofiaf i rywun fy nghodi ar fainc i weld arwisgo'r Tywysog yn 1911. Doeddwn i ddim wedi cyrraedd fy nhair oed ond cofiaf weld gown goch ac ermine arni. Roedd Mrs Darbyshire oedd yn byw yn y plâs yn foneddiges (rêl ledi ar lafar gwlad) a gofynnai i'r *coachman* aros iddi gael gair â'r hogan fach, ac iddo yntau ofyn i mi, 'Beth sydd yny castell yr wythnos nesaf?' er mwyn imi ddweud y gair mawr 'Investiture' a Mrs Darbyshire yn dweud, 'A little girl like this can speak English, and I cannot speak a word of Welsh.'

Cyn y Rhyfel Byd Cyntaf, gwisgid y milwyr mewn coch. Byddai gwersyll heb fod ymhell o'n cartref a chofiaf fynd yno, heb i Mam wybod, i ymweld â'r gwersyll. Chwilio mawr amdanaf ond milwyr caredig iawn oeddent ac roeddwn i'n mwynhau fy hun yn eu plith, meddai Mam.

Torrodd rhyfel 1914-18 a phan oeddwn yn ysgol Miss Crowther, roedd Mr a Mrs Darbyshire wedi marw, ac aethom i fyw i'r dre o Benybryn. Roeddem yn byw yn Segontium Terrace erbyn hynny, a byddwn yn gorfod croesi'r Maes i fynd i'r ysgol yn Twthill. Byddai milwyr mewn brown erbyn hynny yn ymarfer ar y Maes. Tipyn yn Seisnigaidd oedd plant ysgol Miss Crowther, a Saesnes oedd hithau, ond byddai'n galw hogan bach o'r wlad allan i ddarllen Cymraeg o flaen y dosbarth. Hanner diwrnod o ysgol a gaem — y bechgyn yn y bore a'r genod yn y pnawn a hynny bob yn ail wythnos. Milwyr clwyfedig a fyddai yn ysgol y bechgyn, mewn dillad glas. Roeddwn i'n hapus ymhlith y Cofis, ond oherwydd amgylchiadau bu'n rhaid inni symud fel teulu i Lanrug i edrych ar ôl fy nain — tad fy nhad — yntau, fel finnau, wedi byw i fod yn 90 oed. Newid ysgol a gwneud ffrindiau newydd — ond stori arall yw honno.

Yn ystod y rhyfel roedd Mr Darbyshire wedi gosod 'lodge' i ffoaduriaid o wlad Belg a chefais gwmni brawd a chwaer, Simon a Raymon. Nid oedd ganddynt air o Saesneg a Ffrangeg oedd eu hiaith gyntaf. Ond bu teulu arall o ogledd Belg a Flemish a siaradent hwy — Belg fel Cymru yn wlad ddwy-ieithog.

Wrth gwrs Kaiser oedd y gelyn mawr, fel Hitler ar ei ôl, a Lloyd George oedd yr arwr mawr. Addolai'r bobl canol oed ef a'r plant yn canu, 'Lloyd George ydi'r gora'. Roeddem ni wedi gadael y dre erbyn diwedd y rhyfel.

# Côr Meibion Dinas Bangor

Cynhaliwyd y cyfarfod blynyddol yn Ysgol y Faenol nos Fercher, Ionawr 27ain hefo'r cadeirydd, Mr Ken Williams, yn y gadair. Ar ôl adroddiadau gan yr ysgrifennydd, cadeirydd, trysorydd a'r arweinydd etholwyd y canlynol fel swyddogion a phwyllgor ar gyfer y flwyddyn 1999 — *Llywydd:* Cledwyn Jones, Tawelfan, Penrhosgarnedd; *Cadeirydd:* Gwyn Hefin Jones; *Is-gadeirydd:* Huw Hughes; *Ysgrifennydd:* David Price, 8 Min Menai, Eithinog, Bangor (01248) 362929; *Trysorydd:* Gwyndaf Williams; *Ysgrifennydd Cyngherddau:* Gwyn Hefin Jones (01286) 870848; *Llyfrgellydd:* Emrys Hughes; *Trefnydd Llwyfan:* Norman Evans; *Arweinydd:* James Griffiths; *Cyfeilyddes:* Lowri P. Roberts-Williams; *Tenor 1:* Sulwyn Davies; *Tenor 2:* David Roberts; *Bas 1:* Ellis Griffith; *Bas 2:* Huw Hughes.

Gyda golwg ar 1999 mae llawer o gyngherddau eisoes wedi eu trefnu gan gynnwys 13 cyngerdd i ymwelwyr o America yn un o neuaddau y Brifysgol rhwng y Pasg a mis Medi. Dau gyngerdd ym Mhlas Newydd Llanfairpwll; a hefyd trefnwyd cyngherddau yn Llandudno, Bury St. Edmunds — ar y cyd â Chôr Meibion Bury St. Edmunds — ac wrth gwrs y daith i Cyprus yn yr hydref.

Mae trefniadau ar gyfer y daith i Ynys Cyprus eisoes wedi cychwyn. Bydd y côr yn mynd yno ar Hydref 17 am wythnos gan aros mewn gwesty moethus ger Paphos. Y mae'n fwy na thebyg y bydd o leiaf dau gyngerdd gan y côr tra ar yr ynys — gobeithir trefnu hyn mewn cysylltiad â'r Cyngor Prydeinig.

Fel pob côr arall mae Côr Meibion Dinas Bangor yn chwilio am aelodau newydd o bob llais, oherwydd y mae cydbwysedd agos iawn yn y côr ar hyn o bryd ac felly mae croeso i aelodau newydd o unrhyw lais. Y mae ar hyn o bryd 45 o gantorion gan gynnwys 13 tenor cyntaf, 13 ail denor, 10 bas cyntaf a 9 ail fas. Os am ymuno dowch i Ysgol y Faenol erbyn 7.30 ar nos Fercher neu cysylltwch ag unrhyw un o'r swyddogion.


**R. M. (DIC) PARRY**
PEINTIWR AC ADDURNWR
PRISIAU RHESYMOL
**TAWELFA, PENISARWAUN**
**Ffôn: (01286) 870846**

Harddwch eich cartref gyda
**FFENESTRI CELTIC** WINDOWS
Sefydlwyd 1980
FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS
CYFLENWYR AWDURDODAU LLEOL
Busnes teuluol gyda blynyddoedd o brofiad
Ffoniwch — 'dio'n costio dim i gael pris
**(01286) 678618** (dydd)
**(01248) 670081** (nos)
HEN YSGOL GLANMOELYN
LLANRUG LL55 2RG

***Fframia***
**GWASANAETH FFRAMIO LLUNIAU**
**Arbenigwyr ar fframio gwaith edau a nodwydd**
**Nifer helaeth o luniau ar werth**
**Dewis eang yn cynnwys:**
**IVOR STUBLEY :: KEITH ANDREW**
**KEITH BOWEN :: ROB PIERCY**
**PARC PADARN, LLANBERIS (870922)**
*(Ar gau dydd Sul a dydd Llun yn ystod y gaeaf)*

# LLANRUG

**Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384**

**Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed. Ffôn: (01286) 677263**

MARWOLAETH. Ar 30 Rhagfyr 1998 bu farw Mrs Olwen Edwards, gweddw y diweddar Barchedig Deiniol Wyn Edwards, Rheithor Llanllechid a Maes-y-Groes – plwyfi lle bu'r ddau yn hapus a gweithgar iawn a mawr eu parch gan y plwyfolion.

Un o Fachwen oedd Mrs Edwards, yn ferch i'r diweddar Griffith a Sarah Jane Thomas a chwaer i'r ddiweddar Elsi a'i rhagflaenodd saith mlynedd yn ôl. Mynychai'r teulu Eglwys St. Mair, Dinorwig lle bu ei thad yn amlwg iawn gyda'r canu. Roedd y ffordd i St. Mair yn faith a serth ac ar brydiau troisant i mewn i Gapel Fachwen, oedd drws nesaf i'w cartref, a buont yr un mor ffyddlon a gweithgar yno.

Wedi colli ei gŵr ymgartrefodd Mrs Edwards yn Llanrug ac yn ôl ei harfer bu'n hynod ffyddlon a gweithgar yn yr eglwys yn Llanrug hyd ddiwedd ei hoes. Hyd yn ddiweddar bu'n athrawes Ysgol Sul ac yn gefnogol i eglwysi Llanrug, Cwm-y-glo, Llanberis a thu hwnt ar achlysuron arbennig. Roedd yn hoff iawn o ganu a meddai ar lais hyfryd.

Bu'r angladd ar 5 Ionawr 1999 yn Eglwys Maes-y-Groes, Talybont, Bangor, gyda'r Parchedig Emyr Owen yn gwasanaethu. Cafwyd darlleniad gan y Parchedig Ganon E. Trefor Jones, Llandudno a thalwyd teyrnged deilwng gan y Parchedig Ganon R. Glyndwr Williams, Bangor. Mr Geraint Gill oedd wrth yr organ. Rhoddwyd i orffwys ym Mynwent yr Eglwys gyda'r Parchedig Philip Hughes, Llanberis a Llanrug yn gwasanaethu.

Daeth llu o gyfeillion o bell ac agos i'r angladd i ddangos eu parch i un a fu mor gyfeillgar, gweithgar a ffyddlon i achos Iesu Grist. Roedd ganddi gyfeillion lu. Bu'n gweithio yn siop Nelson yng Nghaernarfon gydol ei hoes ac ynf awr iawn ei pharch ymysg ei chydweithwyr. Meddai ar hiwmor iach a gallai weld yr ochr ddoniol mewn bywyd. Fe erys chwithdod mawr ar ei hôl yn y pentrefi y bu'n byw ynddynt ac yn enwedig i'w ffrindiau bore oes yn y Fachwen – doedd unman yn debyg i'r Fachwen yn ei golwg.

Heddwch i'w llwch ac yn sicr bydd y nefol gôr yn ei derbyn â breichiau agored. 'Yr hyn a allodd hon, hi a'i gwnaeth.'

Mrs ENID JONES, Tal-y-sarn

DIOLCH. Dymuna Enid Jones, Tal-y-sarn ddiolch o waelod calon i deulu, cymdogion a ffrindiau Mrs Olwen Edwards, Cilan, Glanffynnon, Llanrug, a fu mor garedig tuag ati mewn gweithred, ymweliadau a galwadau ffôn tra'n byw yn Llanrug wedi marw ei gŵr, y Parch. Deiniol Wyn Edwards, rheithor eglwysi Llanllechid a Maes-y-Groes, Dyffryn Ogwen.

Diolch arbennig i'r offeiriaid a gymerodd ran yn y gwasanaeth yn Eglwys Maes-y-Groes ac ar lan y bedd. I'r organydd, Mr Geraint Gill, ac hefyd i Miss Megan Ellis, warden yr eglwys, a fu'n hynod o ffyddlon iddi. Diolch i bawb a ddaeth o bell ac agos i dalu'r gymwynas olaf i un a fu mor ffyddlon a gweithgar yn yr eglwysi y bu'n aelod ohonynt. Yr ymgymerwyr oedd Mri Pritchard a'i Fab, Llanberis.

DIOLCH. Dymuna Mrs Heulwen Williams, 5 Glanmoelyn ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau, blodau, anrhegion a'r galwadau ffôn a dderbyniodd yn dilyn llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd.

DIOLCH. Dymuna Cliff a Vera, Awelon ddiolch i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am y cydymdeimlad a'r caredigrwydd a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth o golli mam annwyl iawn. Bydd y rhoddion hael a dderbyniwyd yn mynd i gangen leol Cymdeithas Altzheimers.

CROESO adref o'r ysbyty i Mrs Gaynor Williams, Penterfyn; ac i Mr Harry Roberts, Plas Tirion Terrace. Brysiwch wella.

CYDYMDEIMLAD. Estynnwn ein cydymdeimlad llwyr i Mr a Mrs Clifford Williams, Awelon, Ffordd yr Orsaf a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth o golli mam, nain a hen nain annwyl, sef Mrs Dilys Williams, Hafan Elan gynt.

Cydymdeimlwn hefyd â theulu Olga (Thomas, Twll Clawdd gynt), sef ei gŵr, plant, mam, brodyr a chwiorydd a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth hwythau.

PLAID CYMRU. Mae sgwrs gan Mrs Mary Vaughan Jones am ei theithiau yn un o gyfarfodydd mwyaf poblogaidd rhaglen Plaid Cymru, ac eleni eto, nos Fercher, Ionawr 20, cawsom glywed a gweld ei hanes mewn gwlad hynod ddiddorol, sef Tunisia. Dangoswyd sleidiau o fywyd Tunisia heddiw, yn ogystal â rhai o'r olion Rhufeinig rhyfeddol sydd yno. Mwynhawyd paned a sgwrsio ar ôl y ddarlith. Enillydd raffl y noson oedd Siôn Humphreys, ac fe roddwyd y te a'r raffl gan Mrs Margaret Parry.

DYDD GWEDDI BYD-EANG Y CHWIORYDD. Cynhelir yng nghapel Hermon, 5 Mawrth am 2 o'r gloch. Y thema eleni yw 'Tyner Gyffyrddiad Duw' a pharatowyd y gwasanaeth gan chwiorydd Cristnogol Venezuela. Bydd croeso i holl chwiorydd yr ardal i gapel Hermon.

MERCHED Y WAWR. Er gwaethaf y tywydd garw roedd yna oddeutu dwsin o'r ffyddloniaid wedi llwyddo i gyrraedd yr ysgol gynradd ar nos Fawrth, Chwefror 9fed ond yn anffodus bu'n rhaid i'r gŵr gwadd – cynrychiolydd o Hufenfa De Arfon – droi'n ôl oherwydd yr eira.

Manteisiwyd ar y cyfle i wneud trefniadau ar gyfer y misoedd sydd i ddod a chafwyd ymarfer cyntaf y côr ar gyfer Eisteddfod Rhanbarth Merched y Wawr sydd i'w chynnal yn Neuadd Ogwen ar 17 Ebrill. Atgoffwyd yr aelodau fod y gwaith llenyddol i fod i law erbyn 15 Mawrth.

Cyhoeddwyd bod bwffe wedi'i drefnu yng ngwesty'r Celt, Caernarfon ar Sadwrn, 24 Ebrill, gyda'r Llywydd Cenedlaethol, Sylwen Davies yn bresennol a bydd adloniant o dan ofal parti llefaru Lleisiau Llifon a pharti Lleisiau'r Gweunydd.

Bydd y gangen yn gofalu am y lluniaeth yn Eisteddfod Cylch yr Urdd yn Ysgol Brynrefail, 6 Mawrth, gwnaed apêl am gymorth ac am nwyddau.

Ymweliad ag Antur Waunfawr fydd gweithgaredd mis Mawrth a dylid rhoi'r enwau i Meirwen Lloyd mor fuan â phosib, os gwelwch yn dda.

YR YSGOL GYNRADD

Dyweddïad: Ein dymuniadau gorau i Mr Wyn Griffiths a Miss Bethan Jones (sydd newydd ddechrau yn ei swydd fel dirprwy bennaeth ysgol Tal-y-sarn) ar eu dyweddïad.

Yr Urdd: Pob hwyl i'r holl gystadleuwyr yn yr Eisteddfod Cylch ddechrau Mawrth. Llongyfarchiadau i 'Grŵp y Gwanwyn': Alis Haf, Sophie Gordon a Hannah Benson, ar eu llwyddiannau yn y cystadlaethau celf.



WAVELL ROBERTS a ddaeth yn drydydd mewn cystadleuaeth gwneud selsig i gigyddion drwy Brydain. Cewch fwy o'i hanes yn y rhifyn nesaf.

## Clwb Eryri

Yn y cyfarfod ar nos Wener, Chwefror 5, yng Ngwesty'r Victoria, Llanberis cydymdeimlwyd â dau aelod a'u teuluoedd yn eu profedigaeth, sef y Dr Gwyn Williams a gollodd ei fam a Stanley Owen ei chwaer-yng-nghyfraith. Er gwaetha'r oerfel a'r ffliw, mwynhaodd cynulliad da sgwrs ddiddorol Eurwyn Jones ar droeon ei yrfa fel rheolwr banc. Er iddo grwydro dipyn o gangen i gangen, gwlad a phentref oedd piau'i galon a chafodd foddhad mawr yn coroni ei yrfa fel Rheolwr Banc y Midland, Llanberis. Soniodd am y newid mawr mewn ymagweddau at fusnes bob-dydd bancio a'r twf aruthrol mewn technoleg trin arian. Serch hynny, roedd llawer i'w ddweud dros yr hen drefn pan adnabyddai'r rheolwr ei gwsmeriaid yn bersonol a phan oedd y cysylltiad rhwng byd busnes a'r bobl yn llawer mwy uniongyrchol ac efallai yn gynhesach hefyd. Cafwyd aml hanesyn am y cymeriadau brith a ffraeth a gyfarfu yn ystod ei yrfa, cyn dod a'r sgwrs i ben, ac agorwyd y noson i drafodaeth o'r llawr wedyn gan y cadeirydd, Frank Green, a roddodd fywgraffiad diddorol o'r siaradwr wrth ei gyflwyno'n gynharach. Diolchwyd i bawb a gyfrannodd at weithgareddau'r noson gan Eurwyn Griffith. Wrth gloi, cyhoeddodd y llywydd, Alwyn Evans, bod Cinio Gŵyl Ddewi'r Clwb ar nos Wener, Mawrth 5, yng Ngwesty'r Victoria (7.15 ar gyfer 8.00 p.m.) gyda'r Parch. Harri Parri, Caernarfon yn ŵr gwadd. Hefyd cafwyd manylion y wibdaith flynyddol ar 19 Mehefin gan y trefnydd John Hugh Hughes. Cyn hynny ar nos Lun, Mai 10, bydd cyfarfod o'r swyddogion yn nhŷ'r llywydd am 7.00 p.m. pryd y ceir manylion terfynol am drefniadau'r daith a chyfle i hel meddyliau am raglen 1999-2000.

IOLO HUWS-ROBERTS




**ELLIS WYN**

**SIOP Y BARBWR, YR HEN FARCHNAD**
**STRYD Y PLAS, CAERNARFON**

- **Hefyd yn galw yn eich cartref**
- **Ffoniwch am apwyntiad**

**678963 (GARTREF) 0411 457215 (SYMUDOL)**

**GARTH MAELOG**

**PET CENTRE AND GROOMING SALON**

Bwyd ac anghenion
Anifeiliaid anwes bychan
Pysgod dŵr oer
Offer pysgota



Molchi, cribo a chlipio
cŵn a chathod
o bob math
gan arbenigwyr

**STRYD FAWR, LLANBERIS 870840**

# Trasiedi Trip Ysgol Sul

Diwrnod hapus yw dydd trip Ysgol Sul a dyna sut roedd hi i 750 o blant ac oedolion Dyffryn Peris, sef plwyfi Llandinorwig, Llanberis, Llanrug, Penisarwaun a Llanddeiniolen wrth iddynt, fore Sadwrn, 1 Gorffennaf 1899, gychwyn hefo trên i dref Pwllheli.

Yr oedd yn arferiad i aelodau eglwysi Anglicanaidd yr ardaloedd chwarelyddol hon ymuno â'i gilydd ar y trip blynyddol gydag offeiriaid y plwyfi. Uchafbwynt y flwyddyn oedd y wibdaith, enu yn iaith y cyfnod, 'y bleser daith' a chyfle, am un dydd o'r flwyddyn, i anghofio am fywyd caled Chwarel Dinorwig gan fwynhau awyr iach prif dreflan Llŷn. Yn anffodus trodd y wibdaith yn hunllef pan ddymchwelodd cwch rhwyfo ag oedd yn cario naw o blant a thri oedolyn ym Mae Ceredigion.

Boddwyd yr holl deithwyr. Dim ond y cychwr, Robert Thomas, a achubwyd. Roedd y deuddeg a foddwyd oll yn aelodau yn eglwys fechan St. Mair, Dinorwig. Boddwyd un teulu cyfan, pedwar aelod o deulu arall, dau frawd ac un bachgen arall a hynny o bedair aelwyd yn Ninorwig, sef Bron Elidir, Tŷ Ddewi, Tanybwlch a Tynyfawnog. Cafwyd hyd i bedwar corff yn syth ar ôl y drasiedi, yna saith ar y dydd Llun, a daeth corff bachgen bach, John Hughes, i'r lan ar draeth Abererch wythnos union wedi'r drasiedi. Cynhyrfwyd ardal gyfan yn dilyn y drasiedi a mawr fu'r effaith ar ardal y chwareli. Claddwyd un ar ddeg ar y dydd Iau canlynol (6 Gorffennaf) a gwelwyd yr angladd mwyaf erioed yn yr ardal y diwrnod hwnnw pan ddaeth bron i bum mil o alarwyr ynghyd. Yn dilyn gwasanaethau yn y pedwar tŷ yn Ninorwig aeth yr orymdaith oddi yno i Eglwys Crist, Llandinorwig lle cynhaliwyd y gwasanaeth angladdol.

Roedd gweld un ar ddeg o eirch, wyth ohonynt yn blant, yn olygfa dorcalonnus a dweud y lleiaf. Claddwyd yr un ar ddeg mewn chwe bedd yn y fynwent sydd yn amgylchu'r eglwys a chladdwyd y deuddegfed, sef John Hughes, ar y dydd Mawrth canlynol.

Mae Deon Gwlad Arfon, y Parchedig Idris Thomas, wedi ysgrifennu'r holl hanes mewn llyfr dan y teitl *Pêl Goch ar y Dŵr*. Mae ynddo gofnod cynhwysfawr o'r drasiedi hefyd manylion llawn am fywyd plwyf Llandinorwig a chymdogaeth Dinorwig yn ystod blynyddoedd olaf y ganrif ddiwethaf. Caiff y llyfr ei gyhoeddi gan Gwasg Carreg Gwalch ac mae'n gynnyrch rhai blynyddoedd o waith ymchwil gan yr awdur er ei waith egnïol yn ei blwyf, deoniaeth a'r esgobaeth.

Dywed y Parchedig Idris Thomas: 'Cefais fy magu yn Ninorwig ac yn Eglwys St. Mair ac felly rwy'n gwybod yn dda am gartrefi ac amgylchfyd y deuddeg a foddwyd. Nid oes neb wedi ymchwilio i'r drasiedi hon a rhoddodd hyn gyfle i mi ymchwilio i fywyd plwyf Llandinorwig a chymdogaeth Dinorwig yn niwedd y ganrif ddiwethaf. Roedd bywyd eglwysig y plwyf, dan arweiniad y ficer, y Parchedig James Salt, a bywyd ymneilltuol dan arweiniad y Parchedig John Puleston Jones, yn lawn egni a chynnwrf ac ni ddylid anghofio hyn.'

Caiff y llyfr ei lansio gan mlynedd union ers y digwyddiad, sef nos Iau, 1 Gorffennaf, a hynny mewn gwasanaeth deoniaethol i gofio'r drasiedi yn Eglwys Crist, Llandinorwig. Yn y gwasanaeth bydd Esgob Bangor yn gosod torch ar y gofeb enfawr yn yr eglwys i gofio'r deuddeg a gosodir blodau ar eu beddau. Yn y bore bydd bad achub Pwllheli yn mynd allan at yr union fan lle dymchwelodd y cwch rhwyfo ac fe osodir torch yno ar y môr gan faer Pwllheli a chynhelir gwasanaeth crefyddol byr dan arweiniad ficer St. Pedr, y Parchedig Meurig Llwyd a gweinidog Penmount, y Parchedig William Davies.

Daliodd y drasiedi hon yn 1899 ddychymyg Prydain gyfan a thu hwnt a bydd y coffhad ar ddydd iau, 1 Gorffennaf yn gyfle i ddwyn i gof yn lleol y digwyddiad prudd hwn yn mywyd cymuned ardal y chwareli.

Y deuddeg a foddwyd oedd holl deulu Tynyfawnog, sef Owen Thomas (33), ei wraig Ellen (27) a'u plant Ellen (10), Owen (3), a William Edward (6). O aelwyd Tŷ Ddewi, John Hughes (36) a'i blant Ellen (6), Catherine Ann (10) a John (12); o Tanybwlch y ddau frawd Richard (15) a Thomas (12) a Charles Davies (13) o Bron Elidir. Dywed y geiriau canlynol o Lyfr y Diarhebion am y cyfan: 'Oherwydd ni wyddost beth a ddigwydd mewn diwrnod.'

Bydd croeso cynnes i bawb yn eglwys Llandinorwig nos Iau, 1 Gorffennaf.

IDRIS THOMAS


# Trin Traed Gwartheg



'Crush' pwrpasol gan W.O.P.A.

Ar gyfer buwch neu darw

Hefyd:

Ymgymerir â shafio gwartheg tew

## Dylan Roberts

Penllech Bach, Tudweiliog, Pwllheli

(01758) 770279 : symudol 0421 956143


# DINORWIG


Miss Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig. 870292


YN YR YSBYTY. Drwg gennym glywed fod Mr John Peris Roberts wedi'i gymeryd i'r ysbyty. Dymunwn wellhad llwyr a buan iddo.

CAE CHWARAE. Mae'n dda gennym weld fod y gwelliannau i gae chwarae'r plant yn mynd rhagddynt ar waethaf y tywydd drwg ac ni fydd yn rhaid disgwyl yn hir eto cyn cwblhau'r gwaith. Rwy'n siŵr y bydd yn barod i chi, blant, erbyn gwyliau'r Pasg a gobeithio y bydd yn rhoi llawer o bleser ichwi. Tybed a oedd yn rhaid gweithio arno ar y Sul?

Y GYMDEITHAS LENYDDOL. Ionawr 21ain cawsom noson ddiddorol iawn yng nghwmni Mr Eurig Wyn, Y Groeslon. Llywydd y noson oedd Miss Marian Jones a thalwyd y diolchiadau gan Miss Nellie Wyn Jones.

Cawsom ein diddori ar 4 Chwefror gyda Noson Lawen o dan ofal Mrs Mattie Hughes, Llanberis. Talwyd y diolchiadau iddynt gan Miss Marian Jones. Diolch i Mrs Hannah Roberts am baratoi lluniaeth ysgafn iddynt ac i'r merched a fu mor barod i gynorthwyo i sicrhau bod pawb yn cael eu diwallu.

Ar 11 Chwefror roedd Cwmni Drama Llanberis i fod yma ond oherwydd amgylchiadau annisgwyl rhaid fu gohirio'r noson. Felly, fe welwch fod gennym rhywbeth i edrych ymlaen ato ond nid oes dyddiad wedi'i benderfynu eto.

Y gŵr gwadd ar 18 Chwefror oedd y Parchg Idris Thomas, Trefor sy'n fab hynaf i Mrs Alice Thomas, 1 Bro Elidir a'r diweddar Hugh Thomas a fu mor ffyddlon i'r Gymdeithas. Mae Idris wedi gwneud gwaith ymchwil i'r ddamwain a ddigwyddodd ym Mhwllheli can mlynedd i eleni pryd y boddwyd 12 o'r ardal hon. Bydd gwasanaeth yn Eglwys Crist Llandinorwig nos Iau, 1 Gorffennaf am 7 o'r gloch pryd y bydd y Parchg Idris Thomas yn lansio ei lyfr *Y Bêl Goch*, sef hanes y drychineb. Bydd Esgob Bangor yn bresennol. Llywydd y noson oedd Miss Marian Jones a thalwyd y diolchiadau gan Mrs Alice Griffith.

Bydd tymor y Gymdeithas yn dod i ben ar 4 Mawrth gyda chinio Gŵyl Ddewi yn nhŷ bwyta y Marquis yn Llanfairpwll. Os nad ydych wedi rhoi eich enw a fuasech mor garedig a'i roi i mi cyn gynted ag y mae modd, os gwelwch yn dda.

EISTEDDFOD Y PENTREF. Rydym wedi penderfynu cynnal eisteddfod eto eleni, nos Fawrth, 27 Ebrill, yn y Ganolfan gan obeithio y bydd y tywydd yn fwy caredig eleni. Cewch y manylion yn y rhifyn nesaf o'r Eco.

CYFARFOD CYHOEDDUS. Nos Fawrth, 16 Chwefror, cynhaliwyd Cyfarfod Cyhoeddus yn y Ganolfan a'r materion i'w trafod oedd: trydan, carthffosiaeth a Menter y Lechen Las.

Braf oedd gweld y Ganolfan yn orlawn. Yn bresennol roedd y Cynghorydd Len Jones; Mr Brian Davies a Mr Dewi Rhys Williams ar ran MANWEB; Ms Mair Pierce Owen ar ran cynllun Menter y Lechan Las.

Agorwyd y cyfarfod gan Miss Marian Jones ac fe drosglwyddodd yr awennau i'r Cynghorydd Len Jones. Cafwyd ar ddeall gan gynrychiolwyr MANWEB bod cynllun wedi'i gadarnhau gan yr adran gynllunio i wario £300,000 ar ailweirio yr ardal, sef o Blue Peris i ben Gallt y Foel; i lawr y Fach-wen ac i fyny Lôn Sardis. (Mae'r cynlluniau i'w gweld yn y Ganolfan.) Cafwyd cryn drafodaeth ar y mater. Y tro diwethaf y gwnaed y gwaith yma oedd yn 1957. Ar hyn o bryd mae'r cynllun efo'r Adran Masnach a Diwydiant yn Llundain ac maent yn gobeithio dechrau'r gwaith yn y gwanwyn a'i orffen cyn y gaeaf nesaf. Rydym wedi cael addewid bod MANWEB wedi dysgu llawer o wersi ers Nadolig 1997 ac os ceir problemau yn y dyfodol bydd pob galwad ffôn yn cael ei hateb a bydd yn haws o lawer i ymateb i bob cwyn.

Yn anffodus doedd yna neb yn bresennol i drafod carthffosiaeth a siomedig oedd yr ymateb gan i'r Cynghorydd Len Jones ddweud mai dim ond Bro Elidir a Maes Eilian oedd dan sylw'r cyngor ar hyn o bryd er ei fod yn gynllun gwerth £350,000. Roedd tipyn o anfodlonrwydd a phasiwyd i gael rhywun o Gyngor Gwynedd, Adran yr Amgylchedd; Adran Carthffosiaeth Cwmni Hyder i ymweld a'r ardalwyr yn y Ganolfan ar ddyddiad i'w drefnu.

Ynglŷn â Menter y Lechen Las cafwyd esboniad gan Ms Mair Pierce Owen — sydd newydd lenwi'r swydd fel Swyddog Datblygu — ei bod yn bwysig bod yr ardalwyr yn rhoi ar ddeall yr hyn a ddymunant gael ei ddatblygu yn yr ardal. Bydd gan Mair swyddfa yn Neiniolen cyn bo hir. Peidiwch a cholli'r cyfle — mae'r arian ar gael i'r ardal y tro yma. Mae'n braf cael deall ein bod ar y map y tro hwn ac na chawn ein anghofio'n llwyr fel y bu gan Fwrdd Cynhyrchu Trydan gyda'r arian i gyd yn mynd i Lanberis. Sarhad ar yr ardal oedd hynny. Felly ardalwyr Dinorwig dowch a'ch syniadau. Cyhoeddir dyddiad y cyfarfod nesaf yn ddiweddarach.


Gwynedd Hotel & Restaurant

**Llanberis 870203**

Ar agor trwy'r flwyddyn ar gyfer priodasau, dathliadau bedydd, penblwydd a phob achlysur arbennig arall.

Gallwn drefnu adloniant — disgo a.y.y.b.

Bwydlen Bar a Restaurant





**AR WERTH**

**BEICIAU MEWN CYFLWR ARDDERCHOG**

6-7 oed bachgen; 9-10 oed geneth
9-10 oed bachgen

Ffoniwch (01286) 870735

# TÎM PÊL-DROED LLANBERIS 1998-1999



## EISTEDDFOD LLANBERIS

**Dydd Sadwrn, 15 Mai 1999**


**yn Festri Capel Coch**

**am hanner dydd a 6.00 p.m.**

Cystadlaethau ysgrifenedig yn agored i drigolion bro'r Eco. I'w hanfon at Mrs Heather Jones, 7 Coed y Glyn, Llanberis, erbyn 1 Mai 1999

1. Erthygl ar gyfer *Eco'r Wyddfa*
2. Emyn Cyfoes
3. Llinell Goll:
   'Hwre, dwi 'di ennill y Lotri',
   Bloeddiodd Nain, yn crynu fel jeli,
   Ond aeth pethau'n flêr
   Ym mhentre Llanbêr
   ..........................................
4. Limrig ar y testun 'Dathlu'r Mileniwm'
   Mae'r cyfan 'di mynd dros ben llestri
   ..........................................
5. Brawddeg o'r gair DOLBADARN

## CIG AR YR ASGWRN?



Dathlu diwedd y rations ar gig y mae'r bobol yn y llun hwn a welwyd yn y *Daily Mail* ar Orffennaf 5, 1954. Roedd ychen yn pwyso 12 cant wedi'i rhostio yng ngardd Gwesty'r Fictoria yn Llanberis, *'this mountain township'*, gan ŵr o Stratford-on-Avon, George Tyler. Dechreuodd rostio am 4 o'r gloch y bore ac roedd y cig yn barod erbyn hanner dydd. Llosgwyd 8 cant o lo a deg cant o goed wrth rostio'r anifail. Torrwyd y sleisen gyntaf o gig gan y Parchg J. H. Williams, Rheithor Llanberis ar y pryd. Lynn Williams yw'r ferch sy'n helpu i dywallt saim dros y cig. Mae'r *Daily Post* yn adrodd y stori hefyd, gan ddweud fod 3,000 o bobl a phlant wedi cael tamaid o'r cig cyn diwedd y dydd. Aed â pheth o'r cig i'r ysbytai yng Nghaernarfon a Bangor hefyd. Faint o ddarllenwyr yr *Eco* sy'n cofio'r achlysur?


Alwyn a Sarah Jones

RACCA

PENISARWAUN

★ Blodau ar gyfer pob achlysur

★ Dewis da o Lysiau Fferm

★ Wyau *Free Range*

Ar agor saith diwrnod



870605

LLYSIAU AR GYFER PICLO



G. EVANS




ARBENIGWYR TRWSIO CYRFF CEIR

Uned 4, Stad Ddiwydiannol Brynafon, Llanrug

(01286) 678030

# CROESAIR MAWRTH



ENW........................................................................................................

CYFEIRIAD...............................................................................................

.....................................................CÔD POST..............................

**27 ar draws ydi 1,3,32 ar draws ac 1,22 a 35 i lawr. I ddweud y gwir, mae yna ddau 1 i lawr, un yn y Gogledd a'r llall yn y De, sy'n gwneud 7 i gyd.**

**AR DRAWS**

8. Manteisio o gynhyrfu'r awel (4)
9. Darn o glai ar do'r tŷ (7)
10. Llinyn o gotwm (4)
12. Mae rhai i'w cael yn 1 i lawr (G) ac yn 32 ar draws (7)
13. Sbonc (4)
14. Dyn o'r dre (4)
16. Golau sêr wedi ffrwydro — mae'n beth difrifol iawn (8)
19. Wedi ei golli, fel llong wedi suddo (7)
22. Rhan o gorff y gymdeithas (5)
23. Aderyn iard y fferm (3)
24. Cuddio yn y ddaear (5)
25. Dal y twr bregus yn ofalus (7)
30. Dirweddol (4)
34. Her i Sais Nel ddiwygio (7)
36. Darn o fara sâl? (4)
37. Gall byd Enid fod yn ddiogel (7)
38. Math o gerbyd sydd yn defnyddio petrol. Na, dydi hi ddim! (4)
39. Penddunod (9)
40. Un sy'n argraffu â theipiadur (6)

**I LAWR**


2. Tro wrth ganu penillion (5)
3. Mae'r stori am Len yn cynnwys yr hyn y cludwyd y stori ynddi (5)
4. Y weithred o yrru o ddryll (7)
5. Arwain Aled i ogof Arthur. Mae'r ateb yno! (5)
6. Cyfarfodydd hen ddisgyblion ysgol (9)
7. Dodrefn i gadw llestri ynddynt (6)
11. Llwythi Santa (9)
15. Y llanciau drwg ar ddisberod heb y gŵr. Dyna sut mae magu bol cwrw (9)
17. Dŵr o'r cymylau (5)
18. Bwyd wedi ei ferwi'n araf (4)
20. Saim yn perthyn i rai diog (5)
21. Yr hyn a olchir i'r lan gan y môr (4)
26. Merch gyfunrhywiol (7)
28. Bod yn ofalus (6)
29. Arfau eillio (7)
31. Ffurf o rediad berf i fynegi gwahanol adegau (5)
33. Cartref (5)

## ATEBION CHWEFROR

Derbyniais atebion i groesair mis Chwefror gan Jennie Williams, Clynnog; M. P. Jones, Clynnog; Nansi Davies, Rhuthun; Rhiannon Pritchard-Jones, Clynnog; Mair Foulkes, Penisarwaun; Moreen Lennon, Llanberis; Dorothy Jones, Llanrug; Ceinwen Williams, Bethel; Hywel Griffith, Awstralia; Ceridwen Williams, Llanrug; Eirwen Roberts, Tregarth; N. Hughes, Cwm-y-glo; Rosemary Williams, Tregarth; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; Ellen Pritchard, Garndolbenmaen; Olwen Owen, Llanberis; Eurig Roberts, Llanrug; Mair Evans, Caernarfon; Mary Davies, Waunfawr; Margaret W. Roberts, Caernarfon; Elfed Evans, Llanllechid; Mabel Parry, Porthmadog; Jean Hughes-Jones, Rhiw; Catherine A. Jones, Rhiw; G. Gill, Bangor; ac E. E. Jones, Rhoshirwaun.

Ymgais M. P. Jones, Bron y Werydd, Clynnog, Caernarfon LL54 5PS a dynnwyd allan o'r het oedd yn cynnwys yr atebion cywir. Llongyfarchiadau a'r £5 y mis i chwi.

Ar ôl cwblhau croesair y mis hwn, gyrrwch eich atebion at Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun, Caernarfon LL55 3HE erbyn Mawrth 22, os gwelwch yn dda.



# *Dyddiadur y Mis*

## MAWRTH

**5. Gwe** Dydd Gweddi Chwiorydd y Byd
**6. Sad** Yr Urdd — Eisteddfod Gylch dan 12 oed yn Ysgol Brynrefail
**8. Llun** **DEINIOLEN:** Y Cyngor Eglwysi yn cyfarfod yng Nghefnywaun am 7 o'r gloch.
**WAUNFAWR:** Y Gymdeithas Lenyddol — sgwrs gan Mr Eryl Roberts
**9. Maw** **LLANBERIS:** Swper y Gymdeithas Lenyddol yn y Bistro yng nghwmni'r Parchg Harri Parri, Caernarfon
**10. Mer** **BETHEL:** Cinio Gŵyl Ddewi Merched y Wawr ym Miwmares yng nghwmni'r Prifardd Gerallt Lloyd Owen
**11. Iau** **PENISARWAUN:** Yr Urdd — noson Hwyl yr Urdd yng Ngwesty'r Celt, Caernarfon
**16. Maw** **PENISARWAUN:** Yr Urdd — coginio Pasg hefo Eirlys Williams, Bethel
**22. Llun** **DEINIOLEN:** Y Gymdeithas Lenyddol — sgwrs gan Mr J. Hughes, Racca
**23. Maw** **PENISARWAUN:** Yr Urdd — bingo diwedd tymor

## RHODDION

**£30: Marged a Peris, er cof am Mrs C. Jones-Evans, Hafan Elan gynt.**
**£10: Mrs D. M. Jones, Plas Pengwaith, Llanberis, er cof am ei rhieni W. T. Jones ac M. E. Jones, Ysgoldy, Clwt-y-bont gynt. Enid a Griff Jones, Tal-y-sarn, er cof am Mrs S. Olwen Edwards, Cilan, Llanrug.**
**£5: Iestyn a Brenda Jones, Bryn Gloch, Betws Garmon. Mrs Heulwen Williams, 5 Glanmoelyn, Llanrug. Mr a Mrs Cliff Williams, Awelon, Llanrug. John ac Elizabeth Evans, Blaen Parc, Bethel. Mrs Maud Jones, 1 Stryd y Dŵr, Llanberis. Mrs Beryl Owen, 46 Maes Padarn, Llanberis. Jim a Margaret Munro, Plas Pengwaith, Llanberis. Dewi Griffiths, Llwyn Eithin, Bethel. Mrs Alice Jones, Beddgelert, ar ran teulu Huw Bara, Llanberis. Goronwy a Mair Jones, Cilan, Bethel.**
**£3: Mona, 17 Dôl Eilian, Llanberis. Geraint ac Ann Parry, 7 Y Rhos, Bethel.**
**£2.50: Mr a Mrs Danny Roberts, 20 Strydd Goodman, Llanberis.**
**£2: Bryan a Gwyneth Jones, Preswylfa, Clwt-y-bont.**

Cefnogwch ein Hysbysebwyr


CYMDEITHAS
TAI ERYRI
*Cartrefi ar gyfer angen lleol*

CYFRIFWYR PROFIADOL
ARBENIGWYR ADEILADU

**DEWCH**
**i adfywio bro**

cyfrannwch er budd eich cymuned
darparwch gartrefi diddos yn lleol
dewch yn aelod o'n Bwrdd Rheoli
(ad-delir costau'r aelodau)

**Cymdeithas Tai Eryri** yw prif gymdeithas dai Gogledd Orllewin-Cymru gan reoli dros 1250 o gartrefi yng Ngwynedd ac Ynys Môn.

CYSYLLTWCH A:
WALIS GEORGE,
CYMDEITHAS TAI ERYRI,
PENYGROES, GWYNEDD
☎ 01286 881588

# CHWARAEON

## Y GWYDDELOD A ORFU

Cefais sawl cysylltiad â'r Gwyddelod yn ystod y mis diwethaf, a hynny yn y Cae Ras, yn Dalymount Park ac yna yn Wembley. Y Cae Ras i ddechrau, lle roedd tîm pêl-droed 'B' Cymru yn wynebu tîm cyfatebol Gogledd Iwerddon. Trefnwyd taith o'r Ysgol a bu 50 o ddisgyblion yn Iwcus i weld gêm ryng-wladol am y tro cyntaf. Diolch i FA Cymru am roi tocynnau rhad i ddisgyblion ar gyfer y gêmhon. Roedd clywed yr ieuenctid – dilynwyr y dyfodol gobeithio – yn cefnogi'n groch yn codi'r galon. Roedd yn wych gweld dau o fechgyn lleol yn nhîm Cymru. Gall Marc Lloyd Williams fod yn falch iawn o'i berfformiad. Mae Marc wedi cryfhau yn arw ers mynd i chwarae'n broffesiynol, a'r cyflymdra cynhennid yn dal ganddo hefyd. Mae Halifax yn cael tymor llwyddiannus – fel y dangoswyd gan y gêm gyfartal ar Barc Ninian yn diweddar – a dylai hyn sicrhau bod Marc yn dal i gael sylw. Ac erbyn hyn mae wedi dechrau dringo'r ysgol ryng-wladol sydd yn sicr yn gallu agor drws cyfle. Siaradodd yn dda hefyd gyda Gavin Allen ac Eifion Williams ar raglen Jonathan Davies ar Radio Cymru. Ac fel y dywedodd Jonathan, mae'n braf gweld tri 'Gog' o'r un ardal yn cymryd camau breision. Yr oedd Marc a Gavin hefyd yn barod iawn i ddiolch i Dic Parry a chriw Ysgol Brynrefail am eu harwain yn y blynyddoedd cynnar. Cyn-ddisgybl o'r ysgol acw ym Mhorthaethwy yw Eifion ac rwyf fi a llawer un arall yn methu'n lân a deall pam nad oes yr un o'r clybiau proffesiynol wedi mentro ei arwyddo. Roedd ei gôl ar y Cae Ras o'r radd uchaf. Mae wedi bod yn gyndyn i gael ei holi ar y radio cyn hyn, ond bu yntau'n siarad efo John Hardy yn ddiweddar. Bachgen swil yw Eifion a rhai pobl yn credu ei fod felly'n ddihyder. Yr oedd ei sylw, 'Doeddwn i ddim yn gwybod beth i'w wneud ar ôl sgorio'r gôl,' yn dweud cyfrolau amdano. Mae ynddo naifrwydd, ond mae ynddo allu hefyd. Gobeithio y caiff sawl cyfle arall i wisgo'r crys coch a bydd yn gwybod beth i'w wneud y tro nesaf.

Tarian y Celtiaid oedd y wobr ar Barc Dalymount, Dulyn, cartref tîm pêl-droed y Bohemians. Gêm flynyddol yw hon rhwng tîm ieuenctid y Boh's a thîm dan 16 yr ysgol acw. Am wahaniaeth mewn blwyddyn! Nid yw tîm yr ysgol acw wedi colli mewn deg gêm, ond cawsom gweir o 3-1. Roedd y Gwyddelod yn gyflymach ac yn fwy dawnus ar y bêl. Yr oedd chwarae ar faes eang Dolymount yn fantais, gan ei fod mor wahanol i'r gors fwdlyd sy'n esgus dros gael pêl-droed yr ysgol. Yr oedd tri o sgowtiaid o'r Premiership yn gwylio'r gêm. Y rheswm am hynny mae'n debyg yw bod Dulyn – ac Iwerddon – ar hyn o bryd yn 'buzzing with talent'. Bu llwyddiant Éire dan arweiniad Jack Charlton yn symbyliad i'r ieuenctid. Y llynedd enillodd Éire bencampwriaeth dan 20 Ewrop. Ni all pêl-droed Cymru ddibynnu'n llwyr ar Giggs yn y dyfodol. Y mae clybiau Iwerddon yn buddsoddi yn yr ieuenctid. Mae timau'r Boh's – o'r 9 oed i 17 oed – dan reolaeth hyfforddwyr trwyddedig. Maent yn ymarfer ddwywaith yr wythnos ac yn cael gêm dros y penwythnos. Onid symudiad positif fyddai gweld Bangor neu Caernarfon yn gwahodd talentau ifanc eu hardal i noson hyfforddi? Hen bregeth, mi wn.

Ac yna'r siom fwyaf yn Wembley. Mae seiniau 'Bread of Heaven' y cefnogwyr rygbi wedi hen lwydo bellach. Nid wyf ddigon o dechnegydd i ddehongli'r gwendidau. Ond ni allaf ddeall sut mae chwaraewyr proffesiynol sy'n cwrdd ac yn ymarfer mor rheolaidd yn gallu gwneud gwallau mor sylfaenol. Ddwy awr cyn y gêm, er yn hyderus gan fod y galon wastad o hyd yn rheoli'r pen, teimlais ryw iselder. Roedd y Gwyddelod o'm cwmpas yn canu a chwerthin. Roedd y Cymry eisoes wedi dechrau dadansoddi'r chwaraewyr a'r tactegau – a hynny cyn y gêm! Roedd amheuon y cefnogwyr yn treiddio drwodd i'r chwaraewyr. Mae naws y gefnogaeth yn newid hefyd. Mae'r 'Flower of Scotland' yn sbarduno'r Albanwyr; mae 'Fields of Athenry' ac 'Ireland's Call' yn deffro'r Gwyddelod. Ond gwael iawn oedd 'Rachie' a 'Chwm Rhondda', ac yna rhyw adfywiad i'n anthem newydd 'Delilah'. Say no more! Roedd mwy nag un aelod o dîm Cymru fel Delilahs yn Wembley y pnawn Sadwrn hwnnw. Y mae teithio i wylio'r gemau rhyng-wladol yn gostus erbyn hyn ac mae'n bosib y bydd Cymry'r dyfodol yn amharod i ddal ati i gefnogi'r tîm. Yn sicr mae mwy a mwy o ddilynwyr 'cymdeithasol' yn y meysydd erbyn hyn. Yr wyf yn edmygu onestrwydd Graham Henry. Gobeithio bod rheolwyr y gêm yn barod i'w gefnogi ac adennill ein parch. Darlun trist iawn fyddai honno o stadiwm gwefreiddiol – os caiff ei chwblhau mewn pryd! – a Chymru yn dîm y gwaelodion yng Nghwpan y Byd. Yr ydym 'yma o hyd' a gobeithio 'y daw dydd y bydd mawr y rhai bychain'.

## I'R BRIG SIROL



*Lucy, Katherine a Nia o dîm gymnasteg Eryri.*

Cafwyd noson wych ym Mhlas Tan-y-bwlch, Maentwrog i wobrwyo prif gampwyr Gwynedd. Ar y lefel hon enillwyr rhanbarthau Arfon, Meirion a Dwyfor oedd yn yr het. Dim ond yr enillwyr oedd yn ymddangos ar y noson. Daeth un o'r tlysau i'n hardal ni i barhau record wych y fro yn y gystadleuaeth hon. Tîm Ieuenctid y Flwyddyn oedd tîm gymnasteg Eryri, sy'n cynnwys tair o ddisgyblion Ysgol Brynrefail – Lucy Stevens, Katherine Pike a Nia Wakeham.

## NAWDD SYLWEDDOL

Mae pob clwb yn yr ardal yn chwilio am noddwyr a bu tîm pêl-droed Llanrug yn ffodus yn ddiweddar. Cyflwynwyd rhodd o £500 i'r clwb gan gwmni Pàrc Cartrefi Gwyliau Brynteg. Y bwriad yw defnyddio'r nawdd tuag at wella safon Eithin Duon. Mae'r clwb i'w canmol am hyn o gofio safon echrydus sawl maes pêl-droed – a hynny hyd yn oed ar lefel Cynghrair Cymru – neu hyd yn oed Old Trafford erbyn hyn! Y mae cyfrannu tyag at amgylchedd yn un o fwriadau'r cwmni sy'n prysur ddatblygu y cyfleusterau ym Mrynteg a thrwy hynny yn creu swyddi lleol. Tybed faint o'n clybiau lleol sy'n ymwybodol o'r cysylltiad y gellir ei wneud â diwydiant lleol trwy gynllun 'Sportsmatch' a reolir gan y Cyngor Chwaraeon. Y bwriad yw cael diwydiant lleol i noddi ac yna fe gyfrennir yr un swm gan gynllun 'Sportsmatch' – hynny yw, dyblu'r nawdd. Mae'r cynllun yma'n sicr yn werth ei archwilio yn enwedig gyda'r bwriad o wella'r cyfleusterau. Rhaid canmol Llanrug am eu gwaith eisoes ac hefyd am gario ymlaen yn frwdfrydig i wella. Fel cyn asgelllwr chwith mae'n brafiach o lawer ar Eithin Duon erbyn hyn na chwarae i fyny'r allt a redai ar draws y cae yn y 60au!



*James McAllister (Parc Brynteg) yn cyflwyno siec am £500 i Gareth Hughes, ysgrifennydd Clwb Pêl-droed Llanrug.*